# Cynllun Datblygu Lleol Conwy
# 2007 – 2022



## CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL

## CDLl44: Cynllun Lle Towyn a Bae Cinmel

**Mabwysiadwyd Awst 2023**

www.conwy.gov.uk

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**This document is also available in English**

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor. Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Blwch Post 1, Conwy, LL30 9GN, neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

**Gallwn ddarparu'r ddogfen hon ar CD, yn electronig neu mewn print mawr a gallwn ei chyfieithu i ieithoedd eraill, cysylltwch â y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.**

Datganiad Ymgynghori

Ymgynghorwyd yn gyhoeddus ynglŷn â'r Canllawiau Cynllunio Atodol hyn am gyfnod o chwe wythnos rhwng 27 Ebrill 2023 a 26 Mai 2023

Cawsant eu mabwysiadu gan y Cabinet ar 22 Awst 2023

Mae copïau o'r sylwadau a gafwyd, ynghyd ag ymateb y Cyngor, i'w gweld ar-lein

Rhoddir trwydded ddirymiadwy nad yw'n gyfyngedig, heb freindal, i chi weld y Data Trwyddedig ar gyfer defnydd anfasnachol yn unig, o'r cyfnod y bydd ar gael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu, gwerthu neu fel arall drefnu bod y Data Trwyddedig ar gael mewn unrhyw ffurf i drydydd partïon; a
Neilltuir hawliau trydydd parti i orfodi telerau'r drwydded hon i'r Arolwg Ordnans.

# CYNLLUN LLE
# TOWYN A BAE CINMEL
# HAF 2022







UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

TOWYN & KINMEL BAY TOWN COUNCIL

TKBVOICE
Shaping the future of Towyn & Kinmel Bay together

# Cydnabyddiaeth

Ni fyddai wedi bod yn bosibl cynhyrchu'r corff hwn o waith heb gefnogaeth ac ymgysylltiad pobl leol ac amrywiaeth eang o randdeiliaid a roddodd yn hael o'u hamser i rannu gwybodaeth leol, eu barn am broblemau ac atebion posibl ac adborth i'n tîm o ymgynghorwyr a ymgysylltodd â'r gymuned ac a rannodd y syniadau a ddeilliodd o'r gwahanol fforymau. Ymddiheurwn ymlaen llaw na allwn grybwyll pawb y gwnaethom eu cyfarfod ac ymgysylltu â nhw drwy'r broses ond diolchwn i bawb yn y gymuned am roi o'u hamser ac am rannu eu safbwyntiau mor hael a gyda'r fath ymrwymiad i'w hardal

Dymuna Partneriaeth Gymunedol TBVOICE a Chyngor Tref Towyn a Bae Cinmel, fel corff noddi'r prosiect Cysylltiadau Cymunedol sydd wedi galluogi ffurfio

Partneriaeth Gymunedol TKBVoice a'r ddau brif gwmni ymgynghorol sy'n gweithio ar y Cynllun Lle a'r ymgysylltiad â'r gymuned cysylltiedig, Chris Jones Studio a Wilkinson Bytes, ddiolch yn benodol i'r bobl a'r grwpiau canlynol am eu cefnogaeth a'u cyfraniad yn ystod proses y Cynllun Lle.

- Holl aelodau'r gymuned leol a gwirfoddolwyr TKBVOICE - rhy niferus i'w henwi yma - a wirfoddolodd i gefnogi ein hymgyrch gymunedol ~ #LoveTKB gyda'u cefnogaeth nhw bu modd sicrhau bod pob aelwyd yn Nhowyn a Bae Cinmel wedi derbyn cerdyn post #LoveTKB a thaflen am y prosiect a sut i chwarae rhan.
- Yr holl bobl leol a ddaeth ymlaen i fynegi diddordeb mewn bod yn aelodau o Bartneriaeth Gymunedol TKBVOICE a'r rhai hynny a gafodd eu dethol, am eu cefnogaeth a'u harweiniad parhaus i'r ymgynghorwyr a oedd yn gweithio ar y prosiect.
- Pawb a fynychodd ein digwyddiadau ymgysylltu cymunedol (dros 20 o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymunedol i gyd), sydd wedi cysylltu â ni'n uniongyrchol neu sydd wedi defnyddio ein cyfleusterau ar-lein i rannu syniadau ac adborth am yr ardal, problemau ac atebion posibl ac a roddodd adborth ar syniadau wrth iddynt gael eu datblygu.
- Yr holl bobl leol a fu mor hael yn rhannu eu ffotograffau â ni i'w defnyddio ar y wefan, yn y cyfryngau cymdeithasol ac yn neunyddiau'r prosiect i gefnogi ymgysylltiad a datblygu syniadau ar gyfer yr ardal.
- Diolch yn fawr i Eglwys y Santes Fair, Bae Cinmel, Festival Church, Creu Menter a Chartrefi Conwy yn Nhŷ'r Gymuned, Chester Avenue, siop Spar Towyn, Clwb Cymdeithasol Bae Cinmel, Llyfrgell Bae Cinmel, Ysgol y Foryd ac Ysgol Maes Owen, Bae Cinmel, Sioe Towyn, Y Morfa, Tir Prince Ltd a llawer o grwpiau a busnesau lleol eraill, rhy niferus i'w crybwyll yma. Diolch i chi i gyd am arddangos ein posteri, hyrwyddo ein gweithgareddau, ein gwahodd ni i siarad â chi, caniatau i ni ddefnyddio cyfleusterau lleol neu ein gwahodd ni i ymuno yn eich digwyddiadau.
- Swyddog Ymgysylltiad Strategol a Chynlluniau Lle Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am gyngor ac arweiniad.
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, yn benodol diolch 'r swyddogion cyfrifol o Gynllunio Strategol - Polisi, Addysg, Ystadau a Rheoli Asedau, yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau am eu cydweithrediad yn ystod y broses.
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am ddarparu gwasanaeth trwyddedu mapiau AO ar gyfer y comisiwn penodol hwn

Mae’n rhoi pleser mawr i mi gyflwyno ein Cynllun Lle ar gyfer yr ardal.

Y Cyngor Tref yw’r sefydliad lletyol a chyd-sefydlydd y Prosiect Cysylltiadau Cymunedol, ar y cyd â Chronfa Adnewyddu Cymunedau Llywodraeth y DU. Rydym yn fodlon dros ben â dau ganlyniad craidd y prosiect, sef ffurfio’r Bartneriaeth Gymunedol TKBVoice i gefnogi’r broses cynllunio lle, a’r Cynllun LIe ei hun.

Roedd hwn yn brosiect uchelgeisiol gyda therfynau amser tynn. Rydym wedi cyflawni mewn 6 mis yr hyn y mae eraill wedi cymryd blynyddoedd lawer i’w gyflawni. Rwy’n hynod o falch o’n hymdriniaeth arloesol i sicrhau bod Partneriaeth Gymunedol TKBVOICE yn wirioneddol annibynnol ar y Cyngor ac rwy’n hyderus ein bod wedi’n cynrychioli’n dda ar y Bartneriaeth hon, gydag aelodau a fydd yn parhau i roi’r holl wybodaeth angenrheidiol i ni ac yn sicrhau bod cydweithio’n parhau.

Rwy’n falch iawn hefyd o adrodd bod y Prosiect wedi rhagori’n sylweddol ar holl yr holl ddangosyddion perfformiad a bod cryn werth ychwanegol wedi’i greu drwy ymgyrchu cymunedol ar lawr gwlad a gwirfoddoli ochr yn ochr ag arloesedd digidol Mae’r adroddiad gwerthuso annibynnol yn hynod o gadarnhaol ynghylch yr hyn a wireddwyd. Mae hefyd yn amlinellu gwersi a fydd yn hysbysu prosiectau’r dyfodol y gallem fod yn rhan ohonynt ac yn rhoi awgrymiadau gwych i’r Bartneriaeth Gymunedol TKBVOICE wrth iddi ddechrau troi’r syniadau yn y cynllun yn weithredoedd gyda chefnogaeth partneriaid eraill.

Rwy’n arbennig o ddiolchgar i’m holl gyd-gynghorwyr am eu cefnogaeth i’r prosiect, i aelodau’r gymuned a wirfoddolodd ac i’n dau sefydliad ymgynghorol arweiniol, Chris Jones Regeneration a Wilkinson Bytes am y gwaith ardderchog a wnaethant mewn amser mor fyr.

Fel Cyngor Tref bydd ein hymgysylltiad agos yn parhau, ochr yn ochr â rhanddeiliaid eraill, a byddwn yn parhau i gefnogi gweithredu cymunedol i wneud Towyn a Bae Cinmel y lle gorau y gall fod heddiw ac ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol.

Y Cynghorydd Geoff Corry

Cyngor Tref Towyn a Bae Cinmel

Fel un o Gyd-gadeiryddion Partneriaeth Gymunedol TKBVOICE, mae'n rhoi pleser mawr i mi gyflwyno Cynllun Lle TKBVOICE. Hwn yw Cynllun Lle cyntaf yr ardal, a bu aros hir amdano. Mae'r Cynllun yn rhoi map o'r llwybr i'w ddilyn i'n galluogi ni i siapio dyfodol Towyn a Bae Cinmel gyda'n gilydd

Fel Partneriaeth, ein rôl ni yw sicrhau bod syniadau'n troi'n weithredoedd gydag ymgysylltiad a chymorth pobl leol. Ffurfiwyd ein Partneriaeth ym mis Mawrth 2022 ar ôl ymgyrch gymunedol ar lawr gwlad a phroses mynegiannau o ddiddordeb agored a reolwyd yn annibynnol gan y Cyngor. Roedd y bartneriaeth wedi'i gor-danysgrifio, sydd yn brawf o ymrwymiad pobl leol i siapio gwell dyfodol i Dowyn a Bae Cinmel. Cyfarfu'r aelodau gwreiddiol am y tro cyntaf ym mis Ebrill ac ar ôl yr etholiadau lleol ym mis Mai, daeth 4 aelod newydd atom (3 Chynghorydd Tref ac un Cynghorydd Sir), a gafodd eu dethol drwy'r un broses o fynegi diddordeb.

Roedd y broses recriwtio dau gam hwn yn golygu bod Partneriaeth Gymunedol TKBVOICE yn un a oedd yn wirioneddol wedi'i harwain gan y gymuned o'r cychwyn cyntaf. Mae'r Bartneriaeth wedi cyfarfod yn ffurfiol 5 gwaith ers ei sefydlu ac wedi helpu i siapio, cynghori, rhoi mewnbwn i, a chymeradwyo'r Cynllun Lle.
Rydym yn ddiolchgar i'r Cyngor Tref, cynghorwyr a staff am alluogi ffurfio'r Bartneriaeth ac am eu hymrwymiad i ddatblygiad cymunedol.

Mae ein diolch yn ymestyn i bawb sydd wedi cymryd rhan mewn trafodaethau, wedi rhannu syniadau neu roi beirniadaeth adeiladol yn ystod amrywiaeth o sgyrsiau wedi'u harwain gan y gymuned a digwyddiadau a gynhaliwyd dros gyfnod byr o amser ers mis Ionawr eleni. Cyflwynwyd y rhaglen hon o weithgareddau gan ein hymgynghorwyr Chris Jones Regeneration a Wilkinson Bytes.

Gyda'n gilydd rydym wedi cyflawni llawer mewn cyfnod byr iawn o amser.

Gadewch i ni barhau i siapio dyfodol cadarnhaol ar gyfer cymuned Towyn a Bae Cinmel a pharhau sgyrsiau wedi'u harwain gan y gymuned ynglŷn â'r blaenoriaethau yn y Cynllun Lle.

Cyd-gadeiryddion:
Bill Darwin, Cyd-gadeirydd Sefydlu, Barry Griffiths, Cyd-gadeirydd

# Crynodeb Gweithredol

Ym mis Mehefin 2021, cyflwynodd Cyngor Tref Towyn a Bae Cinmel y prosiect Cysylltiadau Cymunedol i Gronfa Adfywio Cymunedol Llywodraeth y DU, gyda ffocws ar ddatblygu Cynllun Lle. Amcanion y prosiect oedd annog mwy o ymgysylltiad cymunedol mewn cynllunio a llunio mentrau sicrhau lles lleol, dylanwadu ar gynlluniau darparu cyrff sector cyhoeddus a sicrhau gwelliannau go iawn o ganlyniad i'r cynllun hwn, a bod hwn yn fan cychwyn i broses barhaus. Ym mis Rhagfyr, bu Cyngor y Dref yn llwyddiannus yn eu cais am gyllid gyda hynny wedi arwain at greu'r Cynllun Lle hwn.

Roedd angen y prosiect hwn oherwydd bod yr ardal hon ar ffin ddwyreiniol sir Conwy mor dameidiog gyda diffyg cydlyniad yn gorfforol ac yn gymunedol. Wedi'i leoli ger y môr ar arfordir Gogledd Cymru, mae Towyn a Bae Cinmel yn profi pwysau twristiaeth aruthrol gyda'r boblogaeth yn cynyddu tua 500% pan fo'r tymor gwyliau yn ei anterth, a hynny yn bennaf oherwydd y nifer fawr o barciau carafanau eang sydd yma a hefyd oherwydd bod y lle mor agos at y Rhyl. Mae amddifadedd ymysg y preswylwyr yn uchel gydag ardal cynnyrch ehangach haen is Bae Cinmel 1 yn 296/1909 o ran amddifadedd lluosog gydag addysg, incwm a chyflogaeth yn feysydd o bryder. Mae'r A548 yn hollti'r gymuned yn ddwy a'r argraff gyntaf a geir yw mai amgylchedd sy'n dibynnu ar ffyrdd sydd yma, a bod mynediad i, ac archwilio'r lleoliad yn anodd. Wrth gerdded drwy'r gymdogaeth gwelir pocedi o asedau seilwaith gwyrdd sydd heb eu manteisio arnynt ond sydd â'r potensial i greu cyfleoedd ar gyfer preswylwyr. Mae'r gwasanaethau lleol i'w gweld dan straen gyda diffyg ymagwedd gydlynol tuag at yr isadeiledd cymunedol.

Roedd yr angen am Gynllun Lle sy'n canolbwyntio ar wneud yr ardal yn lle gwell i genedlaethau'r dyfodol fyw, gweithio ac ymweld ag o yn ffocws allweddol. Roedd yna hefyd gydnabyddiaeth bod diffyg ymagwedd partneriaeth ehangach yn y gymuned, felly ym mis Mawrth 2022 ffurfiwyd Partneriaeth Gymunedol TKBVoice i fod yn sianel ar gyfer sgyrsiau lleol ac i flaenoriaethu a gwneud i bethau ddigwydd. Mae'r Prosiect Cysylltiadau Cymunedol hefyd wedi ymwneud â grymuso a chyfeirio preswylwyr a grwpiau lleol tuag at y cyfleodd y gall cynllun lle eu cynhyrchu. Mae cyfuniad o ymgysylltiad digidol ac wyneb yn wyneb wedi helpu i sicrhau y cafodd preswylwyr gyfle i ymuno yn y sgwrs gyda digwyddiadau wedi'u cynnal ar draws Towyn a Bae Cinmel er mwyn cofnodi materion a syniadau a'u bwydo i mewn i ddatblygiad y Cynllun.

Mae'r ddogfen yn cyflwyno gweledigaeth bymtheng mlynedd i greu 'Towyn a Bae Cinmel cydlynus y gellir ei grwydro a'i ddarganfod o'r môr i'w strydoedd i'w fannau gwyrdd gyda chyfres o gymunedau gweithredol, mentrus ac iach".

Mae'r Cynllun Lle yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer dyfodol Towyn a Bae Cinmel ac yn gosod y sylfeini ar gyfer ffyniant a lles Mae pum thema yn cefnogi Gweledigaeth y Cynllun, sef i) Towyn a Bae Cinmel sydd â'r Holl Adnoddau Angenrheidiol ii) Towyn a Bae Cinmel Gwyrddach iii) Towyn a Bae Cinmel Egniol iv) Towyn a Bae Cinmel Mentrus a v) Towyn a Bae Cinmel - Cyrchfan i Bawb.

Mae'r themâu blaenoriaeth a nodwyd yn y Cynllun Lle (Atodiad 1) yn ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd mwyaf i Dowyn a Bae Cinmel fel y dangosodd ein hymchwil, ac

a gymeradwywyd gan y gymuned leol ac mewn ymgynghoriad â budd-ddeiliaid. Bydd gwireddu Gweledigaeth ac Amcanion Strategol Towyn a Bae Cinmel yn seiliedig ar weithredu lleol sy'n canolbwyntio ar bobl a lles. Mae'r Cynllun Lle hefyd yn darparu sylfaen gryfach ar gyfer Towyn a Bae Cinmel gan roi'r sbotolau ar ei anghenion, ei asedau a'i bobl. Mae'r ymdriniaeth integredig yn brawf i bartneriaid strategol o uchelgeisiau'r gymuned a'r dull integredig o weithredu ac yn rhoi hyder wrth fynd ati i geisio cefnogaeth â darpariaeth. Mae'n darparu cyfeiriad clir ar gyfer gweithredu lleol a chynaliadwy dros y pymtheg mlynedd nesaf.

# 1. Cynllun Lle Towyn a Bae Cinmel

**BETH YW CYNLLUN LLE?**

Mae Cynlluniau Lle yn arfau pwerus i hyrwyddo gweithredu ar y cyd i wella lles a chreu lleoedd. Er nad yw Cynlluniau Lle yn ddogfennau statudol, maent yn cefnogi darpariaeth polisiau'r Cynllun Datblygu Lleol a gellir eu haddasu fel canllawiau cynllunio atodol.

I fod yn llwyddiannus, mae'n rhaid i Gynlluniau Lle gysylltu'n ofalus â chylch paratoi ac adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl). Am y rheswm hwn bydd amseriad Cynllun Lle yn ystyriaeth bwysig i awdurdod cynllunio lleol. Disgwylir felly i'r rhan fwyaf o Gynlluniau Lle gael eu paratoi gyda'r nod y byddant yn dod yn Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA). Fel CCA, ni ellir mabwysiadu Cynllun Lle hyd nes bod CDLl wedi'i fabwysiadu

**Pwrpas Cynllun Lle yw**

- Casglu tystiolaeth am eich ardal i ddeall pa anawsterau y mae'r gymuned yn eu hwynebu
- Siarad â'r gymuned ehangach a budd-ddeiliaid ynglŷn â sut y bydd yr ardal yn datblygu, a beth y mae angen ei wneud er lles y gymuned yn y dyfodol.
- Cytuno sut yr ydych am i wahanol agweddau eich lle
- fod yn y dyfodol.
- Cytuno ar gynllun i weithio tuag at y dyfodol hwn, gan gynnwys, os yn berthnasol, polisïau ar gyfer gwneud penderfyniadau am gynllunio a chynllun gweithredu sy'n amlinellu'r camau a fydd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion a ddynodwyd.
- Sicrhau y caiff y cynllun terfynol hwn ei gytuno gan y gymuned a
- rhanddeiliaid allweddol a'i fabwysiadu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) i'w ddefnyddio fel Canllaw Cynllunio Atodol

**Manteision y fath gynllun i'r gymuned**

- Blaenoriaethu camau gweithredu allweddol i wella bywiogrwydd yr ardal a lles y bobl sy'n byw yno.
- Bod â dealltwriaeth dda o'r hyn y mae'r gymuned ei eisiau a'i angen a chynnwys y lefelau angenrheidiol o gymorth ar gyfer gwahanol faterion a chamau gweithredu.
- Gwella mewnbwn i benderfyniadau cynllunio lleol, yn cynnwys dylanwadu ar fersiynau'r dyfodol o'r Cynllun Datblygu Lleol i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y gymuned.
- Gwella'r berthynas waith rhwng y gymuned a'r Awdurdod Lleol a gwneuthurwyr penderfyniadau allweddol eraill.
- Gwneud ceisiadau'r dyfodol am gyllid ar gyfer prosiectau cymunedol o fewn y Cynllun Lle yn fwy cadarn drwy gyflwyno tystiolaeth o angen a'r angen am gymorth ymysg y gymuned ehangach.
- Gwella Lles y Gymuned

Bydd ein cynllun lle yn cynnwys

NEWID CADARNHAOL GWAITH TÎM EFFAITH GYMDEITHASOL

## CYNLLLUN LLE Y BROSES

**Y camau allweddol yw**

CAM 1 - Cyfathrebu ac ymgysylltu i hysbysu'r holl randdeiliaid ynghylch yr ymdriniaeth arfaethedig

CAM 2 - Adolygu dogfennau cefndir yn fanwl

CAM 3 - Dadansoddiad a dealltwriaeth o berfformiad TBC

CAM 4 - Cam Ymgynghori 1: Gwrando ar y gymuned ynghylch materion a syniadau

CAM 5 - Paratoi Cynllun Lle strwythuredig a fydd yn cynnwys y weledigaeth ac adolygiad o strategaethau

CAM 6 - Cam Ymgynghori 2: Rhannu ein Cynigion a Drafftio'r Cynllun Lle

## PWRPAS

Pwrpas Cynllun Lle Towyn a Bae Cinmel yw annog y gymuned i chwarae mwy o ran mewn cynllunio lleol a hyrwyddo lles, drwy ddylanwadu ar gynlluniau darparu cyrff sector cyhoeddus a fydd yn arwain at weld gwelliannau go iawn yn deillio o'r cynllun hwn, gyda hynny'n ddechrau ar broses barhaus.

## NOD

Y nod gyffredinol yw ….

"Sicrhau cefnogaeth y gymuned leol, fel eu bod yn cymryd perchnogaeth o'r canlyniadau ac yn cytuno i rannu cyfrifoldeb am ddarpariaeth y dyfodol"

## AMCANION

EIN HAMCANION YW

1. Annog gwell ymgysylltiad cymunedol mewn cynllunio lleol ac amcanion lles
2. Dylanwadu ar gynlluniau darparu cyrff sector cyhoeddus
3. Bod gwelliannau go iawn yn cael eu darparu yn sgil y cynllun hwn fel y camau cyntaf mewn proses barhaus.

BYDD HYN YN GAEL EI GYFLAWNI DRWY

- Ymgynghori â phreswylwyr a sefydliadau lleol allweddol, yn cynnwys cynghorau cymuned cyffiniol a thrwy Dîm y Cynllun i adnabod anghenion, materion a blaenoriaethau lleol
- Gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i gynhyrchu Canllawau Cynllunio Atodol sy’n berthnasol yn lleol
- Ymgysylltu â chyrff sector cyhoeddus a’u cynnwys yn narpariaeth y Cynllun Lle

## 2. PAM BOD ANGEN CYNLLUN LLE?

Mae yn Nhowyn a Bae Cinmel (TBC) boblogaeth breswyl o tua 8,500 ac mae'n gymuned sydd wedi'i nodweddu ers blynyddoedd lawer fel rhywle lle daw nifer enfawr o ymwelwyr i aros yn y parciau gwyliau mawr dros fisoedd yr haf - gall y nifer hwn gyrraedd 50,000.

Mae'r ymwelwyr yn tueddu i dreulio eu hamser ar dir y parciau gwyliau neu ymweld â threfi mwy y Rhyl, Bae Colwyn a Llandudno. Mae arcedau difyrion yn yr ardal ond fawr ddim arall i bobl ar eu gwyliau ei wneud.

Mae'r amddiffynfeydd rhag llifogydd arfordirol yn cael eu gwella ac o ganlyniad i fesurau atal llifogydd mae mynediad i'r traethau tywodlyd yn anodd. Mae môr ac afonydd yn ffinio ardal TBC ac mae'n gymuned sydd mewn perygl o lifogydd; yn ystod llifogydd 1990 bu'n rhaid i fwy o bobl adael eu cartrefi ar adeg heddwch nag erioed o'r blaen.

Mae'r perygl o lifogydd yn cynyddu wrth i'r hinsawdd newid ac mae hyn i bob pwrpas yn cyfyngu ar adeiladu tai preswyl, fel y mae'r mapiau llifogydd yn Nodyn Cyngor Technegol 15 Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru (fersiwn mis Rhagfyr 2021) yn ei ddiffinio.

Mae'r gymuned hefyd wedi'i diffinio ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) fel un sy'n sgorio'n isel ym meysydd iechyd, cyfoeth, addysg a'r amgylchedd.

Mae'r ardal yn un fawr o gymharu â'r boblogaeth ond eto mae tai yn y datblygiadau preswyl wedi'u cywasgu, felly hefyd y parciau gwyliau mawr. Mae'r rhagolygon cyflogaeth ar gyfer cyflogau cenedlaethol cyfartalog yn isel ac yn cyd-fynd â MALlC.

Mae yna fannau cyflogaeth mawr yn ardal TBC sydd wedi'u neilltuo ar gyfer menter ond mae rhai yn wag ac nid ydynt yn cynnig fawr ddim cyfleoedd, yn enwedig am swyddi sy'n ychwanegu gwerth, ac mae diffyg diwylliant entrepreneuraidd. Yn yr ardaloedd eang sy'n cynnwys parciau gwyliau does fawr ddim ansawdd amgylcheddol a chyflogir llawer o bobl mewn swyddi tymhorol a swyddi cysylltiedig.

Mae TBC yn ffodus o ran y cyfleoedd sydd yno i fanteisio ar fannau awyr agored yn cynnwys twyni, yr arfordir, afon a Pharc Tir Prince ac mae yno ardal naturiol (Parc Hanes) a ddiffinnir fel man agored sy'n ganolbwynt teithio llesol Mae llawer o ardaloedd gyda ffyrdd heb eu mabwysiadu lle mae mynediad yn anodd yn enwedig i bobl ag anableddau. Mae Teithio Llesol yn fenter flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ond mae'n cael ei rwystro yma oherwydd mynediad gwael

Mae posibilrwydd o greu ysgol newydd drwy gyfuno Ysgol y Foryd ac Ysgol Maes Owen a fydd yn dal cyfanswm o oddeutu 500 o blant.

Mae gan TBC ganolfan chwaraeon (Y Morfa), etifeddiaeth llifogydd 1990. Y Morfa yw'r lleoliad mwyaf ar gyfer ymgysylltiad cymunedol ac mae'n gartref i Glwb Pêl-

droed Bae Cinmel, un o ddim ond 12 clwb o'r 500 ar draws Cymru i gael eu hachredu i'r safon Platinwm uchaf am waith gyda chwaraewyr iau.

Mae'r ganolfan yn cael ei rhedeg gan wirfoddolwyr ac yn gwasanaethu'r gymuned gan gynnig amrywiaeth o weithgareddau Mae TBC yn rhywle lle mae gwirfoddoli yn digwydd ac yn cael ei barchu a'i werthfawrogi felly bydd ein cymuned sicr o ymateb. Mae cynllunio lle ar y cam hwn yn ddechrau newydd newydd o ran ymgysylltu i wneud ein lle ni yn lle gwell i fyw, i weithio ac i ymweld ag o.

Mae ar TBC angen Cynllun Lle i fynd i'r afael â'r heriau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol presennol hyn drwy ymagwedd gydlynol sy'n cefnogi datblygiad cynaliadwy hirdymor ac yn gwella lles ei breswylwyr

PRIF SBARDUNAU

Lleoliad

YN AGOS AT GANOLFANNAU MAWR ERAILL
HANES FEL CYRCHFAN GLAN MÔR

Isadeiledd

NEWID YN YR HINSAWDD
YR ANGEN A DAI
CYDBWYSO ANGHENION PRESWYLWYR / YMWELWYR

# 3. CYD DESTUN A LLEOLIAD

## LLEOLIAD A CHYD-DESTUN

Mae Towyn a Bae Cinmel wedi'u lleoli ar ffin ddwyreiniol eithaf Bwrdeistref Sirol Conwy. Dros Afon Clwyd mae'r Rhyl yn Sir Ddinbych gyda'r cymunedau 2.5 milltir (4.0 cilomedr) i'r gogledd ddwyrain o Abergele a 14.1 milltir (22.7 cilomedr) i'r dwyrain o Gonwy. Mae'r cymunedau'n cynnwys nifer fawr o barciau gwyliau enfawr. Yn croesi drwy'r gymuned mae Afon Gele, sy'n llifo o'r gorllewin i'r dwyrain cyn ymuno ag Afon Clwyd ar y ffin ddwyreiniol.

Cyn i Fae Cinmel gael ei enw roedd anheddiad bach o'r enw'r Foryd yma, sydd erbyn hyn yn enw ar y bont sy'n croesi drosodd i'r Rhyl heddiw. Datblygwyd yr ardal ar ôl 1793, pan gafodd Comisiynwyr Morfa Rhuddlan bwerau i ddraenio'r ardal o amgylch Towyn. Ganol y 19eg ganrif adeiladwyd amddiffynfeydd i ddiogelu'r rheilffordd newydd rhwng Caer a Chaergybi rhag llifogydd. Yn 1990, oherwydd gwyntoedd cryfion, llanw uchel ac ymchwydd storm, methodd 400 llathen o'r amddiffynfeydd gan achosi llifogydd mawr a difrod i 2,800 o dai. Roedd 4 milltir sgwâr o dir (10 cilomedr sgwâr) o dan ddŵr. Ers hynny adeiladwyd wal gynnal o graig i ddiogelu'r darn o'r arfordir lle gorlifodd y môr ac mae rhagor o waith amddiffyn wedi'i wneud tua'r dwyrain.

# 4. GOSOD Y POLISI

Mae gosod polisi ar gyfer lle fel Towyn a Bae Cinmel yn bwysig gan ei fod yn dangos y cysylltiadau ag agendâu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, gan roi cyfeiriad strategol ac aliniad. Mae hefyd yn dangos y cyfleoedd strategol a'r cyfyngiadau sydd i le a'i ddatblygiad.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

Mae Cyngor Tref Towyn a Bae Cinmel yn cyfrannu at saith o'r amcanion cenedlaethol drwy ei bum Nod Sefydliadol (2017 - 2022) Mae pob un o'r pump yn cyfrannu at yr amcan hon:

- Y dechrau gorau posibl mewn bywyd
- Lles gydol oes
- Uchafu potensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
- Sir ffyniannus sydd wedi'i chysylltu'n dda
- Cyngor sy'n canolbwyntio ar y dyfodol - yn cynnwys darparu gwasanaethau lleol da a chynaliadwy ar yr un pryd a darparu profiad cwsmeriaid rhagorol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i sicrhau datblygiad cynaliadwy.
Nid yw hwn yn gysyniad newydd mewn perthynas â'r system gynllunio gan fod egwyddorion datblygiad cynaliadwy wedi bod wrth wraidd polisiau cynllunio ers pan gyhoeddwyd Polisi Cynllunio Cymru (PCC) gyntaf yn 2002. Fodd bynnag mae'r cysyniad wedi'i ehangu o dan y Ddeddf Llesiant ac gofyn am welliant yn narpariaeth pob un o'r bedair elfen o lesiant - cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol

Mae'r Ddeddf Llesiant wedi sefydlu saith nod llesiant y bwriedir iddynt siapio gwaith yr holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru.

Er mwyn dangos y rhoddwyd yr ystyriaeth briodol i'r nodau llesiant a'r egwyddor o ddatblygiad cynaliadwy yn y broses o wneud penderfyniadau mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus dalu sylw i'r 'pum ffordd o weithio' yn y Ddeddf Llesiant. Mae'r rhain yn gofyn am gryn ymgysylltiad, cydweithio; integreiddio; atal a ffactorau hirdymor.

**Polisi Cynllunio Cymru (PCC)**

Mae Polisi Cynllunio Cymru'n cynnwys polisïau cynllunio'r defnydd o dir Llywodraeth Cymru. Yn y ddogfen diffinnir 'Creu Lleoedd' fel dull cyfannol o ddylunio datblygiadau a mannau cyhoeddus, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau cadarnhaol gan dynnu ar botensial ardal i greu datblygiad o safon uchel a mannau cyhoeddus sy'n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a lles yn yr ystyr ehangaf.

O safbwynt PCC, yng nghyd-destun y Cynllun Lle hwn, creu lleoedd yw ystyried y cyd-destun, y swyddogaeth a'r berthynas rhwng safle datblygu a'i gyffiniau ehangach. Bydd hyn yn wir yn achos datblygiadau mawr sy'n creu lleoedd newydd yn ogystal â datblygiadau bach sy'n digwydd o fewn lle ehangach. Mae'r ddogfen

bolisi hefyd yn ei weld nid fel cost ychwanegol ar ben costau datblygiad, ond yn hytrach fel rhywbeth sy'n gofyn am feddwl clyfar, aml-ochrog ac arloesol i'w sefydlu ac y dylid ei ystyried ar y cam cynharaf bosib. Mae creu lleoedd yn ychwanegu gwerth cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol at gynigion datblygu, gan arwain at fuddiannau sy'n mynd y tu hwnt i ffin datblygiad corfforol ac yn ymwreiddio gwytnwch ehangach mewn penderfyniadau cynllunio Rhai o'r themâu allweddol y dylai creu lleoedd gyfrannu atynt yw:

- Dewisiadau Strategol a Gofodol
- Mannau Egnïol a Chymdeithasol
- Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus
- Mannau Nodedig a Naturiol

Gall y defnydd o gynlluniau meistr, briffiau datblygu neu gynlluniau lle ychwanegu at strategaethau drwy ddarparu manylion ychwanegol a chefnogi gweithrediad polisiau cynlluniau datblygu. Wrth ddatblygu strategaethau, cynlluniau a pholisiau i adfywio a chynyddu atyniad
canolfannau manwerthu a masnachol, dylai awdurdodau cynllunio ymgynghori â'r sector preifat a chymunedau lleol.

Yn ôl PCC mae Cynlluniau Lleoedd yn ddogfennau anstatudol. Gall cymunedau lleol ysgogi paratoad cynlluniau lle ac maent yn arf pwerus mewn hyrwyddo gweithredu ar y cyd i wella lles a chreu lleoedd. Dylai Cynlluniau Lle gefnogi darpariaeth polisïau CDLl ac maent yn cael eu mabwysiadu fel canllaw cynllunio atodol.

## CYD-DESTUN POLISI CENEDLAETHOL

### Strategaeth Drafnidiaeth

Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru'n darparu'r fframwaith ar gyfer gweithgaredd yn y maes hwn ac yn pennu'r blaenoriaethau strategol sef gwasanaeth cludiant integredig, cynaliadwy, effeithiol ac economaidd ar gyfer Cymru. Mae'n sefydlu'r cyd-destun ar gyfer cyflawni nod Llywodraeth Cymru o leihau'r angen i deithio, yn ogystal ag annog pobl i gerdded, beicio neu ddefnyddio cludiant cyhoeddus yn lle teithio mewn car preifat. Mae hyn wedi'i adlewyrchu ym Mholisi Cynllunio Cymru a Dyfodol Cymru sy'n gosod creu lleoedd wrth wraidd y system gynllunio. Cefnogir y newid hwn gan yr hierarchaeth cludiant cynaliadwy sy'n blaenoriaethu cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus.

Cyhoeddwyd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru'n Un, Cysylltu'r Genedl, yn 2008. Ers hynny cyflwynwyd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, sy'n cael dylanwad cynyddol ar y ffordd yr ydym yn integreiddio teithio llesol mewn datblygiadau newydd. Mae'n hanfodol galluogi pobl i gerdded a beicio fel rhan o'u gweithgareddau dydd i ddydd. Mae cynlluniau metro hefyd yn cael eu datblygu yn y de ddwyrain, y de orllewin a'r gogledd gyda chryn fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru a'i bartneriaid darparu. Bydd y prosiectau metro'n cyflwyno cyfleoedd arwyddocaol i gymunedau a datblygiadau newydd gael eu cefnogi gan gludiant cyhoeddus a safon dda. Mae technolegau cludiant hefyd wedi datblygu'n arwyddocaol dros y blynyddoedd diwethaf, gyda cherbydau allyriadau isel dros ben a fydd yn cael effaith

drawsnewidiol ar ddatgarboneiddio cludiant. Bydd Strategaeth Cludiant Cymru 2021, Llwybr Newydd, yn cydnabod y newidiadau hyn ac yn nodi ein gweledigaeth hirdymor ar gyfer cludiant.
Mae Llwybr Newydd, ochr yn ochr a'r polisiau a'r prosiectau cludiant cysylltiedig, wedi cyfrannu'n uniongyrchol at strategaeth ofodol, canlyniadau a pholisiau Cymru'r Dyfodol.

**Deddf Teithio Llesol Cymru**

Enillodd cerdded a beicio gefnogaeth pan basiodd Cynulliad Cymru Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) a gafodd gydsyniad brenhinol ym mis Tachwedd 2013. Mae'r Ddeddf yn pennu nifer o ddyletswyddau ar awdurdodau lleol i greu a gwella gyfleusterau a llwybrau ar gyfer cerddwyr a beicwyr yn barhaus ac i baratoi mapiau sy'n dangos y llwybrau sydd ar gael iddynt rŵan ac yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf hefyd yn gofyn bod cynlluniau ar gyfer ffyrdd newydd yn ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr ar y camau cynllunio a dylunio. Dylid dylunio neu wella'r rhwydwaith teithio llesol i ddiwallu cyfres o safonau arfer gorau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau:

- Deddf Teithio Llesol (Cymru) – Canllawiau Dylunio (2014)
- Canllawiau Statudol ar Ddarpariaeth Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013;
- Y Cynllun Gweithredu Teithio Llesol.

**Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040**

Cymru'r Dyfodol yw Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru sy'n sefydlu'r cyfeiriad ar gyfer datblygad yng Nghymru hyd 2040. Mae'n gynllun datblygu gyda strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi bywiog; datgarboneiddio ac atal newidiadau yn yr hinsawdd; datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a lles ein cymunedau.

Ar draws y gogledd mae amrywiaeth o faterion strategol. Mae i lawer o'r rhain ddimensiynau cenedlaethol. rhanbarthol a lleol a byddant yn cael eu cyflawni drwy weithredu cydlynol ar bob lefel. Dylai tai, twf economaidd, seilwaith cysylltedd digidol a chludiant fod wedi'u cydlynu a'u cynllunio ar sail y rhanbarth gyfan.
Dylai rheolaeth adnoddau naturiol, llifogydd a diogelu a gwella ardaloedd sy'n bwysig oherwydd eu hamgylchedd a'u tirwedd hysbysu penderfyniadau strategol am leoliadau ar gyfer twf ac isadeiledd newydd. Dylai datgarboneiddio ac ymateb i fygythiadau argyfwng yr hinsawdd fod yn ganolog i'r holl gynllunio rhanbarthol.

Dylai'r rhanbarth ddod at ei gilydd i ystyried y cysylltiadau cludiant â Chanolbarth Cymru, Iwerddon, Gorllewin Swydd Gaer a Chaer a Gogledd Orllewin Lloegr. Bydd hyrwyddo hygyrchedd a rhyng-gysylltiadau rhwng yr ardaloedd hyn, yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'u rolau a'u swyddogaethau, yn sicrhau bod yr ardaloedd hyn yn gweithredu fel cyfanrwydd cydlynol, ac nad ydynt yn cystadlu yn erbyn ei gilydd nac yn gwneud penderfyniadau strategol ar eu pen eu hunain. Mae'r polisiau perthnasol ar gyfer Towyn a Bae Cinmel yn cynnwys:

**Polisi 21 – Ardal Twf Rhanbarthol - Gogledd Cymru Aneddiadau Arfordirol**

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf cynaliadwy ac adfywio mewn trefi o bwysigrwydd rhanbarthol ar hyd yr arfordir gogleddol. Bydd Caergybi, Caernarfon, Bangor, Llandudno, Bae Colwyn, y Rhyl a Phrestatyn yn ffocws ar gyfer twf wedi'i reoli ac mae iddynt rôl is-ranbarthol bwysig sy'n ychwanegu at Ardal Twf Cenedlaethol Wrecsam a Glannau Dyfrdwy.

Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gydnabod rolau'r mannau hyn fel ffocws ar gyfer tai, cyflogaeth, twristiaeth, cludiant cyhoeddus a gwasanaethau allweddol yn eu hardaloedd ehangach a chefnogi eu swyddogaeth barhaus fel mannau pwysig ar gyfer twf is-ranbarthol.

**Polisi 23 – Metro Gogledd Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygiad Metro Gogledd Cymru a bydd yn gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill er mwyn ei gwneud yn bosibl i'w ddarparu ac i fanteisio hyd yr eithaf ar y cyfleoedd cysylltiedig. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol a rhanbarthol yng Ngogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr i sicrhau bod y Metro a buddsoddiadau ehangach mewn cludiant yn cryfhau cysylltiadau cludiant traws ffiniol gyda gwell gysylltiadau rhwng y Gogledd, Caer, Lerpwl a Manceinion. Datblygiad Strategol a Lleol

## CYD-DESTUN POLISI CENEDLAETHOL

**Bargen Twf Gogledd Cymru**

Partneriaeth yw Uchelgais Gogledd Cymru sy'n cynnwys y chwe awdurdod lleol ynghyd â Phrifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai. Gyda'r weledigaeth o wella lles rhanbarthol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y rhanbarth.

Nod Uchelgais Gogledd Cymru yw "gweld y rhanbarth yn cael ei ddatblygu'n gynaliadwy, gyda chyfleoedd i bobl ennill sgiliau newydd ar gyfer y dyfodol a datblygu gyrfaoedd gwobrwyol. I fusnesau dyfu ac i gymunedau ffynnu. Hyn oll gan hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant a threftadaeth Cymru ac yn unol â'r nodau llesiant ar gyfer Cymru."

Cysylltu Gogledd Cymru

- Gwella cysylltiedd ac isadeiledd digidol
- Gwella cysylltedd ar gyfer busnesau a phreswylwyr y rhanbarth. Clyfar
- Datblygu a hyrwyddo mentrau a phrosiectau o werth uchel yn sectorau allweddol ein rhanbarth.
- Cryfhau cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi a hybu perfformiad economaidd.

Gwydn:

- Creu cyfleoedd am swyddi a chynyddu lefelau cyflogaeth

- Canolbwyntio ar gadw pobl ifanc yng Ngogledd Cymru.

Cynaliadwy:

- Datblygu prosiectau sy’n cynhyrchu dim neu fawr ddim allyriadau carbon ac a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth.
- Sicrhau dyfodol hirdymor ein prosiectau ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol.

Gweithiodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, y cyd-bwyllgor a’r corff gwneud penderfyniadau sy’n gyfrifol am y Fargen Twf, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU
a’r Sector Preifat i ddatblygu Bargen Twf Gogledd Cymru. Ym mis Rhagfyr 2020 cymeradwywyd y Fargen Twf a chafwyd buddsoddiad gwerth £240 miliwn gan Lywodraethau Cymru a Llywodraeth y DU.

Bydd Pum Rhaglen Bargen Twf Gogledd Cymru yn dod a gwerth £1 biliwn o fuddsoddiad i Ogledd Cymru dros y pymtheng mlynedd nesaf. Bydd yn creu economi bywiog, cynaliadwy, gwydn a ffyniannus ar gyfer y rhanbarth cyfan.

Y pum rhaglen yw:

- Bwyd-amaeth a Thwristiaeth
- Cysylltedd Digidol
- Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel
- Tir ac Eiddo
- Ynni Carbon Isel

**Cynllun Lles Conwy**

Ym mis Ebrill 2016, sefydlodd Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 fwrdd statudol, a elwir yn Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae Conwy a Sir Ddinbych wedi defnyddio hawliau o fewn y Ddeddf i uno eu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn un Bwrdd ar gyfer rhanbarth Conwy a Sir Ddinbych.

Mae'r Bwrdd yn gasgliad o gyrff cyhoeddus sy’n cydweithio i wella lles eu siroedd. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ardal Conwy a Sir Ddinbych drwy weithio i gyflawni’r 7 nod llesiant:

## CYD-DESTUN POLISI LLEOL

**Cynllun Corfforaethol Conwy**

Mae Cynllun Corfforaethol 2017-2022 yn nodi ein gwerthoedd a'r meysydd blaenoriaeth y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn canolbwyntio arnynt yn ystod y cyfnod hwn. Datblygwyd y blaenoriaethau drwy drafodaethau gyda chymunedau drwy ‘Sgwrs y Sir’.

**Ein gweledigaeth yw:  Conwy - Sir Flaengar sy’n Creu Cyfleoedd**

Mae'r Cyngor yn gweithio mewn amgylchedd sy'n newid ac sy'n gofyn llawer. Eu gweledigaeth yw bod yn flaengar wrth reoli newid a'i ddefnyddio i greu cyfleoedd; i warchod yr hyn sydd gennym ac i adeiladu ar hyn er mwyn galluogi newid.
Mae'r ymdrech i wireddu'r weledigaeth hon yn ymdrech ar y cyd. Maent eisiau cryfhau ein perthynas gyda dinasyddion er mwyn ein galluogi i weithio gyda'n gilydd i wella'r sir. Ym mhopeth a wnânt, o addysgu plant, gofalu am bobl ddiamddiffyn, ailgylchu gwastraff, rheoleiddio busnesau, i ddarparu cyfleusterau hamdden a pherfformiadau theatr i enwi ond ychydig, maent eisiau bod yn flaengar a chreadigol er mwyn i ni fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael i'r cymunedau yn Sir Conwy.

## CYNLLUN DATBLYGU LLEOL (CDLl)

### Trosolwg

Mae'r ardal wedi'i lleoli ar yr arfordir ac yn ffinio â Sir Ddinbych i'r dwyrain gydag Afon Clwyd yn gwahanu'r ddwy sir Mae ardal yr astudiaeth tua 2.6 milltir (4.2 cilomedr) i'r gorllewin o'r Rhyl 2.5 milltir (4.0 km) i'r gogledd ddwyrain o Abergele a 14.1 milltir (22.7 km) i'r dwyrain o Gonwy. Yn croesi drwy'r ardal mae Afon Gele, sy'n llifo o'r gorllewin i'r dwyrain cyn ymuno ag Afon Clwyd ar y ffin ddwyreiniol. Adeg cyfrifiad 2001 roedd gan y gymuned boblogaeth o 7,864 ac roedd wedi cynyddu i 8,460 erbyn cyfrifiad 2011 (sef cynnydd o 7.6%, neu 596).

### Amcanion a Swyddogaethau Gofodol

Mae Cynllun Datblygu Lleol Conwy 2007 - 2022 yn nodi amcanion gofodol Bwrdeistref Sirol Conwy (Adran 2.3). Mae AG2 yn nodi'r amcan o hyrwyddo adfywiad hollgynhwysfawr Towyn a Bae Cinmel i ehangu gweithgaredd economaidd, mynd i'r afael ag allgau cymdeithasol a lleihau amddifadedd drwy'r fenter Ardal Adfywio Strategol.

Mae diagram 4 o'r CDLl yn dangos Ardaloedd datblygu Abergele, Bae Cinmel a Thowyn (gw. isod) Mae'n nodi bod Towyn a Bae Cinmel yn ardaloedd allweddol sy'n gwasanaethu anghenion gwasanaeth hanfodol y dalgylch

Mae'r CDLl yn adnabod Towyn a Bae Cinmel fel ardaloedd â pherygl uchel o lifogydd a fydd yn 'arwain at gyfleoedd datblygu cyfyngedig yn y dyfodol.' Mae'r CDLl yn cydnabod bod diffyg datblygu yn debygol o fod yn niweidiol i'r ardal o herwydd y posibilrwydd "y bydd nifer o safleoedd tir llwyd yn dod, ac yn aros yn wag yn y lleoliadau hyn".

Mae Polisi CDLl DP/2 Dull Strategol Trosfwaol yn disgrifio Towyn a Bae Cinmel fel 'Ardal Drefol'. Mae'r polisi yn dweud y bydd y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd yn digwydd o fewn ac ar gyrion yr Ardaloedd Trefol hyn. Byddant yn allweddol wrth ddarparu cyfuniad o dai'r farchnad a thai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol, ar safleoedd a ddyrennir a safleoedd ar hap.

Yn ychwanegol at yr amcanion cynllunio strategol, mae Cyngor Tref Towyn a Bae Cinmel wedi dynodi ac ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau sy'n cefnogi saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 Dangosir y rhain isod fel darn

o dudalen 7 o Adroddiad Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol Cyngor Tref Towyn a Bae Cinmel 2020-21 (1)

## CYD-DESTUN STRATEGOL - DYLANWADAU EHANGACH.

Nodir bod disgwyl i Dowyn a Bae Cinmel (ochr yn ochr ag Abergele) fanteisio ar y datblygiadau a'r gwelliannau a ddaw yn sgil cael eu cynnwys ym menter Ardal Adfywio Strategol Llywodraeth Cymru. Mae Cynllun Cenedlaethol Cymru'r Dyfodol 2040 yn nodi fframwaith ar gyfer newid cenedlaethol ac yn dynodi sawl Ardal Twf Rhanbarthol yn y gogledd yn cynnwys y Rhyl a Phrestatyn a Llandudno a Bae Colwyn, gyda chefnogaeth gryf ar gyfer cyfleoedd adfywio ar y hyd y coridor hwn. Y Polisi ar gyfer y weledigaeth twf gyffredinol ar gyfer yr ardal ehangach sy'n dynodi'n benodol gyfleoedd i gefnogi trefi ac atyniadau glan môr ond sydd hefyd yn cydnabod y bydd y ffaith bod posibilrwydd o lifogydd ar hyd yr arfordir gogleddol yn creu goblygiadau o ran gwireddu twf.

Mae agosatrwydd trefi arfordirol yn cynnwys Towyn a Bae Cinmel yn golygu eu bod o fewn parth dylanwad Abergele i'r gorllewin a thref a chymuned sylweddol y Rhyl (yn sir Ddinbych) i'r dwyrain. Mae natur traws ffiniol yr ardal a'r rhyng-berthynas rhwng Bae Cinmel a'r Rhyl yn golygu bod datblygiadau a buddsoddiadau sylweddol fel parc manwerthu Cei Marina ac adfywio Harbwr Foryd yn dylanwadu ar y gymuned a'r economi.

Mae Cynllun Datblygu Lleol Conwy 2007 - 2022 yn nodi'r amcanion gofodol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy a'r amcan o hyrwyddo adfywiad hollgynhwysfawr Towyn a Bae Cinmel er mwyn ehangu gweithgaredd economaidd, mynd i'r afael ag allgau cymunedol a lleihau amddifadedd drwy'r Fenter Adfywio Ardal Strategol - Ardal Strategol y Dwyrain. Mae'r ardaloedd hyn yn wynebu cyfyngiadau mawr oherwydd amddiffynfeydd llifogydd sy'n golygu bod cyfleoedd i adeiladu tai ac i greu twf mewn cyflogaeth yn gyfyngedig dros Gyfnod y Cynllun. Ond mae'r ardal yn profi amddifadedd ac mae cyfleoedd i ddarparu ar gyfer anghenion y cymuned yn gyfyngedig. Mae'r ardal yn destun gwelliannau i'r amddiffynfeydd rhag llifogydd er mai dim ond i gynnal yr amddiffyniad mae hyn yn hytrach na helpu gyda chyfleoedd am dwf Mae'r CDLl yn cydnabod bod diffyg datblygiad yn debygol o fod yn niweidiol i'r ardal oherwydd y posibilrwydd y bydd 'nifer o safleoedd tir llwyd yn dod, ac yn aros yn wag yn y lleoliadau hyn".

### Tai

Mae'r diffyg cyfleoedd datblygu yn amlwg o'r Dyraniadau Tai yn y CDLl gan nad oes unrhyw un o'r dyraniadau tai arfaethedig yn Nhowyn na Bae Cinmel. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd sydd ar ddod yn dynodi dim ond twf bychan yn y boblogaeth yn y cyfnod hyd 2036 ac yn dweud y bydd galw ychwanegol am dai ym Mwrdeistref Sirol Conwy oherwydd y bydd aelwydydd newydd yn ffurfio o blith y boblogaeth bresennol. Fodd bynnag oherwydd lefel y perygl o lifogydd ni ddisgwylir unrhyw dwf yn Nhowyn a Bae Cinmel.

## DYLANWADAU EHANGACH

### Canolfannau Manwerthu a Chanol Trefi

Diffinir Bae Cinmel fel Canolfan Siopa Ardal a Thowyn fel Canolfan Leol/Canol Pentref yn y CDLl sydd wedi'i fabwysiadu. Mae polisiau'r CDLl yn cefnogi diogelu a rheoli'r canolfannau hyn fel lleoliadau pwysig ar gyfer darparu gwasanaethau a chyfleusterau lleol. Mae'r hierarchaeth manwerthu'n rhoi mwy o bwyslais ar rôl Bae Colwyn, Conwy a Llandudno ac i raddau llai, Abergele fel y prif leoliadau is-ranbarthol a chanol tref yn y Sir. Mae gan y Rhyl yn Sir Ddinbych statws tebyg fel prif ganolfan fanwerthu sy'n cael dylanwad ar yr ardal Mae'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn nodi y byddai Bae Cinmel yn cael ei ail-ddiffinio yn Ganolfan Leol.

Barn y gwiriadau iechyd diweddaraf o'r Canolfannau Manwerthu tua 2018 oedd bod y prif ganolfannau'n gwneud yn dda yn gyffredinol ac yn addasu'n dda i'r tueddiadau newydd ym maes manwerthu. Roedd y casgliad hwn wrth gwrs cyn y pandemig Covid 19 sydd yn debygol o fod wedi gwaethygu/cyflymu'r tueddiadau manwerthu a hamdden strwythurol gwaelodol.

### Yr Economi a Chyflogaeth

Mae Strategaeth Twf Economaidd Conwy 2017 - 2027 (Awst 2017) yn nodi mai un o nodweddion cryfaf economi Cyngor Conwy yw'r nifer sylweddol o BBaCh a busnesau micro. Yr allwedd i ffyniant economaidd yn y sir felly mae adeiladu ar y cryfderau lleol hyn gan gefnogi twf busnesau ac arloesedd ar yr un pryd ag elwa ar y datblygiadau strategol ehangach.

Mae'r strategaeth hefyd yn mynd i'r afael â'r prif heriau yn y Sir cysylltiedig â chyflogaeth cyflog isel, rhan-amser a thymhorol a cholli ein talent ifanc oherwydd eu bod yn gadael am swyddi y tu allan i'r sir. Rydym eisiau annog twf a sefydliad busnesau a fydd yn gallu creu swyddi sy'n cefnogi ffyniant cymunedau, y Gymraeg a diwylliant yng Nghonwy.

Mae chwe thema economaidd trawstoriadol: mae'r rhan wedi hamlygu isod.

- Cyflogaeth, sgiliau a phrentisiaethau – tyfu maint a gallu'r gweithlu.
- Seilwaith sy'n galluogi twf sy'n gwneud y sir yn lle deniadol i bobl sy'n dymuno sefydlu a thyfu busnesau dynamig a blaengar.
- Gwneud i'r bunt yng Nghonwy weithio'n galetach gan sicrhau bod mwy o'r arian sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghonwy'n cael ei wario yng Nghonwy.
- Ymagwedd hyderus ac allblyg - manteisio ar y cyfleoedd sydd i'r dwyrain a'r gorllewin
- Arweinyddiaeth ddynamig - drwy gydweithio'n agos â'r cyhoedd, y sector preifat a'r trydydd sector
- Twristiaeth drawsffurfiol gwneud Conwy'n gyrchfan wirioneddol ryngwladol, gydol y flwyddyn

Mae pum uchelgais wedi'u nodi ar gyfer twf economi'r Sir. Mae Uchelgais 4, (datblygiad economi'r nos a thwristiaeth y gaeaf) yn arbennig o berthnasol gyda'r ddibyniaeth ar dwristiaeth ac ymwelwyr yn ardal Towyn a Bae Cinmel.

Mae lefelau isel o ddiweithdra ac o'r herwydd lefelau uchel o gymudo. Mae'r strategaeth yn nodi bod hyn yn argoeli'n dda o ran y cyfleoedd am dwf economaidd a chreu swyddi a fydd yn codi yn dwyrain (yn cynnwys Towyn a Bae Cinmel) a gorllewin y Sir yn y dyfodol. Mae'r sefyllfa o ran mudo'r gweithlu iau o'r ardal yn arbennig o berthnasol o safbwynt Towyn a Bae Cinmel o ran dangos y cyfleoedd economaidd sy'n deillio o dwristiaeth ("bod y cyfleoedd am swyddi o bosibl yn mynd yn bellach nag y maent yn ei sylweddoli" a bod ymdrechion go iawn yn cael eu gwneud i fynd i'r afael â'r rhesymau pam bob pobl yn gadael y Sir ar ôl gadael y Brifysgol.

O ran darpariaeth tir cyflogaeth, mae'r CDLl yn dweud:

"y bydd oddeutu 6 hectar o dir cyflogaeth (B1 B2 a B8) yn cael ei ddarparu i gwrdd â'r angen ac i gyfrannu at leihau lefelau cymuno allan a'r defnydd o gar yn Abergele, Towyn a Bae Cinmel (yn cynnwys Pensarn). Mae Tir Cyflogaeth wedi'i ddiogelu wedi'i adnabod ar gyfer Parc Menter Tir Llwyd (gyda phlotiau wedi'u gwasanaethau ar gael) a Safle Cyflogaeth a Gwella wedi'i ddiogelu yn Rhodfa Llanelwy. Mae'r Adolygiad o Dir Cyflogaeth yn dynodi 4 safle o fewn ardal yr astudiaeth sydd â chaniatâd B1, B2 a B8

- Creu eiddo busnes o'r radd flaenaf i gefnogi twf a denu busnesau newydd.
- Mynd ati'n weithredol i ddenu prif swyddfeydd / canolfannau rhyngwladol i'r sir
- Sefydlu presenoldeb addysg uwch yn y Sir
- Datblygu economi'r nos a chynnig twristiaeth dros fisoedd y gaeaf ar draws y sir, gan wneud Conwy yn gyrchfan i ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn
- Hwyluso'r morlyn llanw a phrosiectau ynni adnewyddadwy eraill ar draws y sir

## DYLANWADAU EHANGACH

### Hamdden a Thwristiaeth

Mae Gogledd Cymru wedi'i gydnabod gan Lonely Planet fel y gyrchfan wyliau 4ydd orau yn y byd, ac mae Sir Conwy yng nghalon y cynnig twristiaeth. Mae'r sir yn dod yn adnabyddus yn fyd-eang fel canolfan ragoriaeth am antur adrenalin gyda Surf Snowdonia, Go Below a Zip Fforest i gyd yn arwain y ffordd. Mae digwyddiadau mawr wedi denu cynulleidfaoedd newydd i'r sir ac wedi gwneud cyfraniadau economaidd sylweddol.

Yr hyn sy'n allweddol yma mae'n debyg yw bod llefydd fel Towyn a Bae Cinmel yn gallu cefnogi a manteisio nid yn unig ar y twf yn nhwristiaeth ranbarthol Gogledd Cymru ond hefyd ar yr atyniadau a'r cynigion penodol sydd ar gael mewn rhannau eraill o'r sir.

Cefnogir twf cynaliadwy mewn twristiaeth drwy gyfres o fesurau polisi yn cynnwys cynigion datblygu ar gyfer twristiaeth o safon uchel, gydol y flwyddyn sy'n arallgyfeirio'r economi gan wrthsefyll cynigion a fyddai'n arwain at golled lle ar gyfer gwasanaethu. Bydd polisïau'n rheoli datblygiad safleoedd newydd ac estyniad safleoedd cabannau gwyliau, carafanau statig a symudol a safleoedd gwersylla yn cefnogi ymestyn y tymor gwyliau fel y gall pobl ddod ar wyliau ar

gyfnodau heb fod yn rhai brig mewn cabannau, carafanau a meysydd gwersylla (yn ddibynnol ar faterion cysylltiedig â'r perygl o lifogydd yn Nhowyn a Bae Cinmel); cefnogaeth ar gyfer gwella cysylltedd yn cynnwys yn Harbwr y Foryd, gwelliannau i Lwybr Arfordir Gogledd Cymru a hawliau tramwy; cefnogaeth ar gyfer sefydlu gwestai newydd neu droi adeiladau yn westai 4 a 5 seren.

Mae'r CDLl yn nodi fod yr atyniadau a'r cyfleusterau arfordirol traddodiadol a gynigir yn Nhowyn a Bae Cinmel (ymysg lleoliadau eraill) yn parhau i wneud cyfraniad pwysig at yr economi ond nodir bod angen sylfaen dwristiaeth fwy amrywiol. Bwriad y rheolaeth lem ar feysydd carafán a gwersylla yn yr ardaloedd arfordirol yw hyrwyddo dwysedd is a chefnogi gwelliannau ledled y safleoedd. Y nod yw sicrhau bod safleoedd carafanau statig mawr yn yr ardal yn cael eu rhwystro rhag gor-ddatblygu i mewn i dirweddau sensitif. Mae hyn wedi'i alinio â'r angen i sicrhau bod llety ymwelwyr o safon ar gael - amrywiaeth ehangach o lety wedi'i wasanaethu i ganiatáu mwy o ddewis i ymwelwyr ac i apelio i'r farchnad gwyliau byr.

## YR ISADEILEDD CLUDIANT

Mae isadeiledd cludiant cynaliadwy wedi'i ddynodi yn y CDLl presennol ym Mholisi STR/5 (System Cludiant Cynaliadwy Integredig) Gweler tudalen 236). Mae hwn yn dynodi cyfres o gynlluniau i'w datblygu ac yn berthnasol i Dowyn a Bae CInmel mae:

- Harbwr y Foryd - hyrwyddo Llwybr Beicio Cenedlaethol 5 Sustrans a phont gysylltu newydd i feicwyr/cerddwyr yn Harbwr y Foryd ym Mae Cinmel.
- Hyrwyddo ffordd gysylltu rhwng Parc Hanes ac Ogwen Avenue er mwyn gwella mynediad cyffredinol i'r ardal.
- Diogelu hen lwybr Rheilffordd Dyffryn Clwyd ym Mae Cinmel er mwyn gwella mynediad cymunedol
- Rhaglen i wella Llwybr Arfordir Cymru a Chynllun Gwella Hawliau Tramwy Conwy

Mae Cyd-gynllun Trafnidiaeth Leol Gogledd Cymru 2015-2030 yn crybwyll sawl cynllun a chynnig ar gyfer yr isadeiledd cludiant. Mae'r rhai hynny sy'n berthnasol i Dowyn a Bae Cinmel yn cynnwys:

- Gwelliannau ac ychwanegiadau strategol at gysylltedd rhwydwaith priffyrdd yr A55
- Gwelliannau blaenoriaeth i wasanaeth bysiau Bae Cinmel
- Datblygu system tocynnau integredig ar gyfer cludiant cyhoeddus
- Datblygu llwybrau teithio llesol ar gyfer:
- Bae Cinmel, Towyn, Pensarn ac Abergele
- Bae Cinmel i Ystâd Ddiwydiannol Tir Llwyd;
- Gors Road, Towyn (yn cynnwys gwelliannau capasiti)

## ASTUDIAETHAU BYW A CHYNLLUNIAU

### Cynigion Teithio Llesol

Mae teithio llesol yn golygu gwneud siwrneiau pob dydd drwy gerdded neu feicio yn

hytrach na defnyddio cludant fel car neu fws. (Mae'r term "cerdded" yn cynnwys defnyddio cadeiriau olwyn, cadeiriau olwyn trydan, sgwteri symudol a chymhorthion symudedd eraill). Mae teithio llesol yn cynnwys siwrnai i'r gwaith, ysgol, coleg, siopau a chyfleusterau hamdden. Mae'n rhaid i lwybr Teithio Llesol gysylltu â'r llefydd hyn a bod yn addas ar gyfer siwrneiau bob dydd. Nid yw Teithio Llesol yn cynnwys llwybrau a ddefnyddir ar gyfer hamdden neu i fynd am dro yn unig. Mae gan CBSC rwydwaith cytunedig o lwybrau wedi'u cynllunio ar gyfer Towyn a Bae Cinmel gyda rhai gwelliannau wedi'u gwneud i'r A548 ger Tir Prince a'r parc gerllaw. Gan weithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, cynlluniau i greu llwybr teithio llesol dros bont y rheilffordd a theithio ar hyd ymyl Parc Hanes a trwy ardaloedd preswyl gorllewinol Bae Cinmel.

**Cynnig Parc Hanes**

Yng ngwanwyn 2020 daeth CBSC yn ymwybodol bod tir ym Mharc Hanes yn cael ei gynnig ar gyfer pori gan Lywodraeth Cymru. Ar yr un pryd roedd CBSC wedi comisiynu Asesiad o'r Isadeiledd Gwyrdd i hysbysu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

Roedd y Gwasanaethau Cynllunio yn ymwybodol eisoes o'r tiroedd a'r materion cysylltiedig â'r perygl o lifogydd sydd wedi llyffetheirio datblygiad (ystyrir fod y tir mewn 'perygl uchel' o lifogydd) a'r manteision cymunedol a fyddai'n deillio o hynny ers sefydlu TAN15. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw ddatblygiad preswyl newydd yn cael ei dderbyn yn yr ardal sydd mewn perygl o lifogydd felly mae ar Fae Cinmel angen cymorth adfywio amgen. Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ddiddordeb mewn datblygu a chydgynhyrchu pecyn ymarferol o brosiectau ac ymyraethau gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i ddefnyddio'r safle mewn ffordd a fydd yn dod â manteisio lluosog i breswylwyr lleol, busnesau, addysg a'r amgylchedd.

**Astudiaeth Priffyrdd Sandy Cove**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru yn datblygu cynllun gwella ar gyfer y ffyrdd a'r ardaloedd amwynder yng nghymdogaethau Sandy Cove. Nid yw'r ffyrdd wedi'u mabwysiadu ac maen nhw mewn cyflwr gwael ac mae mynediad hwylus i gerddwyr a chysylltiadau â'r traeth a'r arfordir hefyd yn wael. Bydd y dyluniad yn cynnwys gwaith i wella ansawdd arwynebau'r ffyrdd presennol, gan ddarparu draenio, strydlun a gwelliannau i barcio, ynghyd â gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn lleoliadau addas. Bydd darpariaeth yn cael ei wneud o fewn y dyluniad ar gyfer cerdded a beicio diogel a chludiant nad yw'n fodurol, yn unol â gofynion Canllawiau Deddf Teithio Llesol Llywodraeth Cymru. Bydd yr allbynnau dylunio yn arwain at achos busnes i'w ystyried gan yr awdurdod lleol mewn partneriaeth â'r gymdeithas preswylwyr o ran y posibilrwydd o fabwysiadu yn y dyfodol.
Gynigion Amddiffyn yr Arfordir

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ceisio cyllid gan Lywodraeth Cymru i wella'r amddiffynfeydd llifogydd arfordirol o amgylch arfordir y sir er mwyn gallu wynebu her newid yn yr hinsawdd a'r cynnydd yn lefel y môr yn y dyfodol. Mae Llanddulas a Bae Cinmel yn lleoliadau lle dynodwyd cynlluniau a allent ddenu cyllid i alluogi

lleihau’r perygl o lifogydd arfordirol a gwella mynediad i’r traeth.

Mae’r amddiffynfeydd llifogydd presennol ar hyd y morlin 11 cilomedr o hyd hwn yn amrywio ac yn cynnwys grwynau pren a cherrig, waliau cynnal, waliau môr a gatiau llifogydd. Yn sgil effeithiau posibl newid hinsawdd, yn y dyfodol (2118) bydd nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd ar hyd y darn hwn o’r arfordir yn cynyddu’n sylweddol o’r 1872 presennol (2018) i 4958 ymhen 100 mlynedd, gan ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd ar lefelau’r môr a’r cyfraddau tonnau sy’n mynd dros yr amddiffynfeydd arfordirol.

Mae’r dewis a ffefrir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynnwys codi brig y morglawdd presennol, gwell waliau cynnal ac ail-lenwi’r traeth ym Mae Cinmel o dro i dro. Cynigir codi morglawdd atal ym Mhensarn a gwrthglawdd tua’r môr o’r wal bresennol ym Melgrano i’r dwyrain. Cynigir morglawdd atal hefyd ar draeth Llanddulas, a chodi brig y gwrthglawdd tua’r gorllewin. Bydd y dewis a ffefrir yn arwain at leddfu’r perygl o lifogydd ym Mae Cinmel yn sylweddol. Nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd o dan amodau newid yn yr hinsawdd yn lleihau o 4958 i 595, gan arwain at welliant sylweddol yn y perygl o lifogydd yn yr ardal.

**Gwella’r Briffordd ger Tir Prince**

Ar adeg datblygu’r cynllun lle, roedd Adran Priffyrdd CBSC yn gwneud gwelliannau i’r briffordd y tu allan i Dir Prince. Roedd hyn yn cynnwys cyffordd letach a threfniant hidlo traffig, gwelliannau i ymylon y ffordd a llwybr beicio oddi ar y ffordd gyda chysylltiadau i Barc Tir Prince.

# 5. HERIAU A CHYFLEOEDD

## Data Seiliedig ar Le

Mae data ac ystadegau am Dowyn a Bae Cinmel yn ein helpu ni i ddeall sut y mae'r ardal yn cymharu â ffigyrau Cymru gyfan a hefyd sut y mae'n cymharu â llefydd eraill sydd yn debyg o ran maint a daearyddiaeth. Mae'r siartiau a'r ffigyrau canlynol yn dangos rhywfaint o'r data sy'n berthnasol i TBC, ei leoliad a'i bobl.


## Pobl a Demograffeg

Mae Ffigwr 1 yn dangos bod Towyn a Bae Cinmel yn dueddol o fod â phoblogaeth sydd â mwy o bobl 65 oed a throsodd na chyfartaledd Cymru ac sy'n is na chyfartaledd Cymru o ran pobl 16 i 45 oed.


## Yr Economi a Chyflogaeth

Mae Ffigwr 2 yn dangos bod y rhan fwyaf o breswylwyr yn dilyn cyfartaledd Cymru o ran y rhai sy'n gyflogedig, mewn gwaith rhan amser a llawn amser, yn hunangyflogedig ac yn ddi-waith ond yn uwch na'r cyfartaledd o ran y rhai sy'n economaidd anweithgar ac wedi ymddeol.

Mae'r mathau a'r lefelau o gymwysterau a sgiliau sydd gan bobl mewn cymunedau yn uniongyrchol gysylltiedig ag incwm, ffyniant a chyfoeth yr economi leol ac effeithiau hynny. Mae hefyd yn gysylltiedig ac iechyd a lles cyffredinol y gymuned. O ran cymwysterau mae Ffigwr 3 yn dangos i ni bod y gymuned yn sylweddol is na Lefel 4 (gradd neu uwch) ac i raddau Lefel 3 (2 Lefel A neu fwy) gyda chynrychiolaeth uwch ar Lefel 1 neu heb unrhyw gymwysterau o gwbl. Mae'r gymuned ymhell o dan gyfartaledd Cymru o safbwynt sgiliau sylfaenol, yn ychwanegol at y rhannau hynny o'r gymuned sydd heb unrhyw gymwysterau o gwbl. Mae'n dangos bod dirywiad rhwng Lefel O, TAU, a TGAU a Lefel A a'r llwybr addysgu bellach/uwch.




**Ffigwr 1 canran y boblogaeth breswyl arferol o Amcangyfrifon Canol Blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2017.**




**Ffigwr 2 Canran y boblogaeth breswyl arferol 16 oed a throsodd (o Gyfrifiad 2011)**





**Ffigwr 3 Canran y boblogaeth breswyl arferol 16 + oed (o Gyfrifiad 2011)**

## Cyflogaeth

Mae Ffigwr 4 yn dangos dosbarthiad cyflogaeth ar draws y boblogaeth breswyl gan ddefnyddio categoriau dosbarthiad diwydiannol safonol. Mae'r siart yn dangos mai'r sectorau cyflogaeth pennaf
yn Nhowyn a Bae Cinmel yw cyfanwerthu, manwerthu a thrwsio cerbydau, llety, bwyd a gwasanaethau ac iechyd a gofal cymdeithasol Mae'r ddau gategori olaf yn berthnasol i dwristiaeth yn y lle a gofal pobl hŷn oherwydd y ganran uchel o breswylwyr sydd yn y grwpiau 65-74 a 75+. Mae yna hefyd ysbyty rhanbarthol mawr gerllaw, sef Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan, Sir Ddinbych sy'n gysylltiedig â'r sector gofal iechyd ehangach.

Mae'r meysydd lle mae tan-gynrychiolaeth yn cynnwys sectorau fel cyllid ac yswiriant, tai a thiroedd a gweinyddu cyhoeddus, amddiffyniad a gweinyddu nawdd cymdeithasol.





**Ffigwr 4 canran y boblogaeth breswyl arferol 16 - 74 oed (o Gyfrifiad 2011)**

## Cludiant a Symudedd


Mae dau graff isod sy'n crynhoi cymuno i, allan o neu o fewn y lle dan sylw. Mae pob graff yn dangos data am lifoedd cymudo ar ffurf cylch, gydag echelinau'r graff yn cynrychioli'r gwahanol fathau o gymudo.

Mae'r siart cyntaf yn dangos bod preswylwyr Towyn a Bae CInmel yn cwrdd â chyfartaledd Cymru o ran gweithio gartref neu mewn lleoliad yn yr un ardal Awdurdod Lleol, yn ychwanegol at weithio mewn awdurdod lleol cyfagos yn Lloegr megis Swydd Gaer. Oherwydd bod y lle dan sylw mor agos at y ffin â Sir Dinbych mae nifer uwch na'r cyfartaledd o'r preswylwyr yn mynd i weithio i ardal Awdurdod Lleol arall.

Mae'r ail siart yn dangos bod y rhan fwyaf o bobl sy'n cymudo i Dowyn a Bae Cinmel yn dod i mewn yn bennaf o ardal Awdurdod Lleol arall, sy'n pwysleisio effaith 'gwthio a thynnu' bod ar ffin awdurdod lleol arall, sef Sir Ddinbych yn yr achos hwn.




Ffigwr 5 patrymau cymudo - Byw ym Mae Cinmel




Ffigwr 6 Patrymau Cymudo - Byw y tu allan i Fae Cinmel.


## Amddifadedd

Yn Ffigwr 8 gwelir rhai dangosyddion amddifadedd pennawd gyda phreswylwyr yn dueddol o fod wedi'u cynrychioli lai mewn alwedigaethau rheoli/gweinyddu/proffesiynol uwch a chanolradd


(gradd gymdeithasol 1) a mwy o bobl wedi'u cyflogi fel crefftwyr medrus (gradd gymdeithasol 3) neu grefftwyr lled-fedrus neu mewn swyddi di-grefft a'r swyddi gradd isaf (gradd gymdeithasol 4) neu yn ddi-waith

Mae hefyd yn dangos i ni bod cyfran uwch o bobl yn Nhowyn a Bae Cinmel sydd â'u gweithgareddau dydd i ddydd wedi'u cyfyngu oherwydd problemau iechyd hirdymor neu anabledd.

I ddeall y lefelau amddifadedd mewn lle, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) yw mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bach yng Nghymru. Mae'n diffinio ardaloedd sydd a'r crynoadau uchaf o wahanol fathau o amddifadedd. Mae MALIC yn graddio'r holl ardaloedd bach yng Nghymru o 1 (y mwyaf difreintiedig) i 1,909 (y lleiaf difreintiedig)




**Ffigwr 8 Canran y boblogaeth breswyl arferol 16 + oed (o Gyfrifiad 2011)**




**Ffigwr 9 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn ôl Parth, yn ôl Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is**

Mae Ffigwr 9 yn dangos lefelau amddifadedd yn ôl parth ac yn ôl Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI). Gellir gweld y cynlluniau hyn yr atodiad i'r ddogfen hon.

Wrth adolygu'r ACEHI sydd â'r lefelau uchaf o amddifadedd, Bae Cinmel 1 (ardal Sandy Cove) sydd â'r mynegai isaf yn y lle i gyd, sef 296, a Bae Cinmel 2 sydd â'r mynegai uchaf, sef 781 gan olygu bod llai o heriau yno.

Ym Mae Cinmel 1, mae'r rhan fwyaf o'r parthau'n dangos lefelau uchel o amddifadedd, heblaw am fynediad at wasanaethau. Mae rhai meysydd o bwys yn cynnwys addysg (132), iechyd (259), diogelwch cymunedol (307) gydag Incwm (377) a chyflogaeth (333)


yn dilyn yn agos. Mae ansawdd tai yn tueddu i sgorio hanner yr hyn a welir yn yr ardaloedd ACEHI eraill, gyda mynegai o ddim ond 792 o gymharu er enghraifft â Bae Cinmel 2 sydd ar 1799.

Wrth edrych ar barthau penodol, mae'r mynegai yn isel ar gyfer Towyn yn ogystal â Bae Cinmel 1. Mae iechyd hefyd yn isel yn Nhowyn (295) ac yn gymharol isel ym Mae Cinmel 3 a 4. Mae'r Amgylchedd Corfforol hefyd wedi'i raddio'n isel a chanddo gysylltiadau uniongyrchol ag amddifadedd ym Mae Cinmel 2 (289), Towyn (326) a Bae Cinmel 3 (425) Mae Bae Cinmel 2 (442) hefyd yn profi anawsterau cysylltiedig â chyflogaeth o gymharu â'r cyfleoedd cyflogaeth uwch ym Mae Cinmel 4 (1526).

**Trosedd**

Mae Ffigwr 10 yn dangos ystadegau trosedd Towyn a Bae Cinmel o fis Ionawr i fis Rhagfyr 2021.

Y troseddau yn y categorïau canlynol yw'r rhai sy'n digwydd fwyaf aml i) troseddau treisgar ii) trefn gyhoeddus iii) difrod troseddol a thanau bwriadol  a iv) digwyddiadau cysylltiedig â cherbydau Byddwch yn gweld o'r siart bod nifer sylweddol uwch o droseddau wedi'u riportio ar draws y pedwar categori penodol hwn ym mis Awst wrth i'r




**Ffigwr 10 Ystadegau Trosedd Towyn a Bae Cinmel fesul Ardal Blismona, Ionawr - Rhagfyr 2021**

## DADANSODDIAD O LE

Wedi'i leoli yn nwyrain Sir Conwy gydag Afon Clwyd a thref y Rhyl yn Sir Ddinbych yn ffurfio'r ffiniau. Mae'r Rhyl yn un o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru ac mae Towyn a Bae Cinmel i bob pwrpas yn faestref i'r Rhyl. Mae tref Abergele i'r gorllewin ac mae TBC yn ymestyn yn fewndirol drwy dir amaethyddol tuag at drefi Bodelwyddan, Rhuddlan a Llanelwy yn Sir Dinbych.

Rhai o nodweddion pennaf y lle yw:

- Poblogaeth breswyl o tua 8,500 yn chwyddo i 50,000 yn yr haf.
- Dwy gymuned sydd yma, wedi'u cysylltu a'u dominyddu gan yr A548.
- Wedi'i ffurfio o bocedi gwasgar o ddatblygiadau a adeiladwyd dros amser mewn ffordd dameidiog heb fawr ddim strwythur strydoedd.
- Diffyg cyrchfannau a chynnig o ansawdd e.e. mae yma dafarndai a bwytai sydd wedi gweld dyddiau gwell a fawr ddim cnewyllyn hanesyddol.
- Meysydd carafanau a'r rheilffordd yn
- gwneud i'r arfordir deimlo allan o gyrraedd ac yn breifat.
- Amddiffynfeydd arfordirol/rhag llifogydd angenrheidiol ond anneniadol.
- Mae TBC yn ffodus o ran cyfleoedd i fanteisio ar fannau agored yn cynnwys twyni, yr arfordir, afon, Parc Tir Prince a lle naturiol (Parc Hanes).
- Mae'r A548 lydan yn cynnig digonedd o gyfleoedd i ad-hawlio lle a tharmac gyda'r nod o greu lle a chyrchfan. Ardaloedd ar gyfer byw a thirlunio.
- Mae'r dopograffeg fflat yn hwyluso teithio llesol - cyfleoedd ar gyfer cysylltedd strategol. Cyfle i integreiddio'r arfordir yn well drwy gysylltiadau cadarnhaol, efallai drwy weithio gyda maes carafanau.

### Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymunedol

Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol yn tueddu i fod wedi'u canoli o amgylch Bae Cinmel, gyda Neuadd y Dref, Llyfrgell, Ystafell Adnoddau Cymunedol a Chanolfan Feddygol i gyd wedi'u lleoli o amgylch ardal y Sgwâr, ger yr A548. Mewn lleoliad canolog ond nid cwbl hygyrch mae'r ysgolion babanod a chynradd, gyda Chanolfan Hamdden Y Morfa sy'n cael ei rhedeg gan wirfoddolwyr, a chaeau chwaraeon/hamdden wrth eu hymyl.

Yn Nhowyn, ar wahân i nifer o eglwysi, nid oes unrhyw ganolfannau at ddefnydd y gymuned.

### Twristiaeth

Mae'r cynnig twristiaeth wedi'i ganoli o amgylch yr arfordir a'r traeth gyda llety gwyliau'n dueddol o fod yn garafanau a chabanau arhosiad byr a hirdymor, yn bennaf ar ochr arfordirol yr A548. Wrth i chi ddod i mewn i Fae Cinmel o'r dwyrain byddwch yn dod at y busnes beiciau ger Harbwr y Foryd lle ceir nifer o amwynderau ymwelwyr a mynediad hwylus i ardal y promenâd Mae Llwybr Arfordir Gogledd Cymru a Llwybr Beicio Cenedlaethol 4, Lon Las Cymru yn gynnig ymwelwyr allweddol ar hyd y rhan hon o arfordir gogledd Cymru.

Ar y traeth ym Mae Cinmel mae ciosgau sy'n gwerthu bwydydd a diodydd poeth ac oer ac eitemau ar gyfer y traeth gyda pharcio'n cael ei ddarparu gan Gyngor Conwy. Wedi'i leoli ymhellach yn ôl yn y twyni mae bar a chaffi sydd yn fusnes preifat.

Ar hyd yr A548 mae nifer o dafarndai a siopau bwyd parod sy'n gwasanaethu anghenion y farchnad ymwelwyr bresennol. Mae amrywiaeth y cynnig bwyd a diod yn gyfyngedig nid yn unig i dwristiaid ond yn fwyaf pwysig i preswylwyr lleol.

Yn Nhowyn mae Tir Prince yn atyniad rhanbarthol a lleol allweddol gyda'i ffair hwyl fawr a'i arcedau difyrion, marchnad wythnosol a rasio harnais Mae wedi bod yn gartref i ddigwyddiadau mawr fel Rali GB Cymru Oddi ar Sandbanks Road y mae'r brif fynedfa i'r arcedau, tafarndai, caffis a'r safleoedd carafanau gyda mynediad i Ffair Hwyl Knightly's ar ochr y traeth.

**Adeiladau a Manwerthu**

Oherwydd bod y ddwy gymuned mor agos at y Rhyl, Abergele, Bae Colwyn, Prestatyn a Llandudno, nid oes cynnig manwerthu mawr yn Nhowyn a Bae Cinmel.

Yn y Sgwâr ym Mae Cinmel mae archfarchnad Asda fawr ac un siop gyfleustra ac ar yr ochr ddeheuol mae nifer o fusnesau bach sy'n cynnwys caffi, siop fwyd parod, siop trin gwallt a harddwch, busnes trwsio ceir a siop sy'n gwerthu gemau cyfrifiadur. Mae'n teimlo fwy fel canolfan gymdogaeth o ran maint a chymeriad ac nid yw'n gyrchfan ar gyfer twristiaid sy'n dueddol o ddefnyddio'r tafarndai a'r siopau bwyd parod ar hyd yr A548 yn Nhowyn Mae ambell i siop gyfleustra fach wedi'u lleoli mewn ardaloedd fel Sandy Cove a Chester Avenue.

**Tai**

Mae'r stoc tai presennol yn gymysgedd o wahanol fathau a safonau. Mae'n amrywio o dai teuluol safonol o ansawdd da i dai cyfyng o safon wael yn Sandy Cove. Mae cyfran gymharol uchel o fyngalos gyda lefelau uchel o'r preswylwyr wedi ymddeol i'r ardal.

Prin yw'r cyfleoedd i adeiladu tai newydd yn yr ardal oherwydd y categori perygl o lifogydd presennol. Fe allai'r cynigion am amddiffynfeydd newydd helpu i leddfu'r sefyllfa ond mae'n annhebygol y bydd hyn yn arwain at fuddsoddiad arwyddocaol mewn tai.

**Mynediad a Chysylltiadau**

Y brif ffordd gerbydau i mewn ac allan o TBC yw'r A548 Mae'r ffordd yn caniatáu mynediad hwylus i'r Rhyl yn y dwyrain ac Abergele yn y Gorllewin Mae'r ffordd hefyd yn cysylltu â'r A55, Gwibffordd Gogledd Cymru gan olygu ei bod yn hawdd cael mynediad i'r ardal ehangach mewn cerbyd.

O fewn TBC fodd bynnag, mae'r traffig ar yr A548 yn drwm ac yn creu amgylchedd gwael i gerddwyr a beicwyr. Mae llu o gyffyrdd â goleuadau traffig ar ei hyd sy'n creu lefelau uchel o draffig llonydd Mae hyn yn cyfrannu at anawsterau croesi'r ffordd ac yn creu'r argraff ac ymdeimlad o ffordd sy'n cael ei dominyddu gan draffig. Mae'r

ffordd hefyd yn llydan iawn sydd yn ychwanegu ymhellach at yr ymdeimlad mai'r ffordd sy'n dominyddu. Fodd bynnag mae'r ffaith bod y ffordd mor llydan yn cynnig y cyfle i wneud gwelliannau arwyddocaol drwy, er enghraifft, gyflwyno llwybrau beicio, seilwaith gwyrdd a gwelliannau i barthau a mannau cyhoeddus.

**Mannau Cyhoeddus**

Mae yna fannau gwyrdd yn TBC ond nid oes cysylltiad hwylus atynt ac nid ydynt yn hygyrch i breswylwyr lleol. Mae ardaloedd mawr o le agored gwyrdd megis Parc Hanes, parc Towyn a chaeau chwarae Y Morfa Hefyd mae yno draeth mawr, llwybr yr arfordir / promenâd a chysylltiadau at gefn gwlad a'r amgylchedd ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys teipoleg amrywiol o fannau agored at ddefnydd preswylwyr, ymwelwyr a thwristiaid.

Yr hyn sydd ar goll fodd bynnag yw parth cyhoeddus/man dinesig o ansawdd. Mae creiddiau Towyn a Bae Cinmel wedi erydu dros y blynyddoedd a bellach nid ydynt yn fawr mwy na chyffyrdd traffig. Fel gyda'r A548 uchod, mae digon o le yno i allu cynnig y cyfle i wneud gwelliannau arwyddocaol i'r mannau hyn…. cyfle i'w haddasu i ddibenion gwahanol fel pwyntiau cyrraedd, cyrchfannau a chreiddiau dinesig gyda pharthau cyhoeddus o safon, wedi'u tirlunio a lle mae ymdeimlad o le.


**Strydlun**

Mae'r strydlun cyffredinol yn dameidiog, o natur heb ei gynllunio a dim math o god cynllunio. Mae'r unig ardal â chymeriad treftadaeth ger Eglwys y Santes Fair yn Nhowyn, eglwys a adeiladwyd yn 1873 ac a ddyluniwyd gan George Edmund Street, sef pensaer y Llysoedd Barn Brenhinol yn Llundain. Mae'r eglwys yn yr Arddull Addurnedig Cynnar ac yn adeilad Rhestredig Gradd II*, fel y mae Clwb Ieuenctid Towyn a Bae Cinmel gerllaw, adeilad arall a ddyluniwyd gan Street ac a adeiladwyd ddwy flynedd yn gynharach. Hefyd yn rhestredig mae'r trydydd adeilad yng nghontract Street, sef yr hen Ficerdy - Cartref Nyrsio Ty'n Llan erbyn hyn.





© Hawlfraint y goron a hawliau cronfa ddata 2022 AO100023380. Mae telerau ac amodau ynghlwm â'r defnydd o'r data hwn.

**Map 1 Dadansoddiad o le**





© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023380
Mae telerau ac amodau ynghlwm â'r defnydd o'r data hwn.

**Map 2 cludiant a symud**





© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023380
Mae telerau ac amodau ynghlwm â'r defnydd o'r data hwn.

**Map 3 asedau allweddol**




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023380
Mae telerau ac amodau ynghlwm â'r defnydd o'r data hwn.


**Map 4 y prif lwybrau cerdded drwy'r ardal**





© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023380
Mae telerau ac amodau ynghlwm â'r defnydd o'r data hwn.


**Map 5 darpariaeth seilwaith gwyrdd**




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023380
Mae telerau ac amodau ynghlwm â'r defnydd o'r data hwn.

**Map 6 materion a chyfleoedd allweddol**

**DADANSODDIAD SWOT**

## CRYFDERAU

- O’r arfordir i’r wlad
- Amgylchedd gwastad a hygyrch
- fewn cyrraedd i’r A55 gyda mynediad at lefydd a gweithgareddau eraill.
- Yn codi hiraeth am oes y gwyliau glan môr traddodiadol
- Cymuned falch a gweithgar
- Cymuned wydn a lwyddodd i oresgyn llifogydd 1990.
- Asedau sy’n cael eu harwain a’u rheoli gan wirfoddolwyr

## GWENDIDAU

- Gyda’r A55 gerllaw mae gan bobl ddewis o ran gweithgareddau i ymgymryd a nhw
- Mae natur fflat yr amgylchedd yn creu heriau o ran gogwyddo
- Mae’r amgylchedd adeiledig o natur heb ei gynllunio neu wedi erydu
- Mae’r A548 yn creu hollt rhwng yr ardaloedd ac mae wedi’i dominyddu gan gerbydau.
- Mae’n anodd symud rhwng y ddwy gymuned heb ddefnyddio’r A548
- Mae pocedi o’r gymuned lle mae ansawdd yr amgylchedd yn wael
- Mae’r stoc tai wedi dyddio mewn rhai mannau
- Diffyg cyfleoedd i bobl ifanc oherwydd diffyg amrywiaeth o dai, cyfleusterau a chyflogaeth.

## CYFLEOEDD

- Dyluniad Gardd Ddinesig arfaethedig
- Gellid adfer rhai mannau at ddefnydd y gymuned. TKBVOICE fel cysylltydd.
- Mae un o’r marchnadoedd awyr agored mwyaf yng Ngogledd Cymru yn Nhir Prince.
- Datblygu economi hamdden//profiadau - teithio llesol
- Rhai adeiladau eiconig
- Rhai atyniadau sy’n unigryw i’r ardal trac rasio ac ati
- Yn y cyfamser manteisio ar le sydd ddim yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd - mae digon ohono
- Poblogaeth sy’n heneiddio yn golygu y gwneir defnydd o wirfoddolwyr
- Mentrau yr economi sylfaenol
- Busnesau bach annibynnol sy’n rhoi hunaniaeth i’r lle
- Arloesedd i ddiwallu anghenion tai

## BYGYTHIADAU

- Newid hinsawdd, lefelau’r môr yn codi ac effeithiau amgylcheddol uchel
- Ymwelwyr yn rhoi pwysau ar isadeiledd yr economi lleol
- Polisi’r llywodraeth yn golygu na fydd unrhyw safleoedd maes glas yn cael eu datblygu
- Ceisio creu cymuned sy’n fwy cytbwys o ran oedran

# 6. ANGHENION A FFOCWS Y GYMUNED

## TBKVOICE - CODI YMWYBYDDIAETH AC YMGYSYLLTU

Yn ystod y cam cyntaf o gynnwys y gymuned yn natblygiad Cynllun Lle Towyn a Bae Cinmel fe wnaethom ddarparu amrywiaeth o opsiynau wynebyn wyneb a digidol i roi cyfle i bawb ddweud eu dweud. Fe wnaethom yr un fath yn ystod ail gam yr ymgynghori a'r cyd-gynhyrchu cymunedol.

Cyfuniad o dechnegau ymgysylltu wyneb yn wyneb traddodiadol megis digwyddiadau wyneb yn wyneb ac ymgyrch gymunedol #LoveTKB wedi'u hwyluso gan wirfoddolwyr ochr yn ochr ag ymgysylltiad digidol drwy'r cyfryngau cymdeithasol, gan ddefnyddio geiriau, delweddau a fideo i gyrraedd pobl a chodi ymwybyddiaeth o'r prosiect

Fe wnaethom redeg dwy broses mynegiant o ddiddordeb i recriwtio aelodau o'r Bartneriaeth Gymunedol ac roedd wedi'i gor-danysgrifio Fe wnaethom ddatblygu brand TKBVOICE, gwefan a llwyfannau digidol a'u defnyddio fel sianel i gadw'r sgwrs ar fynd ac fel canolbwynt digidol ar gyfer yr holl wybodaeth cysylltiedig â'r prosiect.

At ei gilydd fe wnaeth TKBVOICE gynnal 6 digwyddiad ymgysylltu  dros 4 diwrnod mewn 6 gwahanol leoliad, yn benodol i ymgysylltu pobl â'r broses cynllunio lle. Hefyd cynhaliwydl 15 gweithgaredd  TKBVOICE cymunedol, rhai mewn partneriaeth ag eraill, rhwng mis Mawrth a diwedd mis Gorffennaf, er mwyn cael sgyrsiau mewn awyrgylch mwy hamddenol a chryfhau cysylltiadau  ac annog pobl i gymryd rhan.

Fe wnaethom gynnal teithiau Cerdded a Sgwrsio, denu gwirfoddolwyr ar gyfer yr ymgyrch gymunedol #LoveTKB, cynnal gweithdai galw heibio ar sgiliau digidol yn ystod y cyfnod ymgynghori cyntaf i gefnogi pobl i ddefnyddio'r cyfleusterau ar-lein ar gyfer ymgysylltu, wedi'i gefnogi â gweithredu gwirfoddol arall. Rydym wedi mynychu digwyddiadau a gynhaliwyd gan grwpiau lleol eraill, wedi bod yn ein dwy ysgol i glywed barn y plant a'r bobl ifanc ac wedi parhau i ymateb i wahoddiadau i gymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol a digwyddiadau busnes eraill

Ffurfiwyd Partneriaeth Gymunedol TKBVOICE ar ôl ymgyrch recriwtio hynod lwyddiannus a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Ebrill. Ym mis Mai cynhaliwyd ymgyrch recriwtio lwyddiannus arall i ddewis y pedwar aelod llywodraethu. Mae'r Bartneriaeth y cyfarfod bob mis ac wedi bod yn arwain y broses creu lle, gwrando ar a gwneud sylwadau ar y themâu sy'n dod i'r amlwg a'r blaenoriaethau, a thrafod sut i droi syniadau'n weithredoedd.

Ar yr ochr ddigidol, rydym wedi bod yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyrraedd pobl, ac wedi datblygu Cymuned TKBVOICE ar-lein sy'n cael diweddariadau wythnosol gennym ac sydd wedi cyfathrebu ar draws amrywiaeth o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol i estyn allan a chysylltu â grŵp llawer ehangach o bobl.

Rydym hefyd yn falch o fod wedi datblygu a defnyddio cymwysiadau digidol arloesol. Rhoesom ein cardiau post #LoveTBC ar-lein, i'w defnyddio fel modd parhaus o

ymgysylltu â phobl er mwyn clywed eu stori am y man y maent yn byw neu'n gweithio ynddo neu'n ymweld ag o.

**CYFLEOEDD YMGYNGHORI**

Er nwyn sicrhau bod y Cynllun Lle yn diwallu ei brif amcan, sef 'sicrhau cefnogaeth y gymuned leol, fel eu bod yn cymryd perchnogaeth o'r allbynnau ac yn cytuno i rannu cyfrifoldeb dros ddarpariaeth y dyfodol', darparwyd nifer o gyfleoedd i breswylwyr lleol a sefydliadau ddweud eu dweud.

Trefnwyd y rhain mewn dau gam

- **Cam 1** – deall y materion yr heriau a'r syniadau
- **Cam 2 –** rhannu ein gweledigaeth, ein ffocws a'n cynigion

Mae crynodeb o ddau gam yr ymgynghoriad i'w gweld isod

**CAM YMGYNGHORI 1:**

**600 o sylwadau wedi'u derbyn**

Rydym wedi cael 600+ o sylwadau gan breswylwyr TBC sydd wedi chwarae rôl weithredol mewn rhannu eu profiadau a'u syniadau ar gyfer siapio eu cymuned.

**120 o sgyrsiau wyneb yn wyneb**

Rydym wedi siarad â channoedd o bobl leol, i gael gwybod o lygad y ffynnon beth yw'r heriau a'r problemau sy'n wynebu preswylwyr TBC.

Roedd y cyfleoedd canlynol ar gael i'r gymuned leol ac ymwelwyr

**Wyneb yn Wyneb**

**Ysgolion lleol**

Aeth y Cysylltydd Cymunedol i'r ysgolion cynradd ac uwchradd i siarad gyda'r disgyblion am le maen nhw'n byw, beth maen nhw'n ei hoffi neu ddim yn ei hoffi a syniadau ar gyfer gwella'r lle. Rhoddwyd cardiau post i'r disgyblion eu llenwi, rhai gyda help llaw staff cynorthwyol neu athrawon.

Cwblhawyd cyfanswm o 234 cerdyn post gan blant yr ysgolion cynradd.

**Sioe Deithiol Gymunedol**

A 1 a 2 Ebrill, trefnwyd sioe deithiol gymunedol ar draws Towyn a Bae Cinmel yn y llefydd canlynol:

- 1 Ebrill - 10am - 1pm - Eglwys y Santes Fair, Towyn
- 1 Ebrill - 2pn - 5pm - y tu allan i lyfrgell a chanolfan adnoddau Bae Cinmel.
- 2 Ebrill - 9am - 1pm - Marchnad Tir Prince

- 2 Ebrill - 2pm - 5pm - Maes parcio traeth Bae Cinmel

80 o bobl wedi cyfrannu'n uniongyrchol ar draws y pedwar lleoliad.  Cafwyd 120 o sylwadau gan ddefnyddio map mawr o'r ardal a'r defnydd o fflagiau problemau a syniadau syml.

**Ysgrifenedig**

Yn ychwanegol at y cardiau post a ddosbarthwyd yn ystod yr ymgynghoriadau cymunedol ar 1 a 2 Ebrill, cafodd cardiau ychwanegol eu gadael yn Neuadd y Dref ac mewn lleoliadau cymunedol eraill. Cafodd 33 cerdyn post eu llenwi a'u rhoi yn ôl yn ystod y digwyddiad neu drwy'r Cyngor Tref a'r canolfannau cymunedol eraill.

**Digidol**

O 1 Ebrill tan 25 Ebrill, roedd modd i'r gymuned leol hefyd wneud sylwadau ar-lein drwy wefan TKBVoice. Roedd hyn yn ymwneud yn benodol a'r defnydd o e-gerdyn post syml a'r teclyn Mapio Digidol Creu Cymunedau digidol. Cafwyd 12 o sylwadau gan ddefnyddio'r cyfleuster e-gerdyn post a 169 o sylwadau gan ddefnyddio'r Teclyn Mapio Digidol Creu Cymunedau.

Beth ddywedodd pobl wrthym?

Gellir gweld adroddiad llawn ar yr ymgynghoriad ar wefan TKBVoice[www.tkbvoice.wales]

Mae'n gorff gwerthfawr o wybodaeth sy'n cynnwys sylwadau a materion pwysig i'r Cynllun lle ganolbwyntio arnynt. Gyferbyn gwelir cyfanswm y sylwadau a wnaed, gan blant yr ysgolion cynradd, pobl a fynychodd y digwyddiad ymgynghori a thrwy'r cyfleuster digidol. Maen nhw'n dangos bod pobl yn hoffi'r traeth, y parc, y ffair, eu cartref a'u ffrindiau gyda chymuned yn rhan ganolog o'r rheswm pam eu bod yn byw yma.

Wrth edrych ar ffyrdd o wella Towyn a Bae Cinmel mae pobl a ymatebodd yn dueddol o sôn am bethau dydd i ddydd sy'n weladwy iddynt - mae sbwriel, biniau baw cŵn, glendid y traeth, cyflwr y ffyrdd ymysg y materion y mae pobl yn uniaethu â nhw. Mae rôl parciau a hamdden yn bwysig gydag ymatebwyr eisiau gweld parciau mwy yn ogystal â chael pwll nofio lleol. Er nad yw'n cael ei grybwyll mor aml â rhai materion,  mae'r angen i ddarparu gwasanaethau lleol amrywiol, o safon hefyd wedi'i ddynodi, ac mae hyn yn cynnal yr agenda lles lleol.

Crëwyd y 'cymylau geiriau' hyn o'r holl ymatebion a dderbyniwyd ar y cardiau post (ysgolion a'r gymuned ehangach).




Themâu allweddol

Wrth fynd drwy'r holl sylwadau a gafwyd fe wnaethom ddrafftio rhai themâu a meysydd i ganolbwyntio arnynt a chyfunwyd y rhain â safbwyntiau tîm ymgynghorol y Cynllun Lle. Siapiwyd y rhain i ddatblygu'r weledigaeth, y cynigion a'r ffocws sef:

1. **TBC gydag adnoddau** - gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd lleol, diwylliant lleol ac isadeiledd addysgol wedi'u cynnal amgylchedd gwydn a rhaglen newid hinsawdd.

2. **TBC Gwyrddach** - seilwaith gwyrdd â phobl wrth ei wraidd, yn cynnwys mannau agored, parciau, mannau chwarae, strydoedd, llwybrau a choridorau bioamrywiaeth

3. **TBC egnïol** - i ddatblygu cymuned gysylltiedig sy'n symudol ac yn egnïol gyda chyfleoedd hamdden, chwaraeon a llesiant ar gael i bawb a'r ffyrdd wedi'u gogwyddo fwy tuag at bobl

4. **TBC Mentrus** - i alluogi datblygiad economaidd lleol sy'n cefnogi pobl ifanc, entrepreneuriaid a busnesau sefydledig i dyfu a chwarae rhan mewn economi gynaliadwy

5. **TBC - Cyrchfan i Bawb** - creu lle cytbwys i fyw ac i ymweld ag o gyda'r angen i wella ansawdd y profiad yn y gyrchfan drwy atebion lleol sy'n diwallu anghenion cymunedol ac sy'n apelio at ymwelwyr

**CAM YMGYNGHORI 2:**

Ar 26 a 27 Mai, trefnwyd cyfle arall penodol i gymryd rhan ym mhroses y Cynllun Lle. O gymharu â digwyddiad mis Ebrill roedd yn ymwneud â rhannu gweledigaeth 15 mlynedd, themâu a ffocws ac yn amlinellu cynigion a oedd yn canolbwyntio ar le a phobl.

Cynhaliwyd y ddau ddiwrnod yn llyfrgell Bae Cinmel ac eglwys y Santes Fair yn Nhowyn gyda'r cynigion hefyd wedi'u cyflwyno'n ddigidol drwy wefan TKBVoice.

Hefyd cafwyd adborth  wyneb yn wyneb yn y digwyddiadau neu drwy'r cardiau post electronig a'r defnydd o'r ap Creu Strydoedd. Defnyddiwyd cyfrifon cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r digwyddiad 2 **ddiwrnod yn ogystal â chyfeirio pobl at y wefan.**

**Beth ddywedodd pobl wrthym**

Roedd llai o bobl - 55, yn bresennol yn y digwyddiad mis Ebrill. Ychwanegwyd y sylwadau hyn gan breswylwyr gan  ddefnyddio'r ap Creu Strydoedd ar wefan TKBVoice

Roedd rhai o'r themâu a rannwyd gyda thîm ymgynghorol y Cynllun Lle yn cynnwys:

- Cyfleusterau Cymunedol: angen gwella adeiladau yn ogystal ag ehangu'r amrywiaeth o weithgareddau mewn asedau fel Y Morfa a'r Ganolfan Adnoddau Cymunedol.
- Cyrchfan i bawb:  gwneud y mwyaf o'r potensial am TBC gyda gwell isadeiledd, treialu digwyddiadau a gweithgareddau newydd ac edrych af fentrau twristiaeth a arweinir gan y gymuned.
- Sandy Cove: mae preswylwyr a'r gymuned yn gefnogol, maen nhw eisiau cynnal deialog gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a hefyd dod i ddeall beth yw perthynas y gwaith â'u cartrefi a'u ffiniau ac ati.
- Pobl ifanc: gweithgareddau fforddiadwy sydd o fewn cyrraedd yn ogystal â datblygu digwyddiadau a gwyliau newydd ar gyfer pobl ifanc.
- Mynediad a Symudiad: uwchraddio ffyrdd i safon benodol ac edrych ar ddulliau eraill o fynediad i Dir Prince.
- Yr Amgylchedd: cydbwyso newid gyda harddwch naturiol yr ardal; problemau gyda thipio anghyfreithlon a rheolaeth tir gwael mewn llefydd.

# 7. GWELEDIGAETH A THEMÂU

## EIN GWELEDIGAETH A THEMÂU'R CYNLLUN LLE

O ddeall TBC fel lle a gwrando ar farn y gymuned rydym wedi llunio gweledigaeth a chyfres o themâu a fydd yn arwain y Cynllun Lle.

### BETH YW'R WELEDIGAETH AR GYFER TBG

Mae Towyn a Bae Cinmel yn lle cydlynol y gellir  ei grwydro o'r môr i'w strydoedd i'w fannau gwyrdd gyda chyfres o gymunedau iach, egnïol a llawn menter

### BETH YDI'R NODAU?

1. Cydbwyso anghenion y preswylwyr ar yr un pryd â pharchu'r dreftadaeth twristiaeth a'r economi ymwelwyr
2. Lle gwydn lle mae'r môr yn cwrdd â'r tir sydd wedi'i gefnogi â'r isadeiledd hanfoddol.
3. Lle hamddenol sy'n hybu lles ac sy'n hygyrch ac yn gynhwysol i bawb.
4. Angerdd cymunedol sy'n ymwneud â sicrhau bod pethau'n cael eu gwneud.

### BETH YW'R THEMÂU?

Thema 1 - **TBC gydag adnoddau -** gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, diwylliannol a lleol ac isadeiledd addysgol sydd wedi'u cynnal â gwytnwch amgylcheddol a'r agenda newid hinsawdd

Thema 2 - **TBC Gwyrddach** - isadeiledd gwyrdd a phobl wrth ei wraidd, yn cynnwys mannau agored, parciau, mannau chwarae, strydoedd llwybrau a choridorau bioamrywiaeth sy'n cyd-fynd â'r rhaglen lle ehangach

Thema 3 - **TBC egnïol** - i ddatblygu cymuned gysylltiedig sy'n symudol ac yn egnïol gyda chyfleoedd hamdden, chwaraeon a llesiant ar gael i bawb a'r ffyrdd wedi'u gogwyddo fwy tuag at bobl

Thema 4 - **TBC Mentrus** - i alluogi datblygiad economaidd lleol sy'n cefnogi pobl ifanc, entrepreneuriaid a busnesau sefydledig i dyfu a chwarae rhan mewn economi cynaliadwy

Thema 5 - **TBC - Cyrchfan i Bawb** - creu lle cytbwys i fyw ac i ymweld ag o gyda'r angen i wella ansawdd y profiad yn y gyrchfan ond gan wneud hynny drwy atebion lleol sy'n diwallu anghenion cymunedol ac sy'n apelio at ymwelwyr

## YR EGWYDDORION ARWEINIOL

### Lles TBC

Mae lleoliad y gymuned ar wastatir arfordirol yn cyfyngu ar faint unrhyw ddatblygiad newydd, yn enwedig tai. Tra gellir gwneud rhywfaint o ddefnydd o safleoedd tir llwyd

a thechnegau adeiladu arloesol, mae angen buddsoddiad ar yr ymyl ddeheuol hon o Fwrdeistref Sirol Conwy i gefnogi'r gymuned bresennol a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae rôl a swyddogaeth Towyn a Bae Cinmel o safbwynt cynllunio wedi bod yn anodd ei diffinio gyda'r teimlad bod datblygiad cynyddrannol yn drech na'r isadeiledd cymunedol a chymdeithasol. Mae agosatrwydd y lle at y Rhyl a'r A55 yn golygu bod dewis i breswylwyr mewn mannau eraill, sydd wedi arwain at ddiffyg cydlyniad, dyfnder ac ansawdd o safbwynt yr amrywiaeth o wasanaethau lleol sydd eu hangen ar gymuned fodern. Mae'r sefyllfa'n gwaethygu pan fydd tua 40/50,000 o bobl ychwanegol yn dod i'r ardal yn ystod y tymor ymwelwyr, gyda rhai yn aros yn y parciau gwyliau am ran sylweddol o'r flwyddyn. Mae hyn yn rhoi straen ychwanegol ar wasanaethau lleol fel iechyd, gofal cymdeithasol, yr heddlu a gwasanaethau dinesig gyda'r fath niferoedd o bobl hefyd yn creu goblygiadau amgylcheddol megis cynnydd mewn traffig, dirywiad yn ansawdd yr aer yn ogystal â phwysau ar yr isadeiledd gwastraff a charthffosiaeth. Er bod twristiaeth yn cefnogi cyflogaeth drwy'r gweithlu uniongyrchol a chadwyni cyflenwi, mae sylwadau'r gymuned leol yn nodi eu bod yn cwestiynu'r manteision cymunedol gyda'r teimlad bod pobl ar eu gwyliau'n aros o fewn ffiniau'r amrywiol barciau gwyliau heb unrhyw ymdeimlad bod manteision economaidd ehangach yn dod yn eu sgil.

Mae lles poblogaeth Towyn a Bae Cinmel hefyd wedi'i ddangos yn yr ystadegau amddifadedd gyda Bae Cinmel 1 (ardal Sandy Cove) â'r mynegai isaf yn y lle i gyd, sef 296, a Bae Cinmel 2 â'r mynegai uchaf, sef 781 gan olygu bod llai o heriau yno. Ym Mae Cinmel 1, mae'r rhan fwyaf o'r parthau'n dangos lefelau uchel o amddifadedd, yn fwyaf nodedig addysg (132), iechyd (258) a diogelwch cymunedol (307) gydag incwm (377) a chyflogaeth (333) yn dilyn yn agos.

Mae angen felly gwella'r isadeiledd cymunedol fel ei fod yn addas i'r pwrpas ac yn hygyrch i bawb.

## CYMDOGAETHAU 5-15 MUNUD

Caiff cymunedau fel Towyn a Bae Cinmel eu diffinio yn ôl ffurf corfforol a hybiau canolog neu fannau canolog. Yn y llefydd hyn y mae pobl yn dueddol o ymgasglu neu gyfarfod, siopa, gweithio, chwarae a mynd i'r ysgol ymysg pethau eraill. Ni ddylai cymdogaethau fod yn rhy fawr,  dylent fod yn hwylus i gerddwyr ac yn aml-ddefnydd a dylai llawer o weithgareddau/gwasanaethau bywyd dydd i ddydd fod o fewn pellter cerdded.

Wrth ddod o hyd i ffyrdd o drefnu lle, mae 'cyrchfannau cerdded cerdded' (walksheds) yn llefydd y gellir cerdded atynt mewn pum munud ar gyflymder cerdded arferol - a ddangosir fel arfer ar gynllun fel cylch a radiws chwarter milltir, neu 400 milltir. Drwy roi hyn ar waith yn Nhowyn a Bae Cinmel gallwn bennu nifer o fannau y gellir cerdded atynt mewn 5 munud sy'n ymledu o bwynt canolog megis rhes o siopau, cylchfan neu gyffordd neu ffyrdd allweddol, gwasanaeth cymunedol allweddol neu ynghanol tref. Er yn cydnabod nad yw pobl yn cerdded mewn llinell syth mae'n rhoi

Ymdeimlad cyffredinol o lefydd y gall pobl gyrraedd atynt o fewn 5 munud Gallai'r gymdogaeth hon fod â nifer o asedau a gweithgareddau i breswylwyr, yn cynnwys yr

isod: Gall y mannau hyn y gellir eu cyrraedd o fewn 5 munud ymgyfuno â chymdogaethau cyfagos, gyda chyfres o gylchoedd cysylltiol yn creu cyrchfannau cerdded 15 munud

**……fe ddylai fod yn hawdd cerdded mewn cymdogaethau gan feithrin cydlyniad cymunedol...**

Mae'r defnyddiau a'r gweithgareddau hanfodol sydd o fewn pellter cerdded o 15 munud wedi'u crynhoi isod

**5 MUNUD O GERDDED**

1. Lle amwynder - parc bach, lle i eistedd allan, mynd â'r ci am dro, cael picnic.
2. Adeilad cymunedol neu le cymdeithasol i gyfarfod, i siarad, ymgysylltu, dysgu a gweithio
3. Siop neu fusnes cyfleustra
4. Llwybrau hygyrch, diogel a braf

**15 MUNUD O GERDDED**

1. Clinigau gofal iechyd a fferyllfeydd
2. Ysgolion cynradd a meithrinfeydd
3. Mannau gwyrdd a pharciau
4. Gwasanaethau brys
5. Canolfannau llywodraeth leol
6. Siopau bwyd a manwerthwyr hanfodol eraill
7. Cyfleusterau bwyd a diod / hamdden

Prif amcanion tref neu le lle gellir cerdded at gyfleusterau mewn 15 munud yw:

1. Lleihau'r defnydd o gerbydau a theithiau hir diangen yn y car.
2. Gwella gwasanaethau allweddol a hygyrchedd amwynderau i bobl o bob cefndir.
3. Creu a datblygu mannau cymdeithasol a pharciau i bobl ar draws cymunedau.
4. Gwella iechyd a lles pobl ar draws y rhanbarth.
5. Creu mwy o amser ar gyfer gweithgareddau fel cysylltu â ffrindiau a theulu
6. Rhoi hyblygrwydd o ran sut y mae pobl yn byw e.e. gweithio hyblyg neu hybrid
7. Hyrwyddo dwysâd i wneud amwynderau a gwasanaethau lleol yn hunangynhaliol.
8. Gwella cysylltedd drwy lwybrau beicio a hwyluso cerdded.
9. Lleihau traffig drwodd a'r effeithiau negyddol sy'n dod yn sgil hynny.
10. Datgloi ffyrdd mwy cynaliadwy o fyw a symud o gwmpas.

Mae'r rhaid i'r cynllun lle hwn felly fabwysiadu rhai egwyddorion yn ymwneud â:

- Datblygu coridorau a strydoedd ar gyfer 'ardaloedd pobl'.
- Cefnogi cynlluniau ar gyfer creu cymdogaethau y gellir byw ynddynt.

- Helpu i ddarparu’r cyfleusterau sydd eu hangen ar gyfer ‘cymuned 15 munud’.
- Mynd ati i adfywio gyda mwy o gyfleusterau hamdden, cymunedol a manwerthu lleol ar gael.
- Bod y cynllun hwn yn deall y materion sydd o bwys i’r cyhoedd a budd-ddeiliaid yn ogystal â’u gweledigaeth ar gyfer eu hardal sy’n hyrwyddo beicio, cerdded a’r defnydd o gludiant cyhoeddus.

## ELFENNAU’R CYNLLUN LLE

Mae’r Cynllun Lle yn gosod cyfeiriad i Dowyn a Bae Cinmel at y dyfodol ac mae’n gosod y sylfeini ar gyfer ffyniant a lles. Mae’r themâu blaenoriaeth a nodwyd yn y Cynllun Lle (Atodiad 1) yn ymateb i brif heriau a chyfleoedd Towyn a Bae Cinmel a nodwyd o’n hymchwil ac a gymeradwywyd gan y gymuned leol a thrwy ymgynghoriad â budd-ddeiliaid. Bydd gwireddu Gweledigaeth ac Amcanion Strategol Towyn a Bae Cinmel yn cael ei yrru gan weithredu lleol dros newid sydd yn canolbwyntio ar bobl a lles.

Mae pob thema flaenoriaeth hefyd yn adlewyrchu her drosfwaol newid yn yr hinsawdd gan ddarparu ymateb integredig i wireddu canlyniadau hirdymor cynaliadwy ar gyfer Towyn a Bae Cinmel.

### Thema 1 - TBC GYDA’R ADNODDAU CYWIR

Seilwaith gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, diwylliannol, lleol ac isadeiledd addysgol sydd wedi’u cynnal â gwytnwch amgylcheddol ac agenda newid hinsawdd.

### Thema 2 – TBC Gwyrddach

Seilwaith ac ymarfer gwyrdd gyda phobl wrth ei wraidd, sy’n cynnwys mannau agored, parciau, cyfleoedd chwarae, strydoedd, llwybrau a choridorau bioamrywiaeth sy’n cyd-fynd â’r rhaglen lle ehangach.

### Thema 3 – TBC Egniol

TBC egnïol - datblygu cymuned gysylltiedig sy’n symudol ac yn egnïol gyda chyfleoedd hamdden, chwaraeon a llesiant ar gael i bawb a’r ffyrdd wedi’u gogwyddo fwy tuag at bobl.

### Thema 4 – TBC Mentrus

Glluogi datblygiad economaidd lleol sy’n cefnogi pobl ifanc, entrepreneuriaid a busnesau sefydledig i dyfu a chwarae rhan mewn economi cynaliadwy.

### Thema 5 – Cyrchfan i bawb

Creu lle cytbwys i fyw ac i ymweld ag o gyda’r angen i wella ansawdd y profiad yn y gyrchfan ond gan wneud hynny drwy atebion lleol sy’n diwallu anghenion cymunedol ac sy’n apelio at ymwelwyr

# 8. Y CYNLLUN LLE

## AMDDIFFYNIAD A DATBLYGIAD ARFORDIROL

- Dod o hyd i safleoedd tir llwyd addas sy’n diwallu’r angen uniongyrchol am dai.
- Ystyried anghenion tai a’u lleoliad mewn perthynas ag adnoddau ac asedau cymunedol.
- Ystyried technegau adeiladu arloesol

**Dibyniaethau**

- Nodyn Cyngor Technegol 15 Llywodraeth Cymru; map llifogydd newydd
- Asesiadau o ganlyniadau llifogydd
- Argaeledd safleoedd tir llwyd sydd yn addas o ran maint, lleoliad, gosodiad ac o ran diwallu egwyddorion creu lleoedd

**Sefydliad(au) Arweiniol**

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyfoeth Naturiol Cymru

**Cyllid**

- Rhaglen Amddiffynfeydd Arfordirol Llywodraeth Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Amserlen**

**2022-2025** **2025-2030** **2030-2037**

## DISGRIFIAD O’R PROSIECT

Mae Towyn a Bae Cinmel wedi’u lleoli ar wastatir arfordirol isel ac mae’r rhan fwyaf o’r ardal o fewn y parth perygl o lifogydd a ddynodwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Mae rhai gwelliannau i’r amddiffynfeydd arfordirol wedi’u cynllunio i helpu i ddiogelu’r preswylwyr presennol rhag llifogydd, a dim ond cynyddu wnaiff y risgiau hyn yn sgil newid yn yr hinsawdd. Ni fydd y gwelliannau hyn yn agor y drysau i ddatblygiadau tai newydd, ond mae’r angen am fuddsoddiad yn yr ardal wedi’i adnabod yn y Cynllun Datblygu Lleol sy’n dynodi ‘Ardal Adfywiad a Buddsoddiad Dwyreiniol’.

Yma bydd y Cyngor yn annog datblygu safleoedd tir llwyd drwy wneud defnydd newydd o’r fath safleoedd a dylunio arloesol sy’n creu datblygiadau llai agored i niwed sy’n addas ar gyfer y lleoliad. Hefyd bydd uwchraddio tai ac adeiladu tai newydd mewn ffyrdd sy’n golygu y gallant wrthsefyll heriau llifogydd a newid hinsawdd yn cael ei gefnogi yma.

**Egwyddorion Creu Lle**

- Ailddefnyddio safleoedd diddefnydd neu safleoedd tir llwyd
- Mabwysiadu cod dylunio

## “Y SGWÂR” SIOPAU A GWASANAETHAU

- Cod dylunio ar gyfer adeiladau - lliwiau, arwyddion a ffasgia
- Y parth cyhoeddus uniongyrchol - yn cynnwys llefydd i eistedd a lle ar gyfer gweithgareddau
- Seilwaith beicio - standiau, safle trwsio beics.
- Cysylltiad â’r gwelliannau i’r A548 (gw.TBC Egnïol)

**Dibyniaethau**

- Landlordiaid preifat yn cymryd perchnogaeth
- Priffyrdd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Sefydliad(au) Arweiniol**

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Landlordiaid a Thenantiaid
- Partneriaeth Gymunedol

**Cyllid**

- Llywodraeth Cymru – Cronfa Trawsnewid Trefi
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- (rhaglen gyfalaf, teithio egnïol)
- Sector Preifat

**Amserlen**

| 2022 – 2025 | 2025-2030 | 2030-2037 |
|---|---|---|

## DISGRIFIAD O’R PROSIECT

Mae’r siopau a’r gwasanaethau ym Mae Cinmel i gyd yn tueddu i fod wedi’u crynhoi o amgylch yr A548. Mae’r ffaith bod y Rhyl mor agos yn golygu bod maint ac amrywiaeth y gwasanaethau yn y fan hon, a’r defnydd ohonynt, yn gyfyngedig ac maent yn tueddu i fod wedi’u gogwyddo fwy tuag at wasanaethau. Er na allwn ddenu defnyddwyr newydd a defnydd newydd, gallwn wella’r amgylchedd a’r lleoliad masnachu.

Mae’r prosiect hwn felly yn edrych ar god dylunio integredig ar gyfer ffrynt siopau a busnesau sy’n teimlo’n fwy arfordirol ac yn cyflwyno cynnig lleol o ansawdd.

Mae angen i’r parth cyhoeddus uniongyrchol weithio gyda busnesau masnachol gan ddatblygu lle nid ar gyfer parcio yn unig, ond llefydd cymdeithasol ac ar gyfer gweithgareddau eraill seiliedig ar bobl. Mae’n rhaid i’r isadeiledd beicio fod yn hygyrch ac yn weladwy a rhaid cefnogi rhwydweithiau teithio egnïol gyda standiau beics, safleoedd trwsio, pwyntiau dŵr a mapiau/byrddau gwybodaeth

**Egwyddorion Creu Lle**

- Cod dylunio integredig ar gyfer adeiladau
- Parth cyhoeddus ymarferol a hwylus i bobl

## GWELLIANNAU SANDY COVE

- Ailwynebu'r ffordd a thirlunio / gwella draenio
- llwybrau troed a mannau croesi clai neu flociau concrit wedi'i rag-gastio 1.2 metr o led a mannau parcio glaswelltog wedi'u hatgyfnerthu.
- Polion golau
- Pantiau bas i ddal dŵr wyneb
- Plannu perthi brodorol a choed arfordirol. Lle amwynder gwyrdd gyda nodweddion cymdeithasol, chwarae, bioamrywiaeth a chynhyrchiol.

**Dibyniaethau**

- Datblygiad â dyluniad manwl
- Caniatad statudol e.e. cymeradwyaeth SAB

**Sefydliad(au) arweiniol**

- Cymdeithas Gymunedol Towyn a Bae Cinmel
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Partneriaeth Gymunedol TKBVoice
- Llywodraeth Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Grantiau eraill

**Cyllid**

- Llywodraeth Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Grantiau eraill

**Amserlen**

| 2022-2025 | 2025-2030 | 2030-2037 |
|---|---|---|

## DISGRIFIAD O'R PROSIECT

Mae'r gwelliannau amgylcheddol arfaethedig hyn yn cynnwys y 3.5 cilomedr (dros 2 filltir) o ffyrdd a llwybrau troed sydd i'w huwchraddio. Nid oes system ddraenio ymarferol e.e. gyliau a phibellau, yn bodoli yn gyffredinol ar draws yr ystâd, sydd wedi arwain at system oddefol sy'n draenio o'r holl arwynebau caled i'r ardaloedd o dirwedd feddal i ffurfio system ddraenio gynaliadwy neu SUDS.

Mae angen creu cynllun diogel ar gyfer cerbydau a cherddwyr yn ogystal ag i gadw cymaint o le gwyrdd â phosibl ar gyfer amwynder preswylwyr.

Mae 12 man agored - cyfanswm o 3 hectar at ei gilydd (bron 7.5 acer), pob un yn ffurfio canolbwynt ar gyfer grŵp o dai. Yn gyffredinol ychydig iawn o gysgod coed sydd yma, ac ychydig iawn o blannu, ond mae rhai lleoliadau lle mae plannu a llefydd eistedd wedi'u trefnu'n bwrpasol ar gyfer preswylwyr, sy'n cael eu cynnal a'u cadw ganddyn nhw, felly mae dymuniad i wneud y defnydd mwyaf o fannau agored

ar gyfer gweithgaredd hamdden anffurfiol. Mae potensial mawr i gynyddu bioamrywiaeth yr ardal yn ogystal â gwella amwynder gweledol drwy blannu planhigion sy'n ffynnu ar yr arfordir a phlanhigion sy'n gallu tyfu mewn mannau gwlyb fel gerddi glaw, pantiau bas a basnau dal dŵr fel rhan o'r system SUDS.Plannu er mwyn gwneud yr amgylchedd yn fwy deniadol, bydd cadw'r gorau o'r hyn sydd eisoes yno ac ychwanegu ato yn gyfle gwych i'r gymuned gyfrannu at, ac arwain datblygiadau.

Mae'r mannau gwyrdd canolog yn ased cymdeithasol pwysig i'r ystâd ac mae'n bwysig nad yw dyluniad y mannau hyn yn dilyn patrymau rhy gaeth gan gyfyngu ar gyfleoedd newydd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol. Yn hytrach dylent hwyluso cyfarfodydd anffurfiol, heb eu cynllunio, yn ogystal â digwyddiadau cymdeithasol mwy wedi'u cynllunio lle daw pobl at ei gilydd. Bydd y dyluniad yn gallu gwireddu hyn drwy i) cadw mannau agored sydd â sawl defnydd e.e. ar gyfer chwaraeon anffurfiol a digwyddiadau cymunedol ii) cyfleoedd ar gyfer cynnwys y gymuned yn y gwaith (megis plannu coed) a chynnal a chadw mannau gwyrdd a iii) creu ardaloedd cymunedol ar gyfer barbeciws a mannau eistedd.

**Egwyddorion Creu Lle**

- Dylunio ar sail strydoedd
- Y defnydd o SUDS a bioamrywiaeth
- Dylunio wedi'i arwain gan y gymuned mewn mannau agored.

## TBC INTEGREDIG CANOLBWYNT DYSGU A LLES

- Ymdriniaeth y mae pawb yn ei gefnogi i gychwyn a darparu astudiaeth dichonoldeb ar gyfer yr ysgolion a chanolfan chwaraeon Y Morfa.
- Darpariaeth ysgolion babanod a chynradd modern.
- Gwella ac ymestyn y ganolfan chwaraeon a hamdden
- Ystyried cyfleoedd i rannu manteision.
- Archwilio mynediad i’r safle a’r rhwydwaith teithio llesol.

**Dibyniaethau**

- Darparu ar y cyd.
- Cychwyn astudiaeth dichonoldeb.
- Cefnogi’r Morfa gyda staffio, llywodraethiad a rheolaeth
- Deall amserlenni, gweithredu fesul cam a’r llwybr critigol.

**Sefydliadau arweiniol**

- ar gyfer yr ysgolion newydd CBSC/ALl
- Cymdeithas Chwaraeon Bae Cinmel a Thowyn ar gyfer y ganolfan chwaraeon a hamdden

**Cyllid**

- Rhaglen cymunedau, cyfleusterau a gweithgareddau Llywodraeth Cymru.
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Chwaraeon Cymru
- Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer

**Amserlen**

**2022-2025** **2025-2030** **2030-2037**

## DISGRIFIAD O’R PROSIECT

Mae’r ddau brosiect yma yn rhai strategol i gymunedau Towyn a Bae Cinmel Mae’r ysgol fabanod a chynradd bresennol sydd wedi’i lleoli ger Y Morfa mewn lleoliad canolog a gall ddatgloi manteision sylweddol ar gyfer pobl ifanc a’r gymuned ehangach. Mae’r safle cyfan yn eiddo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gyda safle’r Morfa wedi’i brydlesu i Gymdeithas Chwaraeon a Hamdden Bae Cinmel a Thowyn. Bydd gwelliannau’n cael eu gwneud i’r ysgolion fel rhan o raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru ac maent wedi’u cynnwys fel rhan o’r Rhaglen Rhan B a fydd yn digwydd dros y 3 - 5 mlynedd nesaf. Caiff canolfan chwaraeon a hamdden Y Morfa ei rhedeg yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr ac mae yno neuadd chwaraeon dan do, toiledau ac ystafelloedd newid, Ardal Chwaraeon Aml-ddefnydd a sawl cae pêl-droed/chwaraeon Gan weithio yn y gymuned mae’r ymddiriedolwyr yn chwilio am ffyrdd i ehangu’r amrywiaeth o weithgareddau a chyfleusterau a

- gellid adeiladu estyniad i’r adeilad i gynnwys campfa ac adnoddau ar gyfer y cynllun atgyfeirio cleifion i i wneud ymarfer corff.

- Ardal luniaeth
- Lawnt fowlio artiffisial awyr agored - bob tywydd

Y defnydd o gerbydau/peiriannau adeiladu yn ystod y gwaith adeiladu, ond gan darfu cyn lleied â phosibl ar y gweithgareddau presennol ar y ddau safle. Mae tagfeydd traffig a diogelwch cerddwyr yn brif flaenoriaeth. Byddai angen ystyried asesiad o’r adeilad presennol, er mwyn gallu cynnig y nifer uchaf posib o weithgareddau ac er mwyn gallu gwneud y defnydd eithaf ohono ac edrych ar ddarpariaeth gyffredin ar draws y ddau safle o safbwynt mynediad yn ystod y gwaith adeiladu ac ar ôl y gwaith.

**Egwyddorion Creu Lle**

- Ymagwedd safle campws sy’n parchu gwahanol anghenion y ddau sefydliad arweiniol.
- Cyfrannu’n gadarnhaol at iechyd a lles drwy ddysgu, chwaraeon a hamdden.

**CLWB PÊL-DROED BAE CINMEL STADIWM PÊL-DROED**

- Datblygu safle pêl-droed a stadiwm proffesiynol yn yr ardal.
- Bod â safle pêl-droed gyda'r holl gyfleusterau angenrheidiol sydd wedi'i adeiladu i fanyleb safon uchel.
- I gefnogi uwch dimau merched a dynion drwy'r gwahanol adrannau i'w prif gynghreiriau perthnasol yng Nghymru.
- Byddai'r Stadiwm a'r safle'n cael eu defnyddio ar gyfer gemau terfynol cystadlaethau timau plant/ieuenctid, digwyddiadau ysgolion a swyddogaethau cymunedol eraill.

**Dibyniaethau**

- Astudiaeth ddichonoldeb
- Cytundeb y perchennog tir a phrydles.
- Cyllid
- Deall amserlenni, gweithredu fesul cam a'r llwybr critigol.

**Sefydliad(au) arweiniol**

- Partneriaeth Gymunedol TKBVoice
- Cymdeithas Gymunedol Towyn a Bae Cinmel, Clwb Pêi-droed Bae Cinmel
- Cymdeithas Chwaraeon a Hamdden Bae Cinmel a Thowyn Cyf.
- Cyngor Tref Towyn a Bae Cinmel
- CBS Conwy, Cymdeithas Pêl-droed Cymru, Chwaraeon Cymru.

**Cyllid**

- Busnesau lleol
- Chwaraeon Cymru
- Cymdeithas Pêl droed Cymru

**Amserlen**

| | | |
|---|---|---|
| 2022-2025 | 2025-2030 | 2030-2037 |

**DISGRIFIAD O'R PROSIECT**

Mae gan bob cymuned fywiog glwb pêl-droed i'w gefnogi ac i fod yn falch ohono. Mae TBC yn ffodus o fod â chlwb o'r fath ac mae hynny'n fan cychwyn gwych i wireddu'r uchelgais o fod â stadiwm pêl-droed o safon broffesiynol yn yr ardal.

Mae'r Clwb wedi'i sefydlu ers 20 mlynedd bellach ac mae ganddo hanes balch. Mae'n un o ddim ond chwe chlwb yng Nghymru sy'n dal achrediad uchaf Cymdeithas Pêl-droed Cymru, sef yr Achrediad Platinwm, a chwaraeodd ran flaenllaw yn natblygiad pêl-droed i ferched yng Ngogledd Cymru drwy sefydlu Cynghreiriau Genethod a Merched Gogledd Cymru. Erbyn hyn mae gan y clwb 12 o dimau genethod a bechgyn, tîm merched, tîm dynion uwch a thîm wrth gefn.

Mae'r cyfleoedd i adeiladu ar y llwyddiannau hyn ac i ddatblygu gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol yn enfawr. Gweledigaeth gyffredin yw datblygu cae a stadiwm pêl-droed proffesiynol yn yr ardal a fydd yn gallu darparu ar gyfer y timau presennol a gwella'r trefniadau cyfredol.

Mae'r tir arfaethedig wedi'i brydlesu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i Gymdeithas Gymunedol Bae Cinmel a Thowyn  Mae Clwb Pêl-droed Bae Cinmel mewn partneriaeth â Chymdeithas Gymunedol Bae Cinmel a Thowyn yn bwriadu cynnal astudiaeth dichonoldeb o gostau adeiladu'r safle pêl-droed  newydd ar y cae pêl-droed yn St Asaph Avenue lle mae  hanes o ddraenio gwael.

Mae yna gysylltiadau cryf i'w cynnal a'u cryfhau gyda champws Y Morfa ar gyfer datblygiad ieuenctid. Os ystyrir nad yw'n ymarferol defnyddio'r tir hwn dylid ystyried lleoliadau eraill gyda Chyngor Bwrdeistref Conwy yn gweithredu fel galluogwr strategol ble bynnag bosibl. Daw datblygu'r weledigaeth o stadiwm pêl-droed proffesiynol a sicrhau'r buddsoddiad ar gyfer hynny â nifer o fanteision pwysig yn ei sgil, y cynnwys:

- Caniatáu i Glwb Pêl-droed Bae Cinmel, ei dimau a'i chwaraewyr gystadlu ar y lefel uchaf yng Nghymru ac i fod yn symbol pwysig o'r gallu i godi dyheadau ac uchelgeisiau yn yr ardal.
- Byddai'n golygu y gallai Cymdeithas Gymunedol Bae Cinmel a Thowyn ddechrau gwneud defnydd llawn, er budd y gymuned, o ased cymunedol sydd ar hyn o bryd o safon wael gan greu cyfleoedd gwirfoddoli a gwella'r cynnig hamdden a chwaraeon yn yr ardal.
- Gallai'r cyfleoedd busnes a chyflogaeth a fyddai'n dod yn sgil prosiect o'r fath arwain at ddatblygu sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth a busnes ar gyfer pobl leol a gwella profiad yr ymwelydd a'r economi.

**Egwyddorion Creu Lle**

- Ailddefnyddio tir y mae ei ddefnydd ar hyn bryd wedi'i gyfyngu oherwydd draenio gwael.
- Integreiddio i'r dirwedd
- Cysylltiadau teithio llesol
- Dyluniad adeiladu cynaliadwy

**PARC HANES**

- Cyfle seilwaith gwyrdd arwyddocaol
- Ardaloedd natur lleol, bioamrywiaeth a phlannu coed
- Anffurfiol cicio pêl/cael
- Ardaloedd Picnic
- Ardaloedd tyfu cymunedol/fferm gymunedol
- Caban cymunedol - lle i gyfarfod, dysgu, tyfu a gwneud
- Llwybrau Teithio Llesol

**Dibyniaethau**

- Trosglwyddiad tir gan Lywodraeth Cymru
- Arolygon safle corfforol, asesiadau o ganlyniadau llifogydd
- Datblygiad â dyluniad manwl
- Ymgynghoriad rhanddeiliaid a chymunedol pellach

**Sefydliad(au) arweiniol**

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Tref Towyn a Bae Cinmel
- Partneriaeth Gymunedol TBKVoice

**Cyllid**

- Rhaglen Cymunedau Dysgu
- Cynaliadwy
- Rhaglen Cymunedau, Cyfleusterau a Gweithgareddau
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru

**Amserlen**

| | | |
|---|---|---|
| 2022-2025 | 2025-2030 | 2030-2037 |

**DISGRIFIAD O'R PROSIECT**

Yng ngwanwyn 2020 daeth CBSC yn ymwybodol bod tir ym Mharc Hanes yn cael ei gynnig ar gyfer pori gan Lywodraeth Cymru. Ar yr un pryd roedd CBSC wedi comisiynu  Asesiad o'r Seilwaith Gwyrdd i hysbysu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

Roedd y prosiect yn dilyn y canllawiau ym Mholisi Cynllunio Cymru ac roedd CNC yn rhan o dîm y prosiect. Bydd hyn yn hysbysu polisi'r dyfodol ac yn adnabod safleoedd posibl ar gyfer Seilwaith Gwyrdd, Teithio Llesol, lleddfu llifogydd, cysylltiadau â chreu cynefinoedd a chreu lle. Oherwydd yr amseru cyfleus, fe wnaeth CBSC, gyda mewnbwn Cyngor Tref Bae Cinmel, gynnwys astudiaeth achos, ymarfer mapio 'cyfyngiadau a chyfleoedd' ar gyfer Parc Hanes fel rhan o'r GIA.

Roedd Gwasanaethau Polisi Cynllunio CBSC eisoes yn ymwybodol o'r tiroedd a'r materion cysylltiedig â'r perygl o lifogydd sydd wedi llyffetheirio datblygiad (ystyrir fod

y tir mewn ‘perygl uchel’ o  lifogydd) a’r manteision cymunedol sydd ynghlwm ag o ers sefydlu TAN15.

Mae’n annhebygol y bydd unrhyw ddatblygiad preswyl newydd yn cael ei dderbyn yn yr ardal sydd mewn perygl o lifogydd felly mae ar Fae Cinmel angen cymorth adfywio amgen. Byddai datblygu’r tir ar gyfer SG a’i wneud yn hygyrch yn arwain at amrywiaeth eang o fanteision fel y nodir isod:

**Lleihau’r Perygl o Lifogydd** -  potensial i storio/lleihau dŵr llifogydd, cynllun SuDs o ardaloedd cyfagos. Gallai hyn o bosibl roi mwy o amser i weithredu pe bai llifogydd yn digwydd

**Teithio Llesol** - Gwella Lles Cymunedol - mynediad at fannau gwyrdd, darpariaeth a chysylltiadau diogel newydd megis cysylltiad pont Clwyd ac ar hyd y Ddol i St Asaph Avenue

**Cynhwysiant** -  Mae rhannau o TBC a’i gymydog agos, y Rhyl, wedi’u dosbarthu fel ardaloedd difreintiedig ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, yn cynnwys ym meysydd yr amgylchedd ac iechyd. Byddai datblygiad Parc Hanes yn mynd i’r afael yn sylweddol â cholled mynediad i’r amgylchedd naturiol oherwydd tir pori, parciau gwyliau ac ardaloedd sydd wedi’u gor-ddatblygu.

**Lle gwell i fyw, i weithio ac i ymweld ag o** - mae’r safle’n cynrychioli cyfle unigryw i greu lle naturiol hygyrch a chysylltiedig yng nghanol ystadau preswyl ond gallai hefyd ddarparu cysylltiadau gwell at ardaloedd cyflogaeth ar draws Bae Cinmel a’r Rhyl.

**Gwellhad cyfannol** - Mae’n ganolbwynt naturiol ar gyfer cysylltiadau teithio llesol, mynediad i’r anabl, lle chwarae i blant, cynefinoedd a bioamrywiaeth, mynediad at argloddiau Clwyd a’r Ddol, Coedwig Fach, lle chwarae i blant a mynediad i’r arfordir.

**Lles** -  Mae’r pandemig wedi atgyfnerthu pwysigrwydd hanfodol llefydd naturiol ac mae’r ardal yn cynnig y lle cyhoeddus hanfodol bwysig ar gyfer ymarfer corff, cymudo a chysylltu â natur mewn amgylchedd rhydd o draffig.
Bydd hefyd yn darparu lle i blant chwarae a chwilota. Gellir darparu manteision ac ymwybyddiaeth o iechyd yn unol â chanllawiau ymarfer y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol.

**Cyfleoedd i dyfu bwyd yn y gymuned** - Nid oes digon o randiroedd yn y ward, byddai darparu mwy o randiroedd yn creu enillion o ran cynyddu sgiliau, gwella iechyd a lles, cynhyrchu bwyd lleol organig ac incwm.

**Gwella Bioamrywiaeth** -  creu mwy o gynefinoedd ar gyfer peillwyr, anifeiliaid a phlanhigion dŵr a choed a lleihad mewn nitrogen a chemegau yn y gadwyn fwyd. Gellid cynnwys pori o hyd, o dan ‘reolaeth tir’

**Economi gwyrdd** - menter gymunedol, hurio/trwsio/gwerthu beics, twristiaeth, rhentu rhandiroedd, cynhyrchu bwyd cymunedol, marchnad ffermwyr, gwerthiant planhigion, caffi ac ati.

**Addysg** - Gallai’r safle gynnig cyfleuster dysgu awyr agored diogel ar gyfer ysgolion a grwpiau lleol. Mannau gwyrdd hawdd cyrraedd atynt yw ein gwasanaeth iechyd naturiol, ystafelloedd awyr agored ein plant, ein canolfannau cymunedol a hamdden heb do.

**Lleihau Carbon ac Ynni Adnewyddadwy** - Posibilrwydd o ynni haul/ffotofoltaig neu dyrbinau gwynt gyda pherchnogaeth leol.

**Chwaraeon, chwarae a hamdden** - Mannau chwarae, rhedeg a cherdded diogel a hygyrch, a photensial i gynhyrchu incwm - clwb, digwyddiadau, gardd synhwyraidd ac ati.

**Egwyddorion Creu Lle**

- Seilwaith Gwyrdd
- Bioamrywiaeth leol a natur
- Teithio Llesol
- Dyluniad cynaliadwy

**CYSYLLTU SEILWAITH GWYRDD (SG)**

- Ymdriniaeth SG gyson o ran lleoedd, ffyrdd, strydoedd, bylchau mewn cymdogaethau a chreu coridorau rhwng lleoedd.
- Hyrwyddo, dehongli ac addysgu drwy wybodaeth a gweithredu cymunedol.
- Datblygu cynllun cynnal a chadw a rheoli.

**Dibyniaethau**

- Yn amodol ar drosglwyddiad tir gan Lywodraeth Cymru.
- Datblygu'r dyluniad ymhellach

**Sefydliad(au) Arweiniol**

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Tref Towyn a Bae Cinmel
- Partneriaeth Llais Cymunedol

**Cyllid**

- Partneriaethau Natur Leol
- Llywodraeth Cymru – Cronfa Trawsnewid Trefi
- Cyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur gan Lywodraeth Cymru

**Amserlen**

| | | |
|---|---|---|
| 2022-2025 | 2025-2030 | 2030-2037 |

**DISGRIFIAD O'R PROSIECT**

Mae'r prosiect yn barhad o waith

- Plannu ar gyfer peillwyr a bywyd gwyllt arall
- Dolydd bach / perthi brodorol
- Plannu coed a llwyni
- Coed ffrwythau / perllannau
- Cyfleoedd i dyfu bwyd yn y gymuned. Lleoliadau i gynnwys:
- Parc Hanes
- Parc Clwyd
- Parc Owain Glyndŵr
- Coetir Cymunedol Chester Avenue
- Ardal Chwarae Llys Emlyn (Towyn)
- Tir Eglwys y Santes Fair
- Yn cynnwys chwarae i bobl ifanc

**Egwyddorion Creu Lle**

- Defnydd o'r Seilwaith Gwyrdd
- Diogelu a gwellai bioamrywiaeth leol
- Creu llefydd cymdeithasol

- Cysylltu â’r mannau cerdded o fewn 5 munud a 15 munud

**PROSIECT TYFU**

- Cwrdd â'r angen am lotmentau
- Cynnwys lle tyfu mewn prosiectau mwy e.e. Parc Hanes
- Integreiddio dysgu gydag ysgolion lleol a sefydliadau ieuenctid
- Gweithgareddau rhagnodi cymdeithasol yn cynnwys rhai sy'n deall dementia.
- Gweithgareddau eraill sy'n seiliedig ar bobl - o focsys silff ffenestr i erddi.

**Dibyniaethau**

- Ffurfio grŵp 'gwneud'
- Tir addas
- Cronfa fach ar gyfer offer, hadau a chynwysyddion blodau a phlanhigion

**Sefydliad(au) arweiniol**

- Partneriaeth Llais Cymunedol Towyn a Bae Cinmel
- Tirfeddianwyr
- Cysylltiad â Men's Shed yn Abergele

**Cyllid**

- Partneriaethau Natur Lleol
- Cyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur gan Lywodraeth Cymru

**Amserlen**

| | | |
|---|---|---|
| 2022-2025 | 2025-2030 | 2030-2037 |

**DISGRIFIAD O'R PROSIECT**

Datblygu 'tyfu cymunedol' ar draws Towyn a Bae Cinmel fel ffordd o gefnogi, iechyd a lles, cydlyniad cymunedol, gwneud defnydd o dir sy'n cael ei danddefnyddio a datblygu cynnyrch a gweithgareddau newydd. Ar ôl datblygu hyn gellid edrych ar gyfuno adnoddau a chynnyrch a chynnal digwyddiadau cymdeithasol, cynaeafu a gwasgu sudd, dosbarthiadau o'r fferm i'r fforc, clybiau swper lleol a llawer mwy.

Gallai'r prosiect fod o amrywiol feintiau, o Barc Hanes i strydoedd cynhyrchiol/bwytadwy; gerddi cymdogaethol i focsys silff ffenestr. Cysylltiadau â'r ysgol fabanod a'r ysgol gynradd, llyfrgell leol, clybiau ieuenctid sy'n cefnogi gweithgaredd rhyng-genhedlaeth a help i daclo problemau corfforol ac iechyd meddwl, datblygu sgiliau bywyd a chyflogadwyedd.

**Egwyddorion Creu Lle**

- Defnydd o'r Seilwaith Gwyrdd
- Diogelu a gwella bioamrywiaeth lleol
- Tirweddau cynhyrchiol

**DARPARU RHWYDWAITH TEITHIO**

- yn cysylltu â Sir Ddinbych dros Afon Clwyd
- Sefydlu gweddill y rhwydwaith llwybrau
- gan ddefnyddio'r Ddôl fel y cysylltiad dwyrain - gogledd rhwng Bae Cinmel a Thowyn.
- Integreiddio teithio llesol gyda phrosiectau mawr e.e Parc Hanes a safle Y Morfa/Ysgolion
- Cyfleusterau beicio - standiau, pympiau, safleoedd trwsio beics.
- Archwilio'r posibilrwydd o gynllun beic/sgwter neu ricsio cymunedol.

**Dibyniaethau**

- Datblygu dyluniad y rhwydwaith.
- Perchnogaeth tir

**Sefydliad(au) arweiniol**

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Sustrans
- Trafnidiaeth Cymru
- Partneriaeth Llais Cymunedol

**Cyllid**

- Cyllid Teithio Llesol  Llywodraeth Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Amserlen**

| 2022-2025 | 2025-2030 | 2030-2037 |
|---|---|---|

**DISGRIFIAD O'R PROSIECT**

Arweinir y prosiect hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel y sefydliad Teithio Llesol arweiniol. Mae cyfleoedd ar gyfer y rhwydwaith lleol wedi eu harchwilio a'u datblygu i'w rhoi ar waith yn y dyfodol, gyda cheisiadau blynyddol i Lywodraeth Cymru am gyllid.

Byddai'r llwybrau'n cysylltu cymdogaethau ac yn gwella'r profiad cerdded a beicio drwy greu llwybrau lletach, mannau croesi blaenoriaeth a'r ymdriniaeth galluogi cerdded i bwyntiau penodol o fewn 5 neu 15 munud (walkshed). Mae rhai safleoedd strategol allweddol y  mae angen eu hystyried yn fanwl o ran lleoliad y llwybrau, cysylltiadau ag ardaloedd preswyl a chyfleusterau cymunedol. Mae angen hefyd sicrhau bod teithio llesol yn ymateb i ofynion y seilwaith gwyrdd, bioamrywiaeth leol ac ymgysylltiad â chludiant cyhoeddus.

Yn ogystal â sefydlu llwybrau corfforol mae angen dewis mannau allweddol ar gyfer standiau beics diogel, safleoedd cynnal a chadw beics ac ar y llwybrau arfordirol, safleoedd dŵr. Mae natur fflat yr ardal hefyd yn creu cyfleoedd i edrych ar

ymarferoldeb cynllun beic / sgwter / ‘tuk tuk’ / ricsio cymunedol y gellid ei ganoli ar yr A548

**Egwyddorion Creu Lle**

- Dyluniad llwybr integredig
- Cysylltiad â phwyntiau cerdded mewn 5 a 15 munud a chyfleusterau allweddol.

**CROESFAN CYFFORDD TOWYN**

- Ymdriniaeth dyluniad strydoedd
- Cyfleoedd i wella croesfannau cerddwyr
- Gwella’r strydlun.
- Ailfodelu strwythurau ciosgs brics.
- Mwy o le i dreulio amser ynddo.
- Mwy o goed, plannu, tirlunio naturiol a’r defnydd

**Dibyniaethau**

- Mewnbwn yr Awdurdod Priffyrdd
- Mewnbwn Busnesau
- Lleoliadau Gwasanaethau
- Cyllid

**Sefydliad(au) Arweiniol**

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Partneriaeth Gymunedol Llais Towyn a Bae Cinmel

**Cyllid**

- Seilwaith Gwyrdd Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru
- Teithio Llesol Llywodraeth Cymru ) Cyllid

**Amserlen**

| 2022-2025 | 2025-2030 | 2030-2037 |
| --- | --- | --- |

**DISGRIFIAD O’R PROSIECT**

Mae’r gyffordd ynghanol Towyn.. Ar ei ffurf bresennol mae’n lle sydd wedi’i ddominyddu gan y briffordd heb fawr ddim ymdeimlad o fod wedi cyrraedd rhywle nac o borth i rywle. Mae’r gyffordd hefyd wedi’i ffinio gan gefn ciosgau brics. Mae cefnau’r ciosgau at y stryd ac maent yn cuddio tu blaen y busnesau yn y lleoliad hwn. Mae’r prosiect hwn yn cynnig cyfle i greu lle canolog yng nghalon Towyn. Byddai dymchwel y ciosgau yn syth bin yn creu ffrynt gweithredol i’r stryd yn ogystal â chreu lle i fusnesau orlifo iddo. Byddai hawlio lle yn ôl o’r briffordd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer seilwaith gwyrdd a draenio cynaliadwy.

Mae yna hefyd gyfle i ail-edrych ar reolaeth traffig yn y gyrchfan allweddol hon. Mae’r goleuadau traffig presennol yn stopio llif y traffig ac yn creu tagfeydd.

**Egwyddorion Creu Lle**

- Parth cyhoeddus gwell
- Creu lle canolog
- Creu porth cyrraedd
- Seilwaith Gwyrdd –

- Lle i fusnesau

**YR A548 – RHODFA ARFORD**

- Ymdriniaeth dyluniad strydoedd
- Cyfleoedd i wella croesfannau cerddwyr
- Gwella’r Strydlun.
- Mwy o le i aros am ychydig
- Mwy o goed, plannu, tirlunio naturiol a’r defnydd o ddulliau draenio trefol cynaliadwy.

**Dibyniaethau**

- Mewnbwn yr Awdurdod Priffyrdd
- Lleoliad a’r mathau o wasanaethau cyfredol/cyfyngiadau

**Sefydliad(au) Arweiniol**

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Partneriaeth Gymunedol TBK Voice

**Cyllid**

- Seilwaith Gwyrdd Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru
- Teithio Llesol Llywodraeth Cymru

**Amserlen**

| | | |
|---|---|---|
| 2022-2025 | 2025-2030 | 2030-2037 |

**DISGRIFIAD O’R PROSIECT**

Mae hon yn ffordd sy’n cael ei dominyddu gan draffig. Mae’r ffordd yn rhy lydan, gydag ardaloedd canolog mawr â cheibrau a sawl lôn yn arwain at nifer o gyffyrdd â goleuadau. Mae’r prosiect hwn yn ymwneud â gwneud defnydd gwahanol o le diddefnydd ar y briffordd a chreu amgylchedd brafiach a mwy diogel ar gyfer cerddwyr a beicwyr. Mae yna hefyd gyfle i gyflwyno lefelau arwyddocaol o seilwaith gwyrdd, o bosib wedi’i gyfuno â draenio cynaliadwy, megis gerddi glaw. Mae potensial i adfywiad y coridor hwn arwain at greu ‘lle’ unionlin arwyddocaol.

**Egwyddorion Creu Lle**

- Addasu a newid defnydd y ffordd: creu stryd a lle
- Cyflwyno Seilwaith Gwyrdd
- Draenio Cynaliadwy
- Teithio Llesol

**TIR LLWYD GWIREDDU DEFNYDD**

- Diogelu'r tir cyflogaeth wedi'i wasanaethu sydd ar gael i greu a thyfu busnesau lleol.
- Dwyn ymlaen le adeiladu ar y lleiniau sydd ar gael.
- Hyrwyddo cyfleoedd buddsoddi ar gyfer busnesau newydd a defnydd cyflogaeth.
- Cysylltiadau cymunedol.
- Rhaglen hyfforddiant a phrentisiaethau.
- Datblygu'r gadwyn gyflenwi leol
- Sefydlu ymarferoldeb cysylltiad ffordd i Dir Prince i gefnogi rheolaeth traffig.

**Dibyniaethau**

- Gwneud gwelliannau i'r amddiffynfeydd arfordirol
- Cefnogaeth CBSC i ddatblygu lleiniau cyflogaeth â gwasanaethau.
- Cychwyn astudiaeth dichonoldeb ar gyfer ffordd gyswllt â Thir

**Sefydliad(au) arweiniol**

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Tir Prince - astudiaeth o ymarferoldeb ffordd gyswllt

**Cyllid**

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Uchelgais Gogledd Cymru,
- Llywodraeth Cymru
- Sector Preifat - cyfraniadau tuag at ymarferoldeb ffordd gyswllt.

**Amserlen**

| 2022-2025 | 2025-2030 | 2030-2037 |
| --- | --- | --- |

**DISGRIFIAD O'R PROSIECT**

Tir Llwyd yw'r lleoliad blaenllaw ar gyfer twf mewn cyflogaeth. Yn yr ardal ddiwydiannol mae lleiniau cyflogaeth â gwasanaethau ar gael sydd yn hollbwysig o ran annog twf a sefydliad busnesau sy'n creu swyddi ac yn cefnogi cyfleoedd i bobl ifanc, mentrau newydd a datblygiad cadwyn gyflenwi leol.

Perchennog y safle yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac mae buddsoddiad a fyddai wedi galluogi dwyn eiddo newydd ymlaen wedi'i oedi oherwydd materion yn ymwneud â'r perygl o lifogydd ac ymarferoldeb datblygu eiddo diwydiannol hapfasnachol. Fodd bynnag mae gwelliannau cynnal y llinell arfaethedig i'r amddiffynfeydd arfordirol a'r angen am unedau busnes bach yn golygu y dylid gwireddu potensial Tir Llwyd yn ystod cyfnod y cynllun hwn.

Bydd datblygu eiddo ac annog mentrau newydd yn Nhir Llwyd yn rhoi cyfle i ddatblygu rhaglen ehangach o gymorth busnes a chadwyn gyflenwi leol gyda CBSC

a Busnes Cymru. Dylai unrhyw fuddsoddiad yn Nhir Llwyd hybu’r defnydd o gymalau cymdeithasol, polisïau caffael lleol a dod o hyd i ffyrdd o ddarparu cymysgedd o adeiladu cyflogaeth sydd yn hyblyg ac yn ddynamig wrth i fusnesau dyfu.

Mae buddsoddiad newydd yn Nhir Llwyd hefyd yn gyfle strategol i archwilio ymarferoldeb datblygu ffordd gyswllt rhwng Tir Llwyd a Thir Prince. Byddai hyn nid yn unig o bosib yn fantais i’r gweithgareddau busnes sy’n digwydd yn Nhir Prince ond hefyd yn datblygu cysylltiadau busnes a menter rhwng y ddau safle a chefnogi cyfleoedd buddsoddi a thwf ar draws yr ardal fusnes gyfan. Byddai manteision ehangach yn cael eu creu i fynd i’r afael â materion traffig a symud, yn cynnwys dargyfeirio cerbydau gwasanaeth a thraffig staff i ffwrdd oddi wrth yr A548 ffordd Towyn a gwella cyfleoedd i wneud gwelliannau i’r amgylchedd ac ansawdd yr aer, gwella teithio llesol a’r parth cyhoeddus ar hyd Ffordd Towyn.

**Egwyddorion Creu Lle**

- Ymdriniaeth safle menter a chyflogaeth allweddol sy’n ystyried y berthynas rhwng y ddau leoliad busnes sylfaenol.
- Datblygu cymuned fusnes sydd yn fwy cysylltiedig â lleddfu materion traffig er mwyn gwneud gwelliannau sydd wedi’u hanelu fwy at wneud pethau’n well i bobl

**TIR PRINCE – CYRCHFAN O ANSAWDD**

- Cynlluniau buddsoddiad gweithredwr parhaus
- Marchnadoedd  â thema, integreiddio gweithgareddau a digwyddiadau mewn cymunedau.
- Ysgol Ffeiriau Hwyl - hyfforddiant a rhagoriaeth.

**Dibyniaethau**

- Hyder Sector Preifat
- Ymagwedd gyffredin o ran datblygu sgiliau a hyfforddi

**Sefydliad(au) Arweiniol**

- Tir Prince
- Coleg Llandrillo – datblygu sgiliau–
- Rhwydwaith Talent Twristiaeth
- Partneriaeth Cymunedol TBK Voice

**Cyllid**

- Sector Preifat
- CBS Conwy
- Cronfa Adnewyddu Cymunedau / Cronfa Ffyniant a Rennir - cymorth sgiliau a busnes
- Uchelgeisiau Gogledd Cymru - Rhwydwaith Talent Twristiaeth.

**Amserlen**

| 2022-2025 | 2025-2030 | 2030-2037 |
|---|---|---|

**DISGRIFIAD O'R PROSIECT**

Mae buddsoddiad hirdymor yn y safle a'r atyniadau'n cael ei gynllunio yn dilyn trosglwyddiad diweddar rhydd-ddaliad y safle o CBSC i Dir Prince.

Mae'r arddangosfa yn cynnwys:

- Ffair - wedi'i diweddaru/uwchraddio'n llwyr ac yn cyflwyno reidiau newydd
- Marchnadoedd - cynlluniau i'w hehangu.
- Rasio Harnais - amrywio'r mathau o weithgareddau sy'n digwydd ar y
- trac.
- Gwelliannau amgylcheddol i'r gatiau a'r mannau
- parcio

Mae'r weledigaeth hefyd yn cynnwys arena pob tywydd a gwesty yn wynebu Ffordd Towyn. Yr uchelgais yw creu cyrchfan wyliau sy'n ymestyn y tymor ymwelwyr ac yn darparu'r atyniadau pob tywydd sydd ar hyn o bryd yn absennol yng nghynnig Towyn a Bae Cinmel Mae cyfleusterau pob tywydd a llety â gwasanaeth o safon uchel yn fwlch allweddol yng nghynnig ymwelwyr Towyn a Bae Cinmel, a dylai adeiladu'r fath

gyfleusterau helpu i ymestyn y tymor, a byddai o fantais hefyd i'r farchnad meysydd carafán.

Mae Tir Prince hefyd yn un o'r cyflogwyr lleol mwyaf - yn cyflogi cannoedd o weithwyr tymhorol rhan amser a llawn amser. Fodd bynnag mae'r busnes yn wynebu anawsterau o ran recriwtio staff gyda'r sgiliau angenrheidiol i gefnogi natur amrywiol y gweithrediadau. Mae'r sgiliau angenrheidiol yn cynnwys peirianneg fecanyddol a thrydanol, gwaith coed, gwasanaethau cwsmeriaid yn cynnwys tocynnau ac arlwyo.

Fodd bynnag nid yw cyfleoedd gyrfa yn y diwydiant ffeiriau'n cael eu gwerthfawrogi yn gyffredinol, yn cynnwys y cyfleoedd sydd i weithwyr profiadol symud i fyny i'r swyddi rheoli goruchwyliol sydd i'w cael mewn gweithrediadau ar raddfa fwy. Mae cyfleoedd yn bodoli i weithio gyda Choleg Llandrillo i ddatblygu staff â'r sgiliau angenrheidiol drwy gynnig cymwysterau/prentisiaethau ym maes lletygarwch (hamdden ac adloniant), peirianneg cynnal a chadw uwch wedi'u hategu â hyfforddiant mewn swydd.

Gan weithio gyda choleg Llandrillo mae cyfle yn bodoli i hyrwyddo cyfleoedd gyrfa drwy 'Ysgol Ffeiriau Hwyl' Tir Prince gyda myfyrwyr peirianneg,  adeiladwaith a lletygarwch.

**Egwyddorion Creu Lle**

- Cefnogi busnesau sefydledig i dyfu a buddsoddi.
- Cefnogi datblygiad twristiaeth o ansawdd, gydol y flwyddyn sy'n arallgyfeirio'r economi leol.
- Cefnogi pobl ifanc i mewn i gyflogaeth a gyrfaoedd lleol.

**DARPARIAETH DECHRAU A THYFU BUSNESAU**

- Gwella ac uwchraddio safleoedd ac eiddo busnes cyfredol yn cynnwys y rhai hynny sydd wedi dyddio ac sy’n anaddas ar gyfer gweithgaredd cyflogaeth fodern

**Dibyniaethau**

- Hyder y sector preifat i fuddsoddi.
- Fframwaith cynllunio a chymeradwyo cefnogol

**Sefydliad(au) Arweiniol**

- Sector Preifat

**Cyllid**

- Grant Datblygu Busnes Conwy - i gefnogi datblygiad economaidd busnesau a mentrau cymdeithasol Conwy

**Amserlen**

| | | |
|---|---|---|
| 2022-2025 | 2025-2030 | 2030-2037 |

**DISGRIFIAD O’R PROSIECT**

Mae’r perygl o lifogydd a chyfyngiadau corfforol yn rhwystro twf a datblygiadau ar draws ardaloedd Towyn a Bae Cinmel. Mae hyn yn golygu bod angen uchafu gwerth economaidd ac uwchraddio asedau adeiledig drwy adnewyddu eiddo a safleoedd busnes cyfredol, yn cynnwys y rhai hynny sydd wedi dyddio ac sy’n anaddas ar gyfer cyflogaeth fodern Mae gwelliannau’n debygol o gynnwys isrannu eiddo i greu gweithleoedd llai ar gyfer mentrau newydd/BBaCH moderneiddio er mwyn uwchraddio safonau a mesurau effeithlonrwydd ynni, addasiadau corfforol i alinio â sectorau modern e.e. awtomeiddio, storio a dosbarthu.

Mae’r prosiect yn berthnasol i ardaloedd diwydiannol a busnes sefydledig yn cynnwys Tir Llwyd a Cader Avenue, yn ogystal ag eiddo busnes unigol llai mewn mannau eraill, yn cynnwys eiddo ar hyd Ffordd Towyn.

**Egwyddorion Creu Lle**

- Gwelliannau cynaliadwy i safleoedd ac eiddo cyfredol.
- Cefnogi busnesau sefydledig i dyfu a buddsoddi.

**MENTER ARFORDIROL CYMORTH A DATBLYGIAD**

- Datblygu Clystyrau Busnes
  - Ffordd o fyw
  - Uwchgylchu gwastraff glan môr
  - Beicio/cerdded
  - Lles
  - Bwyd a Diod
  - Tyfu Cymunedol
- Cymysgedd o unig fasnachwyr a mentrau cymdeithasol. Rhwydweithio busnes i fusnes.
- Polisi ac ymarfer caffael cadwyn gyflenwi fyr

**Dibyniaethau**

- Datblygu rhwydwaith busnes
- Aliniad â phrosiect o fath 'cyfalaf' megis canolbwynt glan môr newydd ym Mae Cinmel ac yn y Sgwâr.
- Adeiladu ar lwyfan digidol TBC

**Sefydliad(au) Arweiniol**

- Sector Preifat
- CBS Conwy
- Partneriaeth Gymunedol TBK Voice

**Cyllid**

- Grant Datblygu Busnes Conwy - i gefnogi datblygiad economaidd busnesau a mentrau cymdeithasol Conwy

**Amserlen**

| 2022-2025 | 2025-2030 | 2030-2037 |
|---|---|---|

**DISGRIFIAD O'R PROSIECT**

Archwilio cyfleoedd i adnabod a hyrwyddo mentrau cymdeithasol a phreifat wedi'u halinio â chyfleoedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd lleol. Er enghraifft, mae potensial i alinio asedau a gweithgareddau lleol gyda syniadau busnes newydd fel uwchgylchu gwastraff glan môr, gwasanaethu gweithgaredd cerdded a beicio arfordirol, ynni arfordirol neu dyfu cymunedol drwy wella mannau agored lleol.

Sefydlu rhwydwaith busnes cryfach yn Nhowyn a Bae Cinmel i gefnogi B2B ac arferion cadwyn gyflenwi leol.

Hyrwyddo cymorth a chyngor i fusnesau a fydd yn helpu i godi ymwybyddiaeth, cynyddu menter yn lleol a chreu cyfleoedd a marchnadoedd busnes newydd.

**Egwyddorion Creu Lle**

- Cefnogi entrepreneuriaeth a thwf busnesau lleol
- Twf economaidd cynaliadwy

**LLE I GYDWEITHIO – YMARFEROLDEB**

- Gweld beth yw'r galw lleol a'r cyflenwad posibl
- Dynodi'r defnydd cyfredol o asedau
- Opsiynau i gynnwys cydleoli o fewn lle sydd gan fusnesau a lleoliadau cymunedol dros ben.
- Ymdriniaeth clwstwr gyda lleoliadau sefydledig eraill.

**Dibyniaethau**

- Y galw am le cydweithio cynaliadwy
- Eiddo a busnes lletyol/sefydliad lleol addas

**Sefydliad(au) arweiniol**

- Cyngor Tref Towyn a Bae Cinmel
- Astudiaeth ddichonoldeb
- Partneriaeth Gymunedol TBK Voice

**Cyllid**

- Cyngor Tref Towyn a Bae Cinmel
- CBS Conwy

**Amserlen**

| 2022-2025 | 2025-2030 | 2030-2037 |
|---|---|---|

**DISGRIFIAD O'R PROSIECT**

Gan ymateb i'r arwyddion bod cynnydd mewn gweithio o bell ymysg preswylwyr ac ymwelwyr ag ardal Towyn a Bae Cinmel, y bwriad yw ymgymryd ag astudiaeth dichonoldeb i weld a oes galw a photensial i sefydlu lleoliad cydweithio newydd. Mae opsiynau i'w hystyried yn cynnwys creu mannau cydleoli mewn lle sydd gan fusnesau a lleoliadau cymunedol eraill dros ben

**Egwyddorion Creu Lle**

- Gwelliannau cynaliadwy i safleoedd ac eiddo cyfredol.
- Cefnogi busnesau newydd sefydledig i dyfu.
- Gwella ansawdd y gyrchfan ar gyfer ymwelwyr

**TRAETH BAE CINMEL FFOCWS Y GYRCHFAN**

- Gwella gwerth yr amwynderau
- Gwella’r profiad cyrraedd a’r lleoliad
- Y maes parcio i fod â’r un faint o lefydd ond wedi’u gosod allan yn well. Gwella mynediad i’r traeth ac ar hyd y promenâd.
- Rheoli darpariaeth cerdded/beicio
- Ardaloedd sy’n annog pobl i aros am ychydig.
- Canolbwynt bwyd a diod bach, gwerthu pethau glan môr, toiled.
- cawodydd.
- Arwyddion, sbwriel a glanhau.
- Lle ar gyfer digwyddiadau yn ystod y dydd a gyda’r nos.

**Dibyniaethau**

- Angen cydnabod buddiannau lesddalwyr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn rhydd-ddeiliad.
- Strategaeth a chynllun amddiffyn yr arfordir

**Sefydliad(au) arweiniol**

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Llywodraeth Cymru a Chyfoeth
- Naturiol Cymru
- Partneriaeth Gymunedol TBK Voice

**Cyllid**

- Cyllid Llifogydd ac Erydu Arfordirol Llywodraeth Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cronfa Cymunedau Arfordirol Llywodraeth Cymru.

**Amserlen**

| | | |
|---|---|---|
| 2022-2025 | 2025-2030 | 2030-2037 |

**DISGRIFIAD O’R PROSIECT**

Nid yw maes parcio Traeth Bae Cinmel yn lle deniadol i bobl leol ac ymwelwyr. Nid yw’n gwneud y mwyaf o’r lleoliad ar yr arfordir yn ystod y dydd a gyda’r nos. Nod y prosiect yw gwella gwerth yr amwynder drwy wella mynediad i’r traeth, lledu’r promenâd ble bynnag y mae hynny’n ymarferol er mwyn gwella profiad cerdded a beicio a chodi adeilad i fod yn ganolbwynt bach sy’n gosod y tôn cywir ar gyfer y gyrchfan hon.

Byddai’r canolbwynt bach yn dod â’r cyfleusterau manwerthu ac amwynderau presennol at ei gilydd dan un to fel bod y safle’n edrych yn fwy taclus. Byddai adeilad deulawr yn ei wneud yn weladwy ac yn amlwg yn y lleoliad, yn rhoi golygfeydd dros y môr ac yn ei wneud yn fwy ymarferol at ddefnydd fin nos gyda bistro/bar bach o bosibl. Byddai’r ardal o amgylch yr adeilad yn lle gwell i dreulio ychydig o amser, lle i

gael barbeciw, i eistedd yn ogystal â pharcio beics. Byddai toiledau newydd yn rhan o hyn.

Byddai'r maes parcio'n cael ei osod allan mewn ffordd fwy effeithiol, gyda gwell mynediad i gerddwyr ar draws y safle.

**Egwyddorion Creu Lle**

- sy'n hygyrch i bawb
- Adeilad sy'n gweddu'r arfordir o safbwynt Dyluniad. Dyluniad carbon isel.
- Seilwaith gwyrdd â'r defnydd o SuDS.

**CROESO I TBC ARWYDDION (FFURF GELFYDDYD)**

- I ‘gyhoeddi’ Towyn a Bae Cinmel yn well ac atgyfnerthu ei hunaniaeth mewn mannau allweddol ar yr A548 - Y Bont Las, porth i Dowyn , Y Sgwâr.
- Penderfynu ai brand LoveTBK yw’r un i’w ddefnyddio ar arwyddion.
- Cynnwys yr arwyddion mewn gwelliannau i’r A548 a’r rhodfa arfordirol i mewn i’r ardal.

**Dibyniaethau**

- Trafodaethau cynnar gyda phriffyrdd a pherchnogaeth o’r syniad a’r broses
- Caniatad.

**Sefydliad(au) arweiniol**

- Partneriaeth Gymunedol TKBVoice
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Awdurdod Priffyrdd)

**Cyllid**

- Cyngor Celfyddydau Cymru - Creu: Ariannu’r datblygiad a chreu profiadau o safon uchel ym maes y celfyddydau.
- Cronfa’r Loteri Genedlaethol
- Sefydliadau eraill sy’n cael eu harwain gan y celfyddydau
- Gwynt y Môr/Gwastadeddau’r Rhyl

**Amserlen**

| | | |
|---|---|---|
| 2022-2025 | 2025-2030 | 2030-2037 |

**DISGRIFIAD O’R PROSIECT**

Er bod arwyddion porth wrth ddod i mewn i’r ddwy gymuned o’r dwyrain a’r gorllewin, maen nhw’n eithaf safonol ac nid ydynt yn cyfleu ymdeimlad o le a hunaniaeth arfordirol.

Mae cyfle i archwilio arwyddion sy’n gelfyddyd  neu’n farciwr gweledol r gyfer ymwelwyr Gallai hwn fod yn brosiect partneriaeth rhwng priffyrdd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a’r bartneriaeth gymunedol fel bod yr arwydd ar ffurf celf yn briodol ar gyfer y briffordd ond er hynny yn helpu i hyrwyddo’r ardal. Comisiwn ar gyfer artistiaid fyddai hwn, a byddent yn edrych ar gyfres o arwyddion celf ac yn ‘siarad’ ymysg ei gilydd ac yn meithrin hunaniaeth leol.

**Egwyddorion Creu Lle**

- Rhaid i hyn fod wedi’i integreiddio a’r
- Meddylfryd a’r cynigion ar gyfer yr A548.
- Rhaid bod yn garbon isel ac yn gynaliadwy

**DIGWYDDIADAU TOWYN A BAE CINMEL**

- Defnyddio asedau ar gyfer digwyddiadau
- Cymunedol, gwyliau a gweithgareddau
- Datblygu sgiliau ac adnoddau cymunedol

**Dibyniaethau**

- Dim o unrhyw arwyddocâd
- Angen gweithio mewn partneriaeth â llefydd arfordirol eraill Conwy wrth ddatblygu digwyddiadau ar raddfa fwy.

**Sefydliad(au) arweiniol**

- Partneriaeth Gymunedol TBK Voice
- Tîm digwyddiadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Croeso Cymru

**Cyllid**

- Cymorth Buddsoddi Mewn Amwynderau Twristiaeth Llywodraeth Cymru
- Gwynt y Môr/Gwastadeddau'r Rhyl

**Amserlen**

| | | |
|---|---|---|
| 2022-2025 | 2025-2030 | 2030-2037 |

**DISGRIFIAD O'R PROSIECT**

Mae Towyn a Bae Cinmel mewn lleoliad trawiadol ar arfordir Gogledd Cymru ac mae angen gwneud y mwyaf o'r lle ar gyfer digwyddiadau mwy yn ogystal â gweithgareddau ar lawr gwlad.

Yn y gorffennol mae Tir Prince wedi bod yn gartref i Rali GB Cymru a byddai'n bosibl denu digwyddiadau mwy os bydd eu cynlluniau buddsoddi'n creu'r isadeiledd cywir. Gellir hefyd cysylltu'r lleoliad arfordirol â Chonwy a Sir Ddinbych ehangach gyda digwyddiadau fel:

- Hanner marathon - Llandudno i Fae Cinmel
- Triathlon, nofio mewn dŵr agored, cystadlaethau syrffio barcud.
- Teithiau cerbydau clasurol

Ar lefel gymunedol mae yna hefyd gyfleoedd Rhedeg Mewn Parc, digwyddiadau lles ar y traeth (yoga, tai chi ac ati) a cherddoriaeth gyda'r nos.

Gallai canolbwynt traeth Bae Cinmel hefyd fod yn gartref i gerddoriaeth, y celfyddydau, theatr a ffilm awyr agored a gweithgareddau eraill.

**Egwyddorion Creu Lle**

- Defnyddio’r dirwedd gorfforol a’i chymeriad i ddatblygu a hyrwyddo digwyddiadau a gweithgareddau.

**TIW PRINCE CYRCHFAN O ANSAWDD DRWY GYDOL Y FLWYDDYN**

- Cynlluniau/buddsoddiad gweithredwr parhaus ar gyfer y gyrchfan.
- Adeiladu ar atyniad y farchnad gyda marchnadoedd â themâu, digwyddiadau a gweithgareddau.
- Integreiddiad yn y gymuned o ran croes-farchnata, cadwyni cyflenwi lleol a chysylltiadau eraill.

**Dibyniaethau**

- Gweithredwr Safle
- Caniatâd statudol y dyfodol
- Cysylltu â chynigion a mentrau Cynlluniau Lle eraill.

**Sefydliad(au) Arweiniol**

- Tir Prince

**Cyllid**

- Tir Prince Cyf.
- Croeso Cymru

**Amserlen**

| | | |
|---|---|---|
| 2022-2025 | 2025-2030 | 2030-2037 |

**DISGRIFIAD O'R PROSIECT**

Mae Tir Prince yn atyniad mawr yn rhanbarthol ac yn lleol gyda phobl ar eu gwyliau neu sy'n ymweld am y dydd yn gwybod amdano ers blynyddoedd lawer. Mae'r gweithredwr yn cydnabod pwysigrwydd Tir Prince yn yr economi leol ac yn ddiweddar rhoddwyd cynlluniau ar waith i adnewyddu'r ffair yn ogystal â chreu gwell mynedfa oddi ar yr A548. Mae cynlluniau'r dyfodol yn cynnwys cynigion i ehangu'r cynnig o lety ar y safle a gwella atyniadau a'r seilwaith ymwelwyr.

Mae Tir Prince mewn lleoliad strategol dros ben a gallai ddatgloi rhagor o gyfleoedd cyflogaeth leol, gwelliannau hygyrchedd a chysylltu â mentrau twristiaeth a arweinir gan y gymuned fel bod gan Dowyn a Bae Cinmel gynnig cytbwys ac amrywiaeth o gyfleusterau gydol y flwyddyn.

**Egwyddorion Creu Lle**

- Adnabod cyd-destun y safle a'i
- berthnasoedd
- Pwysigrwydd tirlunio a thrin ymylon
- Mynediad a symudiad ehangach

**TREFTADAETH, A LLWYBRAU DIWYLLIANNOL**

- Datblygu cyfres integredig o lwybrau sy’n dweud hanes TBC ar gyfer preswylwyr lleol ac ymwelwyr
- Cymysgedd o arwyddion dangos y ffordd, teils dehongli, y defnydd o gysylltiad drwy godau Cysylltiad codau QR â phrofiadau sain
- Haenau dros y rhwydwaith teithio llesol a hawliau tramwy eraill.
- Cysylltu â mannau cyfarfod sy’n agos at siopau lleol, caffi a busnesau
- Rhan o’r agenda lles ar gyfer gweithgareddau rhyng-genhedlaeth

**Dibyniaethau**

- Ymchwil i, a datblygiad y llwybrau a’r wybodaeth.
- Perchnogaeth y lleoliadau.

**Sefydliad(au) Arweiniol**

- Partneriaeth Gymunedol TKBVoice
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Cyllid**

- Cymorth Buddsoddi Mewn Amwynderau Twristiaeth Llywodraeth Cymru
- Gwynt y Môr/Gwastadeddau’r Rhyl

**Amserlen**

| | | |
|---|---|---|
| 2022-2025 | 2025-2030 | 2030-2037 |

**DISGRIFIAD O’R PROSIECT**

Datblygu cyfres integredig o lwybrau sy’n cysylltu cymdogaethau, llefydd o ddiddordeb a mannau cyfarfod ac yn annog pobl i archwilio, dysgu a chymdeithasu. Mae hwn yn gynnig twristiaeth gymunedol da gyda phobl leol yn darparu’r hanes, y ffeithiau a’r ffigyrau lleol ac yn profi llwybrau posibl. Byddai’n gofyn am rywfaint o gydlynu gydag Adran Priffyrdd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy er mwyn gweithio gyda rhwydweithiau a llwybrau eraill yn ogystal â chael cefnogaeth ar gyfer datblygu system dangos y ffordd, dehongli ac arwyddion eraill.

Ar wahân i wybodaeth leol am dreftadaeth,  hanes a diwylliant yr ardal, gallai prosiect cymunedol hefyd gynnwys pobl leol yn creu llyfrau sain, darluniadau ac yn rhoi mewnbwn creadigol o fathau eraill.

**Egwyddorion Creu Lle**

- System dangos y ffordd a dehongli syml.
- Yn ymateb i leoliad o ran gosodiad.

**ARWEINIR GAN Y MENTRAU TWRISTIAETH**

- Partneriaeth gymunedol i ddatblygu llysgenhadon

**Dibyniaethau**

- Capasiti ac adnoddau Partneriaeth Gymunedol TKBVoice
- Gweithio gyda phartneriaid twristiaeth yng Nghonwy ac o bosbl yn genedlaethol.

**Sefydliad(au) Arweiniol**

- Partneriaeth Gymunedol TKBVoice

**Cyllid**

- Cymorth Buddsoddi Mewn Amwynderau Twristiaeth Llywodraeth Cymru
- Cwmpas
- Gwynt y Môr/Gwastadeddau'r Rhyl

**Amserlen**

| 2022-2025 | 2025-2030 | 2030-2037 |
|---|---|---|

**DISGRIFIAD O'R PROSIECT**

Drwy'r broses Cynllun Lle mae cyfle wedi codi gan Cwmpas (Canolfan Gydweithredol Cymru ) ac Academi Menter Gymdeithasol yr Alban i ddatblygu ymdriniaeth twristiaeth gymunedol sy'n anelu at ddatblygu cymuned ymarfer sy'n anelu at ddatblygu cymuned ymarfer sydd mewn gwell sefyllfa i siapio dyfodol eich lle. Bydd y gyfres o 5 sesiwn gweithdy yn helpu Partneriaeth Gymunedol TKBVoice i rannu ei breuddwydion ar gyfer dyfodol eich cymuned a rôl twristiaeth yn y freuddwyd honno, sef:

- Troi eich gweledigaethau'n weithredoedd
- Cysylltu â chymunedau gwledig eraill ar draws yr Alban a Chymru
- Datblygu sgiliau arweinyddiaeth allweddol er mwyn gallu creu newid ac ennill cefnogaeth pobl
- Gwella rhwydweithiau, pecynnau cymorth ac adnoddau cymunedol

Gellir sianelu rhai o'r syniadau hyn drwy'r broses Cynllun Lle a helpu i ychwanegu gwerth at gynigion eraill.

**Egwyddorion Creu Lle**

- Twristiaeth gynaliadwy
- Rheolaeth lle a chyrchfan

**GWEITHGAREDDAU SY'N CANOLBWYNTIO AR BOBL**

Mae'r gweithgareddau canlynol yn ychwanegu at y cynigion corfforol a'r defnydd o dir a amlinellwyd eisoes. Maen nhw'n ymwneud â phobl, pa un a ydynt yn breswylwyr lleol, grwpiau cymunedol, busnesau lleol neu bobl y mae buddiannau Towyn a Bae Cinmel yn agos at eu calonnau.

Mae'r gweithgareddau canlynol yn dilyn themâu'r Cynllun Lle

**TBC Â'R ADNODDAU CYWIR**

**prynu'n lleol, siopa'n lleol, buddsoddi'n lleol, gweithio'n lleol, tyfu'n lleol, cymdeithasu'n lleol.**

Datblygu ymagwedd 'prynu'n lleol' tuag at weithgareddau ar draws Towyn a Bae Cinmel sy'n cyfeirio trigolion at siopau, bwyd, diod a gwasanaethau lleol. Gallai'r prosiect arwain at ymgyrch a gweithgareddau fel:

- Ymgyrch ddigidol - adeiladu ar y platfform TBKVoice, o bosibl gyda safle micro ar gyfer hyrwyddo a marchnata.
- Cynllun teyrngarwch - mae cardiau 'rhoi stamp' syml neu gerdyn teyrngarwch electronig yn syniad da i hyrwyddo, ar gyfer mentrau ac i helpu busnesau i ddeall ymddygiad prynwyr.
- Cyfleoedd profi/digwyddiadau - gallai'r rhain fod ar gyfer busnes sefydledig neu fusnes newydd i ddangos neu i brofi yr hyn sydd ganddynt i'w gynnig, neu i ddod a phobl at ei gilydd drwy ddigwyddiad cymdeithasol neu swper cymunedol. Gellid gwneud hyn ar sail 'stondin dros dro'.
- Rhwydweithiau busnes i fusnes - mae'r rhain yn helpu gyda rhannu syniadau, archwilio cyfleoedd ar y cyd, traws-farchnata a mwy.
- Digwyddiadau dros-dro/yn y cyfamser - dan do ac yn yr awyr agored gan ddarparu dull heb risg a mwy effeithlon yn ariannol o dreialu syniadau busnes newydd, weithiau mewn ffordd hwyliog a chreadigol. Gellid eu cynnal ger traeth, ym Marchnad Tir Prince neu mewn uned fusnes wag.

**Cymorth sefydliad gwirfoddol a datblygu drwy ymdriniaeth 'prif ganolfan a lloerennau' drwy'r bartneriaeth gymunedol.**

Gall y Bartneriaeth Gymunedol esblygol ddarparu ffocws canolog ar gyfer grwpiau a sefydliadau gwirfoddol i siarad, rhannu heriau ac edrych ar atebion ar y cyd a allent gefnogi dulliau mwy clyfar o weithio, lleihau costau a chysylltu cyfleusterau a llefydd.

**Parhau i rannu newyddion lleol digidol ac mewn print drwy TKBVoice er mwyn cysylltu pobl a grwpiau.**

Mae parhad a chynaliadwyedd o ran cyfathrebu gweithgareddau TKBVoice yn hanfodol o ran sefydlu camau cynharaf y berthynas y bydd yn hanfodol ei meithrin er mwyn gwneud i bethau ddigwydd. Mae sefydlu dulliau cost isel ond effeithlon o sgwrsio a dangos y gall pethau go iawn ddigwydd yn hanfodol os yw’r gymuned am weithredu.

**TBC Gwyrddach**

Mae’r Cynllun Lle yn cynnig nifer o brosiectau seilwaith gwyrdd ar raddfa fawr ar gyfer llefydd fel Parc Hanes ac ar raddfa lai, ond r un mor bwysig, fel tyfu blodau ar silffoedd ffenestr catrefi. Mae gweithgareddau sy’n canolbwyntio ar bobl yn cynnwys:

- Cadw TBC yn daclus - cefnogi grwpiau Cadw’n Daclus presennol drwy ychwanegu at y niferoedd a darparu offer.
- Archwilio gweithgareddau rhagnodi cymunedol drwy’r Seilwaith Gwyrdd gyda’r ganolfan gofal iechyd sylfaenol, cartrefi gofal lleol a grwpiau cymorth.
- Cynnwys preswylwyr yn nyluniad mannau gwyrdd, yn enwedig mannau sy’n addas ar gyfer gwahanol oedrannau ac sydd ag ymwybyddiaeth o ddementia wedi’u cynnwys yn nyluniad prosiectau corfforol.
- Datblygu gweithredu addysgol a chymunedol - drwy weithgaredd ‘o’r fferm i’r fforc’ ac ati, drwy addasu ymgyrchoedd fel Incredible Edibles (cysylltu â grŵp yn Abergele) a gweithio gydag ysgolion cynradd lleol a chymdeithasau preswylwyr ac ati.
- Archwilio modelau menter gymdeithasol gyda chynnyrch a gwasanaethau a allent gynnwys mêl, llysiau, gwehyddu, trwsio beics/ceir, gwaith trwsio mewn cartrefi ymysg pethau eraill.

Peilota rhai gweithgareddau ‘gwyrdd’:

- Clybiau swper cymunedol - prawf o alw a chysyniad ar gyfer defnydd parhaol a busnesau lleol.
- Man profi bwyd a diod

**TBC Egnïol**

Nid yw buddsoddiad corfforol mewn llwybrau ac isaldeiledd yn ddigon i annog pobl i gerdded a beicio mwy.

Gall y gymuned wneud i bethau ddigwydd drwy:

- Clybiau cerdded er lles sy’n creu llwybrau a dolenni ar draws Towyn a Bae Cinmel gan alw mewn caffis lleol fel rhan o greu buddiannau cymunedol a chefnogi busnesau lleol.
- Clybiau beicio neu Sustrans yn rhoi hyfforddiant syml i’r gymuned leol ar ddiogelwch beics a mecaneg sylfaenol.
- Datblygu digwyddiadau hybu lles sy’n manteisio ar yr arfordir neu ardaloedd gwledig e.e. nofio mewn dŵr agored
- Gweithio gyda’r ganolfan gofal iechyd sylfaenol ar atgyfeiriadau gan Feddygon Teulu i glybiau lle gellir gwneud ymarfer corff gyda chysylltiadau â chanolfan hamdden Y Morfa.
- Archwilio a datblygu prosiect ‘tuk tuk’ neu ricsio (gw. Sir Fynwy) sy’n denu pobl allan, yn dileu ynysu cymdeithasol ac yn cefnogi gwirfoddoli a mynediad at wasanaethau sylfaenol.
- Danfoniadau bwyd i bobl mewn oed e.e. Hubbub a’r Cynllun Food Connect

**TBC Mentrus**

Nid oes rhwydwaith busnes yn Nhowyn a Bae Cinmel oherwydd natur wasgarog Towyn a Bae Cinmel ac oherwydd nad oes yno ffocws corfforol fel tre marchnad arferol er enghraifft. Gydag amser mae angen dod a busnesau pobl at ei gilydd i weld os oes gwerth mewn bod â rhwydwaith. Mae syniadau eraill sy’n canolbwyntio ar dwf busnes yn cynnwys:

- Cyswllt â’r ymgyrch â’r rhwydweithiau prynu’n lleol, siopa’n lleol, buddsoddi’n lleol, gweithio’n lleol, tyfu’n lleol, cymdeithasu’n lleol a awgrymwyd.
- Datblygu fframwaith cyflenwyr lleol. Hyrwyddo a digwyddiadau
- Darparu cyngor ar sut i gychwyn a thyfu busnesau - gyda chysylltiadau â marchnadoedd Tir Prince, llefydd gwag, y ganolfan fach ar y traeth.
- Datblygu marchnadoedd ieuenctid yn Nhir Prince.
- Cysylltiadau addysg bellach/uwch at hyfforddiant sy’n cynnwys i) Bwyd a Diod ii) Rheoli Digwyddiadau a iii) Yr Economi Ymwelwyr

TBC Cyrchfan i Bawb

Fel y ‘mat croeso’ ar y trothwy i Fwrdeistref Sirol Conwy mae angen i Dowyn a Bae Cinmel adeiladu ei frand a’i leoliad gyda deunyddiau i ategu hynny, gyda chefnogaeth Dewch i Gonwy Mae angen hefyd archwilio i) Llysgenhadon twristiaeth cymunedol ii) hyfforddi, mentora a dysgu a iii) Gweithgareddau a Datblygu Prosiect Mae telerau eraill yn cynnwys:

- Pasbort cymunedol sy’n cynnwys cerdded a beicio a thrên o Landudno i TBC.
- Trafnidiaeth Cymru fel partner allweddol
- Treial cynllun beics Brompton
- Datblygu digwyddiadau - o’r arfordir i’r wlad - hyfforddiant a chefnogaeth i wirfoddolwyr
- Partneru â pharciau gwyliau - pecyn croeso TBC, calendar o ddigwyddiadau a gweithrediadau - peilota syniadau fel hurio beics/sgwteri

# 9. CYNNLUN GWEITHREDU A RHAGLEN

## Y CYNLLUN GWEITHREDU



ALINIAD Â’R CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AC UCHELGEISIAU RHANBARTHOL

| | | Local Policy – Adopted Local Development Plan – Spatial Objectives | | | | | | | | | | | | | | | | Regional Economic Framework Principles | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Theme | Project | SO1 | SO2 | SO3 | SO4 | SO5 | SO6 | SO7 | SO8 | SO9 | SO10 | SO11 | SO12 | SO13 | SO14 | SO15 | SO16 | 1. The Social & Community Wellbeing | 2. The Experience Economy | 3. The Low Carbon & Low Emission Economy |
| A Resourced TKB | Coastal Defense and Development | ■ | | | | | | | | | | | ■ | | | | | | ■ | |
| | The Square – Shops and Services | | ■ | | | | ■ | ■ | | ■ | | | ■ | ■ | | | | ■ | ■ | ■ |
| | Sandy Cove Improvements | | ■ | | | | | ■ | | | | | ■ | | | | | ■ | ■ | ■ |
| | An Integrated TKB Learning and Well-being Hub | | ■ | | ■ | | | ■ | | | ■ | ■ | | ■ | | | ■ | ■ | | |
| A Greener TKB | Parc Hanes Project | | | | | | | ■ | | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | | | ■ | ■ | | ■ |
| | Connecting and Stringing Together Green Infrastructure | | | | | | | ■ | | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | | | | ■ | ■ | ■ |
| | Growing Projects | | | | | | | ■ | | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | | | | ■ | ■ | ■ |
| An Active TKB | Delivering the Active Travel Integrated Network | | ■ | | | | | ■ | | ■ | ■ | | ■ | ■ | | | | ■ | ■ | ■ |
| | Towyn Crossroads | | ■ | | | | | ■ | | ■ | ■ | | ■ | ■ | | | | ■ | ■ | ■ |
| | The A548 – from a Road to a Coastal Avenue | | ■ | | | | | ■ | | ■ | ■ | | ■ | ■ | | | | ■ | ■ | ■ |
| An Enterprising TKB | Tir Llwyd Employment Use Realisation | | ■ | | ■ | ■ | | ■ | | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | | ■ | ■ | ■ | ■ |
| | Tir Prince – Quality, Year-round Destination | | ■ | | ■ | ■ | ■ | | | ■ | | | | ■ | | | | | ■ | |
| | Start Up [illegible] Grow On Space | | ■ | | ■ | | ■ | ■ | ■ | | | | ■ | | ■ | | ■ | ■ | ■ | ■ |
| | Coastal Enterprise and Development | | ■ | | ■ | | ■ | ■ | ■ | | | | ■ | | ■ | | ■ | ■ | ■ | ■ |
| | Co-working Space Feasibility | | ■ | | ■ | | ■ | ■ | ■ | | | | ■ | | ■ | | ■ | ■ | ■ | ■ |
| TKB – A Destination for All | Kinmel Bay Beach – Destination Focus | | ■ | | | ■ | ■ | | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | | | ■ | | ■ | |
| | Welcome to Towyn [illegible] Kinmel Bay – Signage – Artform | | ■ | | | ■ | ■ | | ■ | | | | | ■ | | | ■ | | ■ | |
| | TKB Events | | ■ | | | ■ | ■ | | ■ | | | | | ■ | | | ■ | | ■ | |
| | Delivering the Active Trav[illegible] Quality, Year-round Crossroads | | ■ | | ■ | ■ | ■ | | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | | | ■ | | ■ | |
| | Heritage, History and Cultural Trails | | ■ | | | ■ | ■ | | ■ | | | | | ■ | | | ■ | ■ | ■ | ■ |
| | Community Led Tourism Initiative | | ■ | | | ■ | ■ | | ■ | | | | | ■ | | | ■ | ■ | ■ | ■ |

**ALINIAD Â'R CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AC UCHELGEISIAU RHANBARTHOL**

**Nodiadau:**

SO1 Galluogi lefelau cynaliadwy o dwf yn y boblogaeth

SO2 Hyrwyddo adfywiad cynhwysfawr Bae Colwyn, Abergele, Towyn a Bae Cinmel i ehangu gweithgaredd economaidd, mynd i'r afael ag allgau cymunedol a lleihau amddifadedd drwy'r Fenter Ardal Adfywiad Strategol.

SO3 Darparu tir a datblygu cyflenwad amrywiol o dai i gyfrannu at yr angen, yn cynnwys tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol, ac i gwrdd ag anghenion sipsiwn a theithwyr, ar raddfa sy'n cyd-fynd â gallu gwahanol ardaloedd a chymunedau i dyfu.

SO4 Adnabod a diogelu tir i gwrdd ag angen y gymuned am fwy o swyddi a mwy o ffyniant economaidd ac i leihau lefelau cymudo allan gan ganolbwyntio'n benodol ar gyfleoedd cyflogaeth o werth uwch a datblygu sgiliau yn ac o amgylch canolbwyntiau strategol Conwy, Llandudno, Cyffordd Llandudno a Bae Colwyn ac yn lleoliad hygyrch a chynaliadwy Abergele.

SO5 Annog atgyfnerthu ac amrywio'r economi wledig lle bo hynny'n cyd-fynd â buddion yr economi leol, y gymuned a'r amgylchedd.

SO6 "Datblygu cyrchfannau canol tref fywiog ar gyfer siopa, busnes a masnach, diwylliant, adloniant a hamdden trwy warchod a gwella bywiogrwydd, hyfywedd a dengarwch Llandudno fel canolfan fanwerthu isranbarthol strategol, ac adfywio canol tref Bae Colwyn a chanolfannau siopa allweddol eraill".

SO7. Canolbwyntio ar ddatblygu ar hyd yr isadeiledd presennol ac arfaethedig, ac yn benodol, mewn lleoliadau sy'n gyfleus ar gyfer cerddwyr, beicwyr a chludiant cyhoeddus.

SO8 Cynorthwyo twristiaeth drwy ddiogelu a gwella atyniadau a llety twristiaeth arfordirol a gwledig a cheisio manteisio ymhellach ar y potensial i ddatblygu, cryfhau ac annog y diwydiant twristiaeth gydol y flwyddyn.

SO9 Annog patrymau effeithiol o symud a chydnabod y rôl strategol y bydd yr A55 a choridorau rheilffyrdd yn ei chwarae o ran diwallu anghenion datblygu Ardal y Cynllun ac i dalu sylw penodol i leoliadau datblygu sy'n gyfleus i gerddwyr a beicwyr yng Nghonwy er mwyn cynorthwyo i ostwng allyriadau CO2  cludiant."

S010 Sicrhau dylunio da, cynaliadwy a chynhwysol, yn cynnwys dylunio sy'n rhwystro sydd â chymeriad lleol unigryw ac annog y boblogaeth iau i aros yn, neu i ddychwelyd i'r ardal.

SO11 Lleihau'r defnydd o ynni drwy ddylunio a lleoli  adeiladau yn ofalus a thrwy hyrwyddo datblygiadau ynni adnewyddadwy lle mae posibilrwydd y byddant yn economaidd ddeniadol ac yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol dderbyniol.

SO12 Diogelu a gwella cymeriad ac edrychiad ardaloedd arfordirol a gwledig sydd wedi'u tan-ddatblygu, safleoedd sy'n bwysig oherwydd y dirwedd neu o safbwynt cadwraeth, nodweddion o ddiddordeb archeolegol, hanesyddol a phensaernïol a sicrhau y diogelir amrywiaeth a rhywogaethau gwarchodedig.

SO13 Diogelu a gwella'r gallu i gyrraedd at wasanaethau a chyfleusterau hanfodol, yn cynnwys mannau agored, rhandiroedd, iechyd, addysg a hamdden

SO14 Hyrwyddo’r defnydd darbodus o adnoddau drwy leihau gwastraff a chynorthwyo Darparu rhwydwaith integredig o gyfleusterau rheoli gwastraff sy’n cyd-fynd ag anghenion yr ardal a’r hierarchaeth gwastraff.

SO15 Cyfrannu at anghenion mwynau rhanbarthol a lleol mewn modd cynaliadwy

SO16 Sicrhau bod datblygiad yn cefnogi ac yn cynnal lles hirdymor y Gymraeg a chymeriad a chydbwysedd ieithyddol y cymunedau yn Ardal y Cynllun

## DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
yw'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n pennu'r angen i ni ymgymryd â datblygiad cynaliadwy

Dylai hyn sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain. Wrth ymgymryd â datblygiad cynaliadwy rhaid cyhoeddi amcanion lles sydd wedi'u dylunio i wneud y mwyaf o'r cyfraniad tuag at wireddu'r saith nod llesiant cenedlaethol ac i gymryd yr holl gamau rhesymol posibl i ddiwallu'r amcanion. Mae'r saith nod llesiant i'w gweld yn y diagram isod ac mae ein nodau llesiant ni ein hunain wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn.

Wrth gynllunio ar gyfer gwasanaethau a chymryd camau i ddiwallu ein hamcanion lles yn Nhowyn a Bae Cinmel, rhaid nid yn unig ystyried ond hefyd ddangos yr egwyddorion llywodraethu cynaliadwy canlynol yn ein prosesau gwneud penderfyniadau.

- Cydbwyso anghenion byrdymor a hirdymor
- Defnyddio ymdriniaeth integredig, cydbwyso anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol
- Cynnwys eraill ac ystyried eu barn.
- Cydweithio ag eraill
- Buddsoddi adnoddau er mwyn rhwystro problemau

### Integreiddio

Mae dod â Thowyn a Bae Cinmel at ei gilydd yn yr ystyr gorfforol yn hollbwysig i'w swyddogaeth fel lle i fyw, i ddysgu, i weithio ac i ymweld ag o. Mae hyn yn ymwneud ag integreiddio safleoedd ac adeiladau drwy strydoedd sydd yn hygyrch ac yn ddeniadol. Mae'n ymwneud hefyd â datblygu hunaniaeth gydlynol i'r trefi sydd yn ddeniadol i ddefnyddwyr, busnesau a buddsoddwyr y dyfodol.

### Hirdymor

Mae'r ddogfen Gweledigaeth a Strategaeth hon yn ymwneud â lleoli'r gymuned gyda nifer o gynigion mwy a fydd yn gofyn am gryn ddatblygiad a thrafodaethau cyn y gellir eu rhoi ar waith. Mae'r ddogfen hefyd yn dynodi rhai prosiectau 'enillion cyflym' sy'n helpu i feithrin hyder cyn i'r buddsoddiadau mwy ddigwydd

### Lles

Mewn mannau fel TBC mae amrywiaeth a chyfleoedd cyfartal yn bwysig. Mae ar y gymuned angen mynediad at wasanaethau sylfaenol, cyngor a gofal iechyd yn ogystal â lle i gymdeithasu a rhyngweithio. Mae nifer o'r cynigion yn ymwneud â byw yn iach, gwasanaethau cymunedol a gallu cael mynediad at fannau gwyrdd

### Cydweithio

Bydd y Weledigaeth â'r Strategaeth yn cael eu darparu drwy gydweithio a gwaith partneriaeth amlsector a thrwy weithio ar lefelau strategol a lleol.

### Cyfranogiad

Nod y ddogfen hon yw galluogi newid sy'n galw am gydweithio a gwaith partneriaeth gweithredol.

ALINIO'R PROSIECT Â NODAU DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

| Theme | Project | A prosperous Wales | A resilient Wales | A healthier Wales | A more equal Wales | A Wales of cohesive communities | A Wales of vibrant culture and thriving | Welsh language | A globally responsible Wales |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A Resourced TKB | Coastal Defense and Development | | ■ | ■ | | ■ | | | ■ |
| | The Square – Shops and Services | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ |
| | Sandy Cove Improvements | | ■ | ■ | ■ | ■ | | | ■ |
| | An Integrated TKB Learning and Well-being Hub | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ |
| A Greener TKB | Parc Hanes Project | | ■ | ■ | ■ | ■ | | | ■ |
| | Connecting and Stringing Together Green Infrastructure | | ■ | ■ | ■ | ■ | | | ■ |
| | Growing Projects | ■ | | | | | | | |
| An Active TKB | Delivering the Active Travel Integrated Network | | ■ | ■ | ■ | ■ | | | ■ |
| | Towyn Crossroads | | ■ | ■ | ■ | ■ | | | ■ |
| | The A548 – from a Road to a Coastal Avenue | | ■ | ■ | ■ | ■ | | | ■ |
| An Enterprising TKB | Tir Llywd Employment Use Realisation | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ |
| | Tir Prince – Quality, Year-round Destination | ■ | | | | | ■ | | |
| | Start-up and Grow On Space | ■ | ■ | | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ |
| | Coastal Enterprise and Development | ■ | ■ | | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ |
| | Co-working Space Feasibility | ■ | ■ | | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ |
| TKB – A Destination for All | Kinmel Bay Beach – Destination Focus | ■ | ■ | ■ | | | ■ | ■ | ■ |
| | Welcome to Towyn and Kinmel Bay – Signage – Artform | | | | | | ■ | | |
| | TKB Events | | | ■ | | ■ | ■ | ■ | |
| | Tir Prince – Quality, Year-round Destination | ■ | | | | | ■ | | |
| | Heritage, History and Cultural Trails | | | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | |
| | Community Led Tourism Initiative | | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ |

# 10. GWNEUD IDDO DDIGWYDD

**FFYRDD O WEITHIO**

**Datblygiad a Darpariaeth**

Nod Partneriaeth Gymunedol TKBVoice yw arwain a chefnogi datblygiad Cynllun Cymunedol Towyn a Bae Cinmel gan drosi syniadau'n atebion a gweithredoedd sy'n cynhyrchu manteision cymunedol amlwg ar i Dowyn a Bae Cinmel.

Mae'r bartneriaeth wedi ymrwymo i'r 7 nod a'r 5 ffordd o weithio sydd wedi'u hamlinellu yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac i gefnogi egwyddorion ac ymarfer cyd-gynhyrchu, y Ddeddf Cydraddoldeb, y ddyletswydd economaidd gymdeithasol a Deddf yr Iaith Gymraeg.

Mae Partneriaeth Gymunedol TKBVOICE yn gorff gwirfoddol, anstatudol sy'n cael ei redeg gan wirfoddolwyr. Ei bwrpas craidd yw gwella agweddau corfforol a chymdeithasol Towyn a Bae Cinmel a'i sefydlu fel lle bywiog a chynaliadwy yng Ngogledd Cymru. Rôl y Bartneriaeth yw adnabod, cytuno ar, a mynd i'r afael â blaenoriaethau'r gymuned drwy fabwysiadu Cynllun Lle cymunedol sy'n seiliedig ar broses o ymgysylltu ac ymgynghori gyda phobl leol yn ogystal ag ymwelwyr â'r ardal.

Bwriad Partneriaeth Gymunedol TKBVoice yw bod yn grŵp arweinyddiaeth sy'n angori cynnydd a datblygiadau:

- yn cefnogi a galluogi gweithredu sy'n cael ei arwain gan y gymuned yn Nhowyn a Bae Cinmel.
- yn rhannu syniadau ac atebion
- yn hyrwyddo a modelu gweithredu ar y cyd
- ac
- yn gwneud y lle yn well rŵan ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Mae'r Bartneriaeth Gymunedol ar gamau cynharaf ei datblygiad o hyd ac yn dal i feithrin perthnasoedd ac ymddiriedaeth ac i ddod o hyd i'w ffordd ei hun o weithio.

Un elfen o ffocws y Bartneriaeth fydd y Cynllun Lle, ond bydd yn pennu cyfeiriad strategol ar gyfer y 15 mlynedd nesaf. Mae'r prosiectau'n dynodi partneriaid posibl, dibyniaethau ac amserlen ar gyfer datblygu a chyflwyno. Bydd ar y Bartneriaeth Gymunedol felly angen rhoi ystyriaeth i'w man cychwyn, y sgiliau, yr adnoddau a'r capasiti sydd ganddi, ac yn bwysicach na dim, beth yw'r blaenoriaethau cymunedol. Mae'r Cynllun Lle hefyd yn amlinellu rhai gweithgareddau seiliedig ar bobl sy'n ymwneud â threialu a pheilota syniadau. Bydd y rhain yn helpu i feithrin gwaith tîm, yn isel eu cost ac yn dangos rhywfaint o weithredu gweladwy ar lawr gwlad.

DELWEDDU LLWYDDIANT

Mae'r angen i ddeall sut mae llwyddiant yn edrych yn bwysig wrth alluogi a chyflawni newid mewn lle fel Towyn a Bae Cinmel. Mae'n ein helpu ni i ddeall pa ganlyniadau yr anelir atynt a'r broses y mae'n rhaid ei dilyn eu mwyn eu gwireddu. Mae gallu i ddelweddu llwyddiant hefyd yn beth da o ran cymhelliant a'r dyhead i weithredu dros bwrpas cyffredin a meithrin hyder a pherthnasoedd Yn bwysig iawn hefyd mae'n dangos i'r sefydliadau hynny sy'n ariannu prosiectau fod allbynnau a chanlyniadau'n cael eu gwireddu a bod elw'n deillio o fuddsoddiad. Mae'r diagram yn rhoi enghreifftiau o allbynnau a chanlyniadau fesul thema.

Yn dilyn hyn mae tabl o ‘fetrigau lle’ sy’n dangos cyfres o ddangosyddion y gellid eu defnyddio i fonitro cynnydd,  fesul cymdogaeth ac yn ôl thema. Ochr yn ochr â’r allbwn a’r canlyniadau, byddai’r rhain yn ffurfio rhan o’r fframwaith gwerthuso y gallai partneriaeth lle i ddefnyddio i fonitro cynnyd

**METRIGAU**

| | TBC GYDA'R ADNODDAU CYWIR | TBC GWRDDACH | TBC EGNIOL | TBC MENTRUS | CYRCHFAN I BAWB |
|---|---|---|---|---|---|
| **STRATEGOL** | • nifer y bobl sy'n economaidd weithredol<br>• Nifer y bobl sydd wedi'u cyflogi<br>• Nifer y sefydliadau sy'n derbyn cymorth heb fod yn ariannol<br>• Nifer y bobl sy'n profi gwell cynhwysiant cymdeithasol | • Cyfanswm arwyneb sgwâr o seilwaith gwyrdd/glas a ychwanegwyd neu sydd wedi ei wella o ganlyniad i'r cymorth ar roddwyd | • Metrau llinellog o deithio llesol<br>• Nifer y defnyddwyr | • Nifer y bobl sy'n economaidd weithredol<br>• Nifer y bobl sydd wedi'u cyflogi<br>• Nifer y busnesau sy'n derbyn cymorth heb fod yn ariannol | • Nifer yr ymwelwyr<br>• Faint o amser y bydd ymwelwyr yn ei dreulio mewn lleoliad<br>• Gwariant ymwelwyr<br>• Bodlonrwydd ymwelwyr<br>• Newid yng nghanfyddiadau ymwelwyr |
| **LLEOL** | • Cilomedrau sgwâr o diroedd/ffyrdd wedi'u gwella<br>• Cilomedrau sgwâr o gyfleusterau cymunedol newydd/wedi'u gwella<br>• Cilomedrau sgwâr o le dysgu wedi'i wella<br>• Nifer defnyddwyr adeiladau cymunedol<br>• Nifer y grwpiau cymunedol a gefnogwyd | • Nifer y bobl sy'n manteisio ar fannau agored ac yn ymgysylltu â'r seilwaith gwyrdd<br>• yn cymryd rhan mewn garddio a thyfu cymunedol.<br>• Nifer y bobl ar lwybrau rhagnodi cymunedol<br>• Nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant<br>• Nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant | • Nifer y symudiadau cerdded/ beicio<br>• Nifer y teithwyr:<br>• Cyfrfif ansawdd yr aer<br>• Nifer y cerddwyr ar Lwybr Arfordir Gogledd Cymru<br>• Nifer y beicwyr ar Lwybr Beicio Cenedlaethol<br>• Nifer y cerbydau ar yr A548<br>• Nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon, gweithgareddau | • Nifer yr eiddo gwag (masnachol)<br>• Amrywiaeth o ddefnydd<br>• Amser aros cyfartalog<br>• Nifer y cerddwyr<br>• Cadwyni cyflenwi lleol a gefnogwyd<br>• Nifer yr agoriadau i fusnesau lleol<br>• % twf mewn busnesau sydd eisoes yn bodoli | • Gwariant sy'n cael ei gadw yn yr economi leol<br>• Nifer y digwyddiadau<br>• Nifer y cynnyrch newydd i ymwelwyr<br>• Nifer y bobl mewn hyfforddiant<br>• Dilyniant ac ymgysylltiad digidolt |

| | TBC GYDA'R ADNODDAU CYWIR | TBC GWRDDACH | TBC EGNIOL | TBC MENTRUS | CYRCHFAN I BAWB |
|---|---|---|---|---|---|
| | • Nifer y grwpiau cymunedol newydd a ffurfiwyd<br>• Nifer y grwpiau cymunedol a gefnogwyd | • Nifer y mentrau gwyrdd a grewyd | amser hamdden neu weithgaredd arall. | | |

**MONITRO A GWERTHUSO**

Mae’r tablau canlynol yn amlinellu’r pum thema ac yn rhoi rhai enghreifftiau o allbynnau a chanlyniadau’r dyfodol wrth i weithredoedd gael eu datblygu a’u darparu

| Thema | Allbynnau | Allbynnau | Allbynnau | Canlyniadau | Canlyniadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **A TBC GYDA’R ADNODDAU CYWIR** | Gwella asedau cymunedol | Gwella ardaloedd yn y gymdogaeth | Datblygu gweithgareddau newydd i bobl | Mae TBC yn gynhwysol i bawb ac yn cefnogi lles a rhwydweithiau cymunedol a llwybrau seiliedig ar bobl. | Mae gweithgaredd rhyng-genhedlaeth yn creu cydlyniad cymunedol cryf gyda phawb yn gofalu am ei gilydd. |
| **A TBC GWRDDACH** | Creu a gwella’r seilwaith gwyrdd yn yr ardal | Nifer y cynlluniau Tyfu cymunedol | Nifer y darpariaethau chwarae sydd wedi eu gwella neu eu creu | Lleoedd, strydoedd a thir yn cefnogi’r agenda newid hinsawdd ac yn gwella ansawdd bywyd yn y cymunedau. | Mae’r seilwaith gwyrdd yn elfen allweddol o TBC o ran menter a gweithgareddau ymwelwyr yn lleol. |
| **TBC EGNIOL** | Cynnydd yn nifer y mannau i gerddwyr | Metrau o deithio llesol wedi’u cynyddu/ eu creu | Camau cludiant yn gwella | Man lle mae’r preswylwyr yn dewis cerdded, mynd ar gefn beic neu ddefnyddio cludiant cyhoeddus ar gyfer teithiau lleol. | Maint y traffig wedi lleihau, ansawdd yr aer wedi gwella a manteision economaidd ac amgylcheddol cadarnhaol |
| **TBC MENTRUS** | Nifer y mentrau newydd a grewyd | Nifer y clystyrau busnes cryf sydd â hunaniaeth leol | Nifer y swyddi newydd a grëwyd | Lle sy’n creu menter o’r tu mewn gan ddefnyddio asedau, gwybodaeth a phartneriaethau lleol. | Cynnig cyflogaeth cytbwys yn cefnogi anghenion pobl leol, yn codi lefelau incwm ac yn codi pobl allan o dlodi |

| Thema | Allbynnau | Allbynnau | Allbynnau | Canlyniadau | Canlyniadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **TBC MENTRUS** | Gwelliant yn yr isadeiledd ymwelwyr | Mentrau Twristiaeth wedi'u Harwain gan y Gymuned | Nifer y mentrau ymwelwyr a grewyd yn lleol | TBC yn adnabyddus fel y 'mat croeso' i Fwrdeistref Sirol Conwy | TBC yn gyrchfan sy'n apelio at farchnad ymwelwyr ehangach sy'n arwain at fanteision economaidd uniongyrchol |

Penseiri Roberts Limbrick
Swyddfa’r Ystâd
25-26 Gold Tops
Newport,
NP20 4PG

Ffôn: 03333 405 500
mail@robertslimbrick.com

Chris Jones
15 Nevill Street
Y Fenni,
Sir Fynwy,
NP7 5AA

Ffôn: 01873 880 666
chris@chrisjones.studio